# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 2 a 9 Mehefin 2005

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

26 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

37 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

40 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

40 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

62 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

63 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Leighton Andrews:** Pa ystyriaeth a roddwyd i Adroddiad Mountfield 1997 ac Adroddiad Phillis 2004 ar ddulliau cyfathrebu'r Llywodraeth wrth gynllunio strategaeth gyfathrebu ei weinyddiaeth? (WAQ42962)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod gwerth y naill a'r llall o'r adroddiadau hyn wrth gynllunio datblygiad parhaus ein strategaethau cyfathrebu.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r digwyddiadau y bu iddo eu mynychu ar 8 Mai 2005? (WAQ42998)

**Y Prif Weinidog:** Parti teuluol preifat i ddathlu canlyniad Gogledd Caerdydd yn yr etholiad cyffredinol.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwahoddiadau a derbyniodd i ddigwyddiadau ar 8fed Mai 2005? (WAQ42999)

**Y Prif Weinidog:** Cefais un gwahoddiad oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin i fynd i Achlysur Trosglwyddo Ffagl y Gemau Olympaidd Arbennig, Gorfodi'r Gyfraith, ac i Ddiwrnod Allan Mawr Llanelli.

**Jonathan Morgan:** Ers iddo gael ei benodi pa westai sydd â chyfleusterau golff mae'r Prif Weinidog wedi aros ynddynt yn rhinwedd ei swydd, ac ar ba ddyddiadau? (WAQ43178)

**Jonathan Morgan:** A yw'r Prif Weinidog, yn rhinwedd ei swydd, wedi aros mewn unrhyw westy sydd â chyfleusterau golff, heb iddo yntau na'r Cynulliad dalu am aros yno? (WAQ43179)

**Y Prif Weinidog:** Ar gyfer agoriad Cwpan Ryder ym mis Medi 2002, arhosais yng Ngwesty'r Belfry. Talwyd fy nghostau i gyd o arian Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**William Graham:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael am effeithiau lefelau staffio ar y gwasanaethau a ddarperir gan BBC Cymru ? (WAQ42970)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae fy swyddogion a minnau yn trafod materion o ddiddordeb sy'n effeithio ar Gymru gyda'r darlledwyr yn rheolaidd, yn cynnwys materion cyflogaeth. Byddaf yn parhau i amlygu'r angen am BBC Cymru cryf yn ystod yr adolygiad o siarter brenhinol y BBC.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith 6 mis cyntaf Canolfan Mileniwm Cymru ar ddarpariaeth gelfyddydol yng Nghymru? (WAQ42971)

**Alun Pugh:** Mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi cael effaith fawr ar y ddarpariaeth gelfyddydol yng Nghymru. Dyma gartref eiconig newydd cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, wrth gwrs, sydd wedi agor yno i adolygiadau rhagorol a chynulleidfaoedd llawn. Cafodd cynhyrchiad y cwmni o *Wozzeck* ei ganmol yn gwbl haeddiannol fel cynhyrchiad gwych, ac mae wedi cael dechreuad rhagorol i'w ail dymor gyda chynhyrchiad newydd arbennig o *The Magic Flute*.

Mae'r ganolfan hefyd wedi dangos gwaith nad yw erioed wedi cael ei weld yng Nghymru o'r blaen, o Bale Kirov i'r Cirque Eloize.

Yn ogystal â'r £2 filiwn y flwyddyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddarparu i gynorthwyo'r ganolfan i weithredu, byddaf yn darparu £2 filiwn y flwyddyn yn ychwanegol i gynorthwyo a datblygu'r celfyddydau y tu allan i Gaerdydd.

Bydd cyfle i aelodau'r pwyllgor diwylliant holi rheolwyr Canolfan Mileniwm Cymru yn fanwl ar 15 Mehefin—cawsant wahoddiad i fod yn bresennol y diwrnod hwnnw.

**Laura Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar chwaraeon cymunedol ar gyfer pobl anabl yng Nghymru? (WAQ42972)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llwyr drwy ei strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, 'Dringo'n Uwch', i hyrwyddo mynediad cydradd at gyfleoedd chwaraeon cymunedol i bawb, a hynny mewn modd cynhwysol. Mae ein targedau strategol yr un mor gymwys i bobl sydd ag anabledd. Erbyn hyn mae rhyw 11,000 o gyfleoedd chwaraeon y flwyddyn yn cael eu creu i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ar gyfer pobl anabl yng Nghymru—cynnydd o 733 y cant er 2002.

Gan adeiladu ar lwyddiant Gemau Paralympaidd 2004, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithio'n agos gyda Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru i sefydlu strwythur sy'n gallu canfod a datblygu doniau ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Gyda chymorth £450,000 o gyllid yn 2005-06, bydd yr ymdrechion yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan mewn chwaraeon i bobl anabl, o lefel llawr gwlad a'r gymuned i'r lefel elît. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynyddu nifer y clybiau lleol sydd ar gyfer pobl ag anabledd yn benodol, datblygu modelau integreiddio o fewn chwaraeon cymunedol, annog technegau hyfforddi sy'n canolbwyntio ar chwaraeon i bobl anabl, hyfforddiant penodol i wirfoddolwyr, a datblygu cystadlaethau strategol sy'n ddolen gyswllt at lwybrau perfformiad Paralympaidd/Byddarlympaidd y rhoddir blaenoriaeth iddynt ac at strwythurau anabledd deallusol.

Yr ydym hefyd yn cefnogi'r Gemau Olympaidd Arbennig yn Glasgow 2005 ac yr ydym wedi cyflwyno'r cynllun nofio am ddim i blant, pobl ifanc a phobl hyn, lle'r ydym yn gweithio gyda Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru i gael gwared â rhwystrau rhag cymryd rhan, a sicrhau bod sesiynau nofio strwythuredig yn cael eu darparu ledled Cymru i'r rhai sydd ag anabledd.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu rygbi yn y Gogledd? (WAQ42973)

**Alun Pugh:** Bydd Undeb Rygbi Cymru yn cyhoeddi ei strategaeth i ddatblygu rygbi yng Nghymru yn fuan, ac mae'r strategaeth hon yn cydnabod anghenion penodol dosbarth gogledd Cymru. Mae'r undeb yn dal i ymrwymo i weithio gyda phob partner, yn cynnwys clybiau'r ardal a Scarlets Llanelli, i gynyddu cyfranogiad a chreu mwy o gyfleoedd i chwaraewyr o'r Gogledd i symud ymlaen i lefelau lled-broffesiynol a phroffesiynol y gêm.

Mae cynnig i ddatblygu academi rygbi yn y Gogledd, sydd wedi cael cefnogaeth mewn egwyddor gan Undeb Rygbi Cymru, yng nghyfnod cynnar iawn ei ddatblygiad. Cyfarfu fy swyddogion â swyddogion y prosiect yn ddiweddar a bu modd iddynt gynnig cyngor ar y materion allweddol dan sylw. Mae'r undeb a Chyngor Chwaraeon Cymru hefyd yn rhoi cyngor i dîm y prosiect ar eu cynlluniau. Byddaf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol ar y mater hwn a byddwn yn barod iawn i rannu'r wybodaeth honno gyda chi.

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y celfyddydau a chwaraeon yn y broses o adfywio'r Cymoedd? (WAQ42974)

**Alun Pugh:** Yn ddiwylliannol, mae gan Gymru draddodiad cryf, delwedd ryngwladol bositif a chryfderau economaidd posibl mawr. Cydnabyddir erbyn hyn fod y celfyddydau a chwaraeon yn chwarae rhan bwysig yn y broses o adfywio ein cymunedau drwy ryngweithio diwylliannol, iechyd a lles. Mae'r gwariant ar y celfyddydau a chwaraeon yn uwch nag y bu erioed: mae'r gwariant ar y celfyddydau wedi cynyddu dros 100 y cant er 1999 ac mae £12 miliwn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi mewn chwaraeon yn flynyddol er mwyn canolbwyntio'n benodol ar y cymunedau sy'n fwyaf eu hangen.

Mae'r lefel hon o fuddsoddi wedi bod yn ffactor pwysig yn adfywiad cymoedd y De. Mae gwariant penodol Cyngor Celfyddydau Cymru yng nghymoedd y De, sef Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen a Chastell-nedd Port Talbot, er mis Ebrill 1998, yn £16.2 miliwn. Hefyd, mae £50.2 miliwn wedi cael ei wario gan gyngor y celfyddydau ar brosiectau i Gymru gyfan sy'n cynnwys gweithgarwch yn y rhanbarthau hyn.

Er 1994, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cyfrannu dros £25 miliwn tuag at ddarparu cyfleoedd a chyfleusterau chwaraeon yn y Cymoedd hyn. O 2003, yr oedd hyn yn cynnwys £800,000 o arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r cynllun addysg gorfforol mewn chwaraeon ysgol.

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau gwaith Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar gyfer y dyfodol? (WAQ42975)

**Alun Pugh:** Cyhoeddodd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru weledigaeth ar gyfer y dyfodol, 'Creu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd', yn gynnar ym mis Mawrth. Mae'r adborth yn cael ei gasglu ynghyd ar hyn o bryd a chaiff ei ddefnyddio fel sail i gynlluniau'r amgueddfa ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt. Caiff cynllun datblygu amlinellol ar gyfer 2006-07 i 2015-16 ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, a bydd hwn yn cael ei weithredu drwy gynlluniau corfforaethol tair blynedd a blwyddyn mwy manwl, fydd yn cael eu cyflwyno i mi yn y ffordd arferol.

**Carl Sargeant:** Sut mae'r cynnydd yn y buddsoddiad ym maes chwaraeon wedi sicrhau cyfleusterau chwaraeon gwell yng Nghymru ers 1999? (WAQ42976)

**Alun Pugh:** Er 1999, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi dyrannu £67 miliwn o arian Sportlot tuag at ddarparu dros 300 o brosiectau cyfalaf cenedlaethol a lleol ar draws Cymru. Yr ydym wedi gweld prosiectau o bwys, megis Pwll Cenedlaethol Cymru yn Abertawe a Felodrom Cenedlaethol Cymru yn cael eu gwireddu, ynghyd â gwelliannau holl bwysig i gyfleusterau cymunedol ar draws y wlad. Yn y Gogledd, cafwyd buddsoddi sylweddol mewn cyfleusterau newydd a chyfleusterau wedi eu gwella. Er enghraifft, yn Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi dros £930,000 tuag at y costau o godi neuadd chwaraeon chwe chwrt, ystafelloedd newid a chae â glaswellt artiffisial, ac mae'n ystyried cais am gyllid grant yn NEWI i adeiladu cae â glaswellt artiffisial wedi'i seilio ar ddwr, ynghyd â chyfarpar a phedair ystafell newid ychwanegol.

Bydd cyllideb chwaraeon Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu o sylfaen a etifeddwyd o £6.8 miliwn yn 1999 i £24 miliwn erbyn 2007-08, i gynorthwyo i wireddu 'Dringo'n Uwch', ein strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r cyllid hwn yn canolbwyntio ar refeniw a bydd yn gyrru'r cyfraddau cyfranogi uwch mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol sydd mor angenrheidiol os yw Cymru i ddod yn genedl fwy ffit ac iach.

Yr wyf yn ymwybodol o'r angen parhaus am fuddsoddi cyfalaf ac o'r pwysau cynyddol ar gyllideb Sportlot. Dyna pam, y llynedd, y rhyddheais £161,000 ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf yn ein canolfannau cenedlaethol. Eleni, mae £700,000 o arian cyfalaf ychwanegol wedi cael ei ddarparu i Gyngor Chwaraeon Cymru tuag at ddatblygu cyfleusterau chwaraeon cenedlaethol/rhanbarthol, a bydd yr arian hwn, gan mwyaf, yn gymorth tuag at gyfleuster hoci cenedlaethol newydd. Fel Llywodraeth, yr ydym hefyd wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cyfleusterau academi cenedlaethol ar gyfer rygbi a phêl-

droed, ac mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn awyddus iawn i'w weld yn cael ei wireddu cyn gynted â phosibl.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau gweithredu Bwrdd yr Iaith Gymraeg? (WAQ42977)

**Alun Pugh:** Mae rôl arloesol y cynlluniau gweithredu iaith yn cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn cael ei chydnabod yn 'Iaith Pawb'.

Mae cynlluniau gweithredu iaith yn targedu cymunedau neilltuol er mwyn grymuso'r gymuned leol a chyd-drefnu gweithgareddau unigolion a chyrff lleol. Caiff cynllun gweithredu iaith ei sefydlu a'i ddatblygu yn unol â thri amcan penodol:

- gweithio gyda'r gymuned leol i ganfod anghenion lleol a hwyluso'r ffordd i'r gymuned i gyfrannu tuag at ddatblygu gweithgareddau newydd a fydd yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny;
- cyd-drefnu ymdrechion partneriaid lleol y bwrdd, yn cynnwys gweithio'n agos gyda llywodraeth leol, y fenter iaith leol, Mudiad Ysgolion Meithrin, yr Urdd ac eraill;
- rhoi sylw ychwanegol i gyrff lleol sydd â chynllun iaith Gymraeg, fel bod modd datblygu'r cynllun i fod yn arf pwrpasol sy'n gymorth yn y gwaith o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae 12 cynllun gweithredu iaith yn bodoli, wedi'u lleoli yn Abergwaun, Aberteifi, Rhydaman, Casnewydd, Corwen, Rhuthun, Llanrwst, Bangor, Amlwch, Pwllheli, penrhyn Llyn a Machynlleth.

Datblygir pob cynllun gweithredu iaith drwy gyd-drefnu'r gweithgareddau sy'n bodoli'n barod a datblygu rhai newydd mewn partneriaeth â'r gymuned leol a phartneriaid lleol er mwyn cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adolygiad gyfnod 3 OFCOM o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus? (WAQ42978)

**Alun Pugh:** Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymateb i gyfnod 3 adolygiad OFCOM fis diwethaf. Mae copi wedi cael ei roi ar wefan y Cynulliad.

**Lisa Francis:** Ymhellach i WAQ42671, pa argymhellion, os o gwbl, y mae'r Gweinidog neu ei swyddogion wedi'u gwneud i'r Eisteddfod ynglŷn â moderneiddio? (WAQ42996)

**Alun Pugh:** Mae'r arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r Eisteddfod Genedlaethol y llynedd a'r gefnogaeth sy'n dal i gael ei rhoi iddi gan Lywodraeth y Cynulliad yn amodol ar i'r Eisteddfod barhau i foderneiddio ac ehangu ei hapêl.

Yn ychwanegol at hynny, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi cytuno ar gyfres o amodau grant ar gyfer 2005-06. Mae'r rhain yn cynnwys

- cwblhau'r broses o ailstrwythuro mewnol gyda golwg ar barhau i foderneiddio;
- datblygu a gweithredu strategaeth farchnata gynhwysfawr;
- adolygu darpariaeth yr Eisteddfod gyda golwg ar gynyddu ei hapêl i'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg a phobl ddi-Gymraeg;
- cynnal cyfarfodydd bob yn ail fis gyda swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fonitro'r cynnydd o ran y targedau hyn a thargedau eraill.

Mae'r Eisteddfod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion yn adroddiad Stevens. Cyflwynwyd arferion arloesol y llynedd, yng Nghasnewydd, a fu'n help i wella'r profiad i ymwelwyr o ddysgwyr ac ymwelwyr di-Gymraeg.

Yr wyf yn falch fod llys yr Eisteddfod wedi pleidleisio o blaid bwrdd rheoli i redeg yr Eisteddfod o ddydd i ddydd. Bydd hyn yn symleiddio'r drefn benderfynu ac yn help i sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Eisteddfod.

**Jenny Randerson:** Pa drafodaethau fu rhwng y Gweinidog a Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynghylch eu cynlluniau i wario cyllid UEFA? (WAQ43069)

**Alun Pugh**: Nid wyf wedi cael trafodaethau gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru am ei chynlluniau cyfredol i wario cyllid UEFA. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol fod pryderon wedi cael eu mynegi am benderfyniad cyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru i adleoli ei bencadlys yng Nghaerdydd, er nad yw'r gymdeithas bêl-droed wedi rhyddhau'r manylion cyllido y seilir y symudiad hwn arnynt. Mater mewnol i'r gymdeithas bêl-droed, ei haelodaeth etholedig a'r clybiau i roi sylw iddo yw hwn, o fewn fframwaith llywodraethu y gamp ei hun.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru, yn unol ag argymhellion y fforwm pêl-droed, wedi nodi mai datblygu cyfleuster academi genedlaethol ar gyfer pêl-droed, a rygbi, Cymru yw ein blaenoriaeth strategol allweddol.

**Eleanor Burnham:** Gyda golwg ar gyflwyniad y Gweinidog i ymgynghoriad OFCOM ar Adolygiad Cam 3, 'Cynigion ar gyfer y Cenhedloedd', pa gyflwyniadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud/yn bwriadu eu gwneud i Lywodraeth y DU er mwyn cynorthwyo twf a datblygiad y sector cyfryngau annibynnol yng Nghymru? (WAQ43103)

**Alun Pugh:** Bydd y sector cyfryngau annibynnol yng Nghymru yn elwa o strategaeth diwydiannau creadigol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff y sector gyfle i fanteisio ar y gronfa eiddo deallusol newydd gwerth £7 miliwn, sy'n weithredol erbyn hyn, ac i elwa o'r trefniadau cymorth busnes newydd a'r gwell hyfforddiant sy'n cael ei gynllunio ar y cyd â chyflogwyr.

Mae rhagor o wybodaeth am y gronfa eiddo deallusol ar gael ar wefan Cyllid Cymru: www.financewales.co.uk

Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant i'r sector ar wefan Skillset: www.skillset.org/uk/cymru

**Eleanor Burnham:** Gyda golwg ar gyflwyniad y Gweinidog i ymgynghoriad OFCOM ar Adolygiad Cam 3, 'Cynigion ar gyfer y Cenhedloedd', pa gyflwyniadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud/yn bwriadu eu gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch sicrhau bod Darlledu Gwasanaeth-Cyhoeddus Cymreig ar gael ym mhob ardal yng Nghymru? (WAQ43104)

**Eleanor Burnham:** Gyda golwg ar gyflwyniad y Gweinidog i ymgynghoriad OFCOM ar Adolygiad Cam 3, 'Cynigion ar gyfer y Cenhedloedd', pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y ddarpariaeth Ddarlledu Gwasanaeth-Cyhoeddus Gymreig sydd ar gael yng Nghymru? (WAQ43105)

**Eleanor Burnham:** Gyda golwg ar gyflwyniad y Gweinidog i ymgynghoriad OFCOM ar Adolygiad Cam 3, 'Cynigion ar gyfer y Cenhedloedd', pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch sicrhau nad yw'r ddarpariaeth Ddarlledu Gwasanaeth-Cyhoeddus yn waeth ar ôl y trosglwyddo? (WAQ43108)

**Eleanor Burnham:** Gyda golwg ar gyflwyniad y Gweinidog i ymgynghoriad OFCOM ar Adolygiad Cam 3, 'Cynigion ar gyfer y Cenhedloedd', pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch sicrhau bod erialau yng Nghymru'n gallu derbyn signal gan

drosglwyddyddion Cymru, gyda'r sianeli Darlledu Gwasanaeth-Cyhoeddus yn cael eu darparu fel mater o drefn, yn ogystal â'r un nifer o sianeli ag sydd ar drosglwyddyddion yn Lloegr? (WAQ43109)

**Alun Pugh:** Materion i Ofcom a'r darlledwyr eu hunain yn bennaf yw ystyriaethau mynediad a pha wasanaethau darlledu sydd ar gael. Mae fy swyddogion a minnau wedi codi'r materion hyn ar nifer o achlysuron yng nghyd-destun adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ymgynghoriad Ofcom ar yr opsiynau cynllunio ar ôl trosglwyddo i'r drefn ddigidol, a fu'n edrych ar yr opsiynau er sicrhau bod y gwasanaethau daearyddol digidol yn cwmpasu cymaint â phosibl o ardaloedd ar ôl newid i'r drefn ddigidol, a Phapur Gwyrdd Llywodraeth y DU ar adolygu siarter frenhinol y BBC.

**Eleanor Burnham:** Gyda golwg ar gyflwyniad y Gweinidog i ymgynghoriad OFCOM ar Adolygiad Cam 3, 'Cynigion ar gyfer y Cenhedloedd', pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am Wasanaethau Cymraeg i apelio at yr hen a'r ifanc, dysgwyr a siaradwyr rhugl, pobl sydd eisoes yn gwylio a gwylwyr newydd? (WAQ43106)

**Alun Pugh:** Mae fy swyddogion a minnau mewn cysylltiad rheolaidd a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom am faterion darlledu sy'n effeithio ar Gymru. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth y DU bwerau i ymyrryd â chynnwys rhaglenni: mater i'r darlledwyr unigol yw hynny.

**Eleanor Burnham:** Gyda golwg ar gyflwyniad y Gweinidog i ymgynghoriad OFCOM ar Adolygiad Cam 3, 'Cynigion ar gyfer y Cenhedloedd', pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y syniad o symud oddi wrth drefn gyfredol y ddarpariaeth raglennu a weithredir gan y BBC ac S4C, fel y'i nodir ym mharagraff 18? (WAQ43107)

**Eleanor Burnham:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch grant y Llywodraeth i S4C? (WAQ43110)

**Eleanor Burnham:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ystyried S4C ar yr un sail â darlledwyr eraill y DU ar gyfer grant untro gan Lywodraeth y DU i dalu am ei gostau untro wrth ledaenu ei gwasanaeth digidol? (WAQ43111)

**Alun Pugh:** Mae fy swyddogion a minnau mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ac Ofcom mewn perthynas â materion darlledu sy'n effeithio ar Gymru, yn cynnwys materion yn ymwneud ag S4C. Yr wyf wedi gwneud fy marn am y materion hyn yn hysbys yn fy ymateb i adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a byddaf yn gwneud yr un modd yn fuan yn fy ymateb i'r Papur Gwyrdd ar adolygu siarter y BBC.

**Lorraine Barrett:** Faint yn fwy o blant sydd wedi ymweld ag amgueddfeydd ac orielau ers cyflwyno mynediad am ddim? (WAQ43114)

**Alun Pugh:** Yn y cyfnod 2001-02 i 2004-05, ymwelodd 865,678 o blant â safleoedd yr amgueddfa genedlaethol mewn partïon ysgol. Mae hyn yn cynrychioli 274,230 yn fwy o ymweliadau gan blant mewn partïon ysgol er 2000-01, y flwyddyn olaf pryd y codwyd tâl. Mae'r amgueddfa genedlaethol yn disgwyl i ganlyniadau adroddiad arolwg 2004-05 ddod i law yn fuan. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth am nifer y plant a fu'n ymweld ar wahân i ymweliadau mewn parti ysgol.

**Lorraine Barrett:** Faint o bobl o ardaloedd llai breintiedig sydd yn awr yn ymweld ag amgueddfeydd ac orielau ers cyflwyno mynediad am ddim? (WAQ43115)

**Alun Pugh:** Mae'r amgueddfa genedlaethol yn disgwyl i ganlyniadau adroddiad arolwg 2004-05 ddod i law yn fuan a byddant yn darparu'r wybodaeth am y cyfnod hwnnw.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd y strategaeth Creative Future:Cymru Greadigol? (WAQ43140)

**Alun Pugh:** Adolygodd Cymru'n Creu y cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithredu yn 'Creative Future: Cymru Greadigol' ym mis Chwefror eleni. Mae 113 o bwyntiau gweithredu unigol yn y strategaeth ac mae 96 y cant o'r pwyntiau gweithredu un ai wedi cael eu cwblhau neu'n mynd rhagddynt yn dda. Mae Cymru'n Creu wedi cytuno i beidio â mynd ar ôl y pum pwynt gweithredu nad ydynt yn cael eu symud ymlaen.

O dan gochl Cymru'n Creu, bydd Prifysgol Morgannwg yn cwblhau fframwaith manwl cyn bo hir ar gyfer gwerthuso 'Creative Future: Cymru Greadigol', yn cynnwys yr holl wybodaeth ymchwil sydd ar gael a chan nodi bylchau yn yr ymchwil cyfredol.

Bydd creu'r bwrdd diwylliant yn darparu cyfleoedd i ddatblygu gwell polisïau diwylliannol a'r rheini'n fwy integredig, mwy o effeithlonrwydd drwy rannu gwasanaethau, a mwy o synergedd â'r cymorth a roddir i'r sector diwylliannol gan lywodraeth leol. Dyma themâu allweddol 'Creu'r Cysylltiadau'—agenda'r Llywodraeth i ddiwygio'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwyddo draw. Bydd Bwrdd Diwylliant Cymru (Diwylliant Cymru) yn cael ei gadeirio gennyf fi a bydd yn cynnwys cadeiryddion a phrif weithredwyr cyngor y celfyddydau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Bydd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o CLlLC a Chyngor Llyfrau Cymru. Ei gylch gwaith fydd gosod y cyfeiriad strategol cyffredinol i'r agenda ddiwylliannol yng Nghymru, yn cynnwys goruchwylio'r gwaith o baratoi strategaeth ddiwylliant newydd.

**Jenny Randerson:** Pa gamau a gymerir i hysbysebu bod testun llwyfan ar gael mewn sioeau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru? (WAQ43177)

**Alun Pugh:** Mae Stagetext wedi bod yn darparu perfformiadau gyda chapsiynau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ers *Kiss Me Kate* a lwyfannwyd rhwng 29 Mawrth ac 16 Ebrill. Bydd capsiynau'n cael eu darparu hefyd ar gyfer *Miss Saigon*, *Thoroughly Modern Millie*, *Saturday Night Fever* a'r sioe Nadolig.

Bydd CMC yn cynnwys manylion pob perfformiad mynediad, yn cynnwys y rhai â chapsiynau, disgrifiadau sain ac Iaith Arwyddion Prydain, ym mhamffled a thaflenni'r tymor nesaf. Hefyd, mae Stagetext yn rhoi cyhoeddusrwydd i sioeau CMC ar ei wefan.

Mae CMC hefyd yn defnyddio capsiynau ar gyfer opera mewn ieithoedd ar wahân i'r Saesneg, ac is-deitlo, i wneud y perfformiad yn fwy hygyrch. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i bobl fyddar.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi gwella'r cyfleoedd i awduron yng Nghymru? (WAQ43185)

**Alun Pugh:** Yn 1998, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ysgrifennu yng Nghymru o gyngor y celfyddydau i'r Academi, asiantaeth lenyddol Cymru. Rhwng 1998 a 2000, cynyddodd cyllid refeniw blynyddol uniongyrchol yr Academi dros £130,000 i £592,000. Caiff £336,000 arall ei wario ar brosiectau ysgrifennu a chyhoeddi gan gyrff eraill.

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae awduron yng Nghymru wedi gweld:

- Cynnydd yn nifer y cyfleoedd gyda thâl sydd ar gael iddynt, er enghraifft, cynnydd yn nifer y digwyddiadau a drefnir drwy gynllun awduron ar daith yr Academi.

- Cynnydd o ran faint o wybodaeth sydd ar gael i awduron am y grefft a'r arfer o ysgrifennu. Mae'r rhain yn amrywio o wefan yr Academi, cymorthfeydd awduron, cynlluniau mentora, gwasanaethau beirniadol a llinell frys i ateb cwestiynau.
- Cynnydd yn amlygrwydd gwobr lenyddol bwysicaf Cymru, sef Gwobr Llyfr y Flwyddyn, sydd erbyn hyn yn ddigwyddiad o bwys yn y calendr llenyddol.
- Cynnydd yn y cyfleoedd i fynd i mewn i'r busnes ysgrifennu, drwy sgwadiau ysgrifennu, cyrsiau, cystadlaethau a digwyddiadau cymorthfeydd beirniadol.
- Cynnydd yn amrediad y gwaith sydd ar gael y tu hwnt i'r meysydd llenyddol arferol, megis gwaith gydag ysbytai, hosbisau, ac mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi hwyluso'r ffordd i blant ysgol brofi'r celfyddydau gweledol a pherfformio? (WAQ43186)

**Alun Pugh:** Mae'r buddsoddiad rheolaidd ac arwyddocaol yn y celfyddydau wedi galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i roi'r strategaeth 'Arts and Young People in Wales' ar waith yn effeithiol. Nod y strategaeth yw sicrhau bod pob person ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol ac i brofi ac ymwneud â chelfyddyd pobl eraill. Ymysg y cynlluniau a'r rhaglenni sydd wedi deillio o hyn mae

- creu Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru;
- datblygu Valleys Kids fel corff sy'n cael cyllid refeniw;
- rhaglen bartneriaeth dair blynedd mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru;
- Splash Cymru, cynllun celfyddydau yn y gwyliau i blant mewn perygl;
- cyllid blaenoriaeth yn y rhaglenni gweithgareddau celfyddydol i blant a phobl ifanc mewn cynlluniau sy'n cael arian loteri, yn cynnwys prosiectau celfyddydau yn yr ysgolion, sy'n cynnwys ysgrifennu creadigol, drama a theatr, dawns, a cherddoriaeth.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn partneriaeth ag Arts and Business, wedi defnyddio'r rhaglen hon i sicrhau bod pob plentyn y cael y cyfle i gymryd rhan yn y celfyddydau a'u mwynhau. Er mis Rhagfyr 2002, yr ydym wedi darparu gwerth £31,000 o gyllid i gyfrannu tuag at lwyddiant Arts and Kids Cymru. Mae hyn wedi denu dros £84,250 o fuddsoddiad o'r sector preifat. Ar draws Cymru, mae 21 o brosiectau wedi cael eu cynnal, gan roi'r cyfle i 4,321 o blant i ymwneud â'r celfyddydau, am y tro cyntaf i lawer ohonynt. Nid yw hyn ond £6.50 o arian cyngor y celfyddydau y plentyn.

Mae cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad, drwy gyngor y celfyddydau, i asiantaethau artistiaid mewn ysgolion wedi cynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru i ymwneud â gwaith artistiaid proffesiynol yn amgylchedd yr ysgol.

Mae cyllid wedi cael ei ddarparu i gynorthwyo asiantaethau artistiaid mewn ysgolion yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam a Phowys. Yn 2003, darparwyd £50,000 i sefydlu a datblygu asiantaeth artistiaid mewn ysgolion yng Ngwynedd. Mae hyn wedi galluogi 54 o brosiectau, dros 76 o ddiwrnodau, ac wedi rhoi'r cyfle i fwy na 54 o artistiaid i hyrwyddo eu cyflogaeth artistig ac addysgol. Cafodd dros 2,800 o bobl ifanc fudd o'r asiantaeth hon drwy weithdai neu berfformiadau. Darparwyd £50,000 pellach yn 2004-05.

Yn 2003-04, yr ydym wedi galluogi 247,106 o bobl ifanc i fynychu dros 8,000 o sesiynau celfyddydol, o 738 o brosiectau mewn ysgolion sy'n cymryd rhan.

Yn 2005-06, mae'r cyllid refeniw a ddyrannwyd i Valleys Kids yn £36,987, ynghyd â grant loteri o £820,584, i ailwampio'r ganolfan fel bod modd i'r corff ddarparu gweithgarwch celfyddydol cymunedol o ansawdd uchel.

Yr ydym hefyd wedi symud y strategaeth theatr mewn addysg yn ei blaen. Nod y strategaeth hon yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael profiad o theatr broffesiynol fyw ym mhob cyfnod allweddol. Caiff dros £1.9 miliwn ei wario eleni ar theatr mewn addysg.

Mae adolygiad o strategaeth cyngor y celfyddydau ar y celfyddydau a phobl ifanc i fod i gael ei gynnal eleni.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi gwella'r ystod o berfformiadau sy'n digwydd mewn ardaloedd llai breintiedig? (WAQ43187)

**Alun Pugh:** Mae cynllun noson allan Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i anelu at gynyddu presenoldeb y celfyddydau a digwyddiadau celfyddydol mewn cymunedau lleol. Yn 1999-2000, cynhaliwyd 201 o berfformiadau o dan y cynllun noson allan. Erbyn 2004-05, yr oedd hyn wedi cynyddu i 407 o berfformiadau.

Dechreuodd cyngor y celfyddydau dargedu a recordio perfformiadau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn 2003-04, pryd y cynhaliwyd 92 o ddigwyddiadau. Cynyddodd hyn dros 20 y cant i 112 yn 2004-05.

Bydd y cyllid ychwanegol sylweddol a ddyrannwyd i'r cynllun noson allan o dan gynllun y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd eto yn targedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a disgwylir iddo arwain at gynnydd o hyd at 150 o leiaf o berfformiadau yn ystod 2005-06.

Cafodd taith Clwyd Theatr Cymru o amgylch ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ganmoliaeth feirniadol. Darparodd Llywodraeth y Cynulliad £100,000 i alluogi fersiwn diwygiedig o *Brassed Off* i fynd ar daith i Gei Connah, Caerffili, y Rhondda, Wrecsam a Chasnewydd.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi gwella ansawdd a nifer y perfformiadau artistig yng Nghymru? (WAQ43188)

**Alun Pugh:** Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, yr ydym wedi gweld agor lleoliadau perfformio o'r radd flaenaf ar gyfer y celfyddydau, megis canolfan gelfyddydau Riverfront yng Nghasnewydd, Canolfan Mileniwm Cymru, Galeri yng Nghaernarfon, a chanolfan greadigol Mwldan yn Aberteifi sydd newydd gael ei hailwampio. Yr oedd cyfanswm y buddsoddiad yn y prosiectau hyn bron yn £57 miliwn.

Yn 2005-06, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi darparu £1 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd, £800,000 i gwmnïau preswyl CMC ac £1.16 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf mewn theatrau.

Yn 2002-03, mynychodd bron i 3 miliwn o bobl berfformiadau cyhoeddus yng Nghymru. Aeth bron i 1 miliwn i wyliau, bron i 600,000 i orielau, a bron i 2.3 miliwn i ganolfannau celfyddydau, neuaddau cyngerdd, theatrau a lleoliadau cyflwyno eraill.

Mae creu Theatr Genedlaethol Cymru wedi bod yn fodd i gynyddu nifer y cynhyrchiadau ar raddfa nas gwelwyd ar lwyfannau Cymru am dros bymtheg mlynedd. Yn ei blwyddyn gyntaf, gwelodd 10,000 o bobl ei chynyrchiadau. Er mwyn sefydlu Theatr Genedlaethol Cymru, dyrannwyd £38,000 gydag £1 miliwn wedi ei ddyrannu i gyllido'r theatr y llynedd, a £1 miliwn arall eleni.

Mae'r cynnydd yng nghyllid yr wyth cwmni theatr mewn addysg wedi caniatáu iddynt gynyddu nifer y perfformiadau mewn ysgolion, a datblygu safon ac ansawdd eu gwaith ymhellach. Caiff dros £1.9 miliwn ei wario eleni ar theatr mewn addysg.

Mae cyllido taith Clwyd Theatr Cymru wedi galluogi'r cwmni hwn o'r safon uchaf i deithio ac yn arbennig i dargedu cynulleidfaoedd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Dyrannwyd £100,000 o'r arian ar gyfer y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd i'r theatr deithiol.

Bydd cyflwyno arian ar gyfer y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd i'r lleoliadau cyflwyno a chynhyrchu, gan ddechrau gydag £1 miliwn o arian ychwanegol yn 2004-05, a £2 filiwn y flwyddyn o 2005-06, yn arwain at gynnydd arwyddocaol yn ystod ac ansawdd y sioeau sydd ar gael mewn theatrau ar draws Cymru.

Mae cynllun noson allan Cyngor Celfyddydau Cymru yn galluogi cyrff cymunedol i gynnal digwyddiadau proffesiynol yn y celfyddydau perfformiadau mewn neuaddau pentref a chymunedol. Mae'r rhaglen wedi arwain at ganlyniadau rhagorol ar draws Cymru, yn arbennig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gyda thros 28,000 o bobl yn mynd i'r digwyddiadau hyn. Eleni, mae £75,000 o arian ychwanegol blynyddol yn cael ei ddyrannu i'r cynllun o'r gyllideb ar gyfer y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd, ynghyd â £150,000 pellach yn 2006-07.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi darparu mwy o gyfleoedd i artistiaid ifanc? (WAQ43189)

**Alun Pugh:** Mae cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o safon ar lefel genedlaethol yn allweddol i gefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i'r sector. Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yw'r corff ymbarél sy'n gyfrifol am gyflenwi'r cyfle strategol hwn.

Partneriaeth waith rhwng Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru yw Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Cafodd £414,000 yn 2004-05 i'w galluogi i ymgymryd â gwaith gyda phobl ifanc.

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru sy'n gyfrifol drwyddi draw am

- Fanc Pres Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, Côr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, Jazz Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, a Cherddorfa Chwythbrennau Ieuenctid Genedlaethol Cymru.
- Theatr Ieuenctid Genedlaethol Cymru, Dawns Ieuenctid Genedlaethol Cymru a Cherddorfa Ieuenctid Genedlaethol Cymru.

Yn 2003-04, cymerodd 2,934 o bobl ifanc ran yn y celfyddydau o ganlyniad uniongyrchol i weithgarwch Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Daeth rhyw 28,462 o gynulleidfaoedd i'r perfformiadau.

Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru wedi ehangu ei gyfleoedd i bob un o'r grwpiau cenedlaethol a restrwyd uchod.

- Mae nifer y grwpiau cenedlaethol wedi cynyddu o bedwar yn 1999 i saith yn 2004;
- Yn 1999, yr oedd pedwar cwrs preswyl cenedlaethol ac 16 o gyngherddau/perfformiadau. Yn 2003 cynyddodd hyn i bum cwrs preswyl, 29 cyngerdd/perfformiad, dau gwrs byr, tair darlith ddangos a chwe gweithdy;
- Yn 1999 yr oedd y gronfa ddata genedlaethol o aelodau yn cynnwys 300 o bobl ifanc. Erbyn hyn mae wedi cynyddu i 4,000.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi gwella cyfleoedd i artistiaid yng Nghymru ddatblygu eu gyrfaoedd? (WAQ43190)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi amlinellu yn fy ateb i WAQ43189 y cyfleoedd sydd wedi cael eu darparu i artistiaid ifanc yng Nghymru. Arts Training Wales yw asiantaeth gyffredinol Cymru i ddatblygu gweithlu'r celfyddydau. Gan weithio'n agos gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, mae'n gorff annibynnol sy'n darparu cyngor a chymorth i unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru.

Yn 2004-05, cafodd Arts Training Wales £77,000 o gyllid i ymgymryd â'i dri maes gweithgaredd craidd:

- rhoi cyngor ar hyfforddiant a datblygiad i unigolion a chyrff sy'n dymuno ymgymryd â neu gyflwyno hyfforddiant/datblygiad yn y celfyddydau a/neu sy'n dymuno dod o hyd i gyllid i wneud hynny;
- darparu cyngor gyrfaol i'r rhai sydd ar ddechrau eu gyrfa neu sy'n dymuno datblygu eu gyrfa yn y celfyddydau ymhellach; ac
- ymgymryd ag ymchwil a darparu gwybodaeth am weithlu'r celfyddydau yng Nghymru.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi gwella gyrfaoedd yn y diwydiannau artistig? (WAQ43191)

**Alun Pugh:** Yr wyf wedi amlinellu yn fy atebion i WAQ43189 a WAQ43190 y cyfleoedd sydd wedi cael eu darparu i artistiaid yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ariannu Mentrau Diwylliannol, cwmni dielw a sefydlwyd yn 1995 i ddarparu cyngor busnes, gwybodaeth a mentora i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau mentora i unigolion a chwmnïau bach a chanolig eu maint ar unrhyw gyfnod yn eu busnes, o'r cyfnod cyn cychwyn hyd at ddatblygu i'r cam nesaf a thu hwnt.

Mae'r gwasanaethau gwybodaeth a mentora yn rhad ac am ddim i ymarferwyr unigol a busnesau bach sy'n gweithio yn y busnesau creadigol, megis cerddoriaeth, theatr, dawns a phop, teledu, radio, ffilm, animeiddio a chyfryngau newydd, dylunio graffig a dylunio cynnyrch, ffasiwn a phensaernïaeth, crefftau, celfyddyd weledol (yn cynnwys ffotograffiaeth), ysgrifennu a chyhoeddi yng Nghymru.

Mae'r tîm gwybodaeth a'r tîm canolog yn gweithio o'r swyddfa yng Nghaerdydd, ac mae aelodau'r tîm mentora yn gweithio o'u cartrefi ar draws Cymru.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi dod â chelfyddyd sydd gyda'r gorau yn y byd i Gymru? (WAQ43192)

**Alun Pugh:** Mae enw da Cymru fel chwaraewr rhyngwladol ar y map diwylliannol wedi bod yn tyfu'n gyson ers datganoli. Mae agor Canolfan Mileniwm Cymru wedi dod â pherfformwyr rhyngwladol i Gymru, megis Bale Kirov a'r Cirque Éloize.

Mae cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gwmnïau megis Earthfall Dance wedi helpu i ddatblygu partneriaethau cydweithrediadol ar draws Ewrop, gan ddod â chwmnïau celfyddydol o wledydd fel Silesia i berfformio yma. Mae'r gefnogaeth i Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen wedi gweld yr wyl yn tyfu nes ei bod yn un o'r gwyliau mwyaf adnabyddus yn rhyngwladol ar draws y byd.

Eleni, bydd y Cynulliad unwaith eto yn ariannu gwyl Jazz Aberhonddu, yr wyl jazz ryngwladol sy'n denu cynulleidfa ryngwladol.

Bydd Artes Mundi, gwobr ryngwladol Cymru i'r celfyddydau gweledol, a sefydlwyd i ddathlu diwylliant gweledol o bob cwr o'r byd, yn lansio ei hail wobr yr hydref hwn. Wedi'i seilio yng Nghymru, dyfarnwyd gwobr gyntaf un Artes Mundi i Xu Bing ym mis Mawrth 2004, gan lansio'r digwyddiad fel cyfle bob yn ail flwyddyn i artistiaid yn ogystal â chynulleidfaoedd.

Yn sgîl cefnogaeth y Cynulliad i arddangosfa gwobr Artes Mundi, ymwelodd y niferoedd mwyaf erioed â'r arddangosfa yn yr Amgueddfa a'r Oriel Genedlaethol, Caerdydd, oddeutu 63,000 i gyd.

Mae cefnogaeth i lenyddiaeth wedi dod ag awduron rhyngwladol i Gymru. Bu gwyl BayLit yng Nghaerdydd y mis diwethaf yn llwyddiant mawr, a galluogodd cefnogaeth y Cynulliad yr wyl i ehangu ei

rhaglen fel ei bod yn hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol yn fwy cynhwysfawr. Bydd y Cynulliad hefyd yn cynnal stondin yng ngwyl lenyddol y Gelli Gandryll—gwyl sydd wedi ennill ei phlwyf yn rhyngwladol—ym mis Mehefin. Yr hydref hwn hefyd gwelir lansio gwobr lenyddol ryngwladol Dylan Thomas am y tro cyntaf, wedi'i hariannu gan y Cynulliad.

Eleni hefyd bydd cwmni syrcas NoFit State—cwmni o Gymru—yn ymddangos fel y brif act yng ngwyl celfyddydau perfformio a theatr stryd La Fira de Teatre al Carrer de Tárrega yn Sbaen ym mis Medi.

**Ann Jones:** Sut mae'r cynnydd yn y gwariant ar Gelfyddyd er 1999 wedi gwella'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru? (WAQ43193)

**Alun Pugh:** Mae'r canfyddiad o Gymru fel gwlad sydd â diwydiant cerddoriaeth llwyddiannus wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd bandiau fel y Stereophonics a'r Manic Street Preachers a chantorion fel Charlotte Church a Katherine Jenkins. Mae'r canfyddiad hwn yn rhan o dwf llawer ehangach yn hyder Cymru yn ei hunaniaeth ddiwylliannol gyfoes sydd wedi cael hwb mawr yn sgîl y cynnydd yn y buddsoddiad yn y celfyddydau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu dros £4 miliwn y flwyddyn o gymorth i gwmni Opera Cenedlaethol Cymru drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, ac £800,000 o gymorth i Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

Gwerthwyd 97 y cant o'r tocynnau i dymor gwanwyn y cwmni opera, sef mwy na 17,300 o seddau ar gyfer 10 perfformiad. Gwerthodd yr opera *Wozzeck* nifer sy'n cyfateb i bum llond tŷ yn y Theatr Newydd ar gyfer tri pherfformiad.

Bydd tymor haf y cwmni opera, sydd i agor y penwythnos hwn, yn cynnwys pedwar perfformiad o *The Magic Flute* a dau berfformiad o *Rigoletto*. Mae'r tocynnau i gyd wedi'u gwerthu, dros 10,000 o seddau. Hefyd, mae'r cwmni opera eisoes wedi gwerthu dros 15,000 o docynnau ar gyfer 25 o berfformiadau yn hydref 2005 a gwanwyn a haf 2006.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid uniongyrchol i gynllun cerddorfa siambr er 2002. Mae hyn yn cynnwys £200,000 yn 2002-03, £200,000 yn 2003-04 a £200,000 yn 2004-05.

Mae cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganolfannau celfyddydol yng Nghymru, megis Canolfan Mileniwm Cymru, wedi darparu llwyfan rhagorol ar gyfer hyrwyddo cerddoriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae mudiadau cerddoriaeth megis Cerdd Gymunedol Cymru yn helpu i gynorthwyo cerddorion newydd sy'n cychwyn yn y busnes. Mae gan Cerdd Gymunedol Cymru gronfa o oddeutu 50 o diwtoriaid cerdd cymunedol sy'n darparu gweithgarwch cerddorol allymestyn yn y gymuned i bobl ddifreintiedig yn ne Cymru a thrwy Gymru gyfan. Yr ydym yn cefnogi Cerdd Gymunedol Cymru gyda dros £60, 000 o arian refeniw y flwyddyn.

Y corff allweddol sy'n hyrwyddo'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru yw'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Awdurdod Datblygu Cymru.

Ers sefydlu'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, mae cyrff megis British Phonographic Industry, Music Managers' Forum, Radio 1 a'r Live Music Forum wedi dod â phecynnau addysgol i Gymru am y tro cyntaf. Hefyd, datblygodd y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig strategaeth ar allforio cerddoriaeth fasnachol o Gymru yn rhyngwladol yn 2004. Cymerodd Recordiau Sain Cyf, label Geltaidd/werin/draddodiadol fwyaf Cymru, stondin yn Midem yn Cannes yn 2005 drwy'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig—a bu'r effaith ar werthiant y cwmni yn sylweddol.

**Sandy Mewies:** Faint o arian y Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol â phortffolio'r Gweinidog a glustnodwyd i sir y Fflint ers mis Mai 2004? (WAQ43208)

**Alun Pugh:** Er mis Mai 2004, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi £690,000 yn uniongyrchol ar hyrwyddo a datblygu diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon yn sir y Fflint. Mae'r ardal hefyd yn elwa, wrth gwrs, o nifer o gynlluniau i Gymru gyfan, yn cynnwys prosiectau megis Clwyd Theatr Cymru, nad oes ffigurau ar wahân ar gael amdanynt.

Mae ein cynghorau celfyddydau a chwaraeon hefyd wedi buddsoddi £493,000 o arian loteri yn yr ardal.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Leighton Andrews:** A all y Gweinidog gadarnhau pa un a ddyrennir cronfeydd Amcan Un i ddatblygiadau ffermydd gwynt, neu pa un a fwriedir gwneud hynny? (WAQ42964)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Hyd yma, mae £366,000 o grant Amcan 1 wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer datblygiad fferm wynt yn y Gogledd.

Mae cais gan y Ffatri Gelf am ddatblygiad fferm wynt yn Rhondda Cynon Taf yn mynd drwy broses fanylu fanwl ar hyn o bryd. Os cwblheir y broses hon yn foddhaol, rhoddir ystyriaeth i ddyfarnu cymorth UE i'r datblygiad.

**Lisa Francis:** Mewn cysylltiad â chludo coed ar linell Cambrian o Aberystwyth i'r Waun a ddechreuodd ar 3ydd Mawrth, a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael eu hysbysu am unrhyw ganlyniadau yn dilyn y treialon 4 wythnos o'r cynllun hwn, ac a fydd y Llywodraeth yn cyflwyno canlyniadau'r treialon i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth? (WAQ42969)

**Andrew Davies:** Dangoswyd fideo o'r treial i'm swyddogion a rhoddwyd adroddiad llafar iddynt mewn cyfarfod gyda rhanddeiliaid ar 21 Ebrill. Nid oes adroddiad ysgrifenedig ffurfiol wedi cael ei ddarparu eto. Byddaf yn cynnwys canlyniadau'r treial yn fy adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 8 Mehefin.

**Lisa Francis:** Ymhellach i WAQ2686, pryd y disgwylir i ddatblygiad Technium Auto gael ei gwblhau? (WAQ42993)

**Andrew Davies:** Mae'r gwaith adeiladu ar y technium i fod i gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2006.

**Lisa Francis:** Ymhellach i WAQ42691, pwy sy'n ymgymryd â'r astudiaeth annibynnol hon a phryd y disgwylir iddi gael ei chwblhau? (WAQ42994)

**Lisa Francis:** Ymhellach i WAQ42690, pwy sy'n ymgymryd â'r astudiaeth annibynnol hon a phryd y disgwylir iddi gael ei chwblhau? (WAQ42995)

**Andrew Davies:** Yn dilyn tendr cystadleuol, dyfarnwyd y contract am yr astudiaeth i Synopsis Communication Consulting. Dylai'r astudiaeth fod wedi'i chwblhau ymhen rhai wythnosau.

**Lisa Francis:** O ran twrnamaint golff Cwpan Ryder, sut y mae Bwrdd Croeso Cymru yn marchnata'r De, y Canolbarth a'r Gogledd? (WAQ43005)

**Andrew Davies:** Mae Bwrdd Croeso Cymru yn marchnata Cymru gyfan drwy ei ymgyrch i farchnata twristiaeth golff, 'Wales—Golf as it should be'. Mae hysbysebion wedi bod yn rhedeg hefyd mewn cylchgronau golff arbenigol a rhaglenni twrnameintiau, gyda'r bwrdd croeso yn mynd i dwrnameintiau Ewropeaidd ac yn estyn croeso i newyddiadurwyr a gweithredwyr. Mae'r bwrdd croeso yn gweithio'n agos hefyd gyda'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol i hyrwyddo a datblygu twristiaeth i hyrwyddo a datblygu twristiaeth golff yn eu hardaloedd.

**Lisa Francis:** O ran grantiau adran 4 a gaiff eu cynnig gan Fwrdd Croeso Cymru i fusnesau twristiaeth, pa ganran sy'n cynnwys cyllid Ewropeaidd? (WAQ43006)

**Andrew Davies:** Yn 2004-05, daeth 71 y cant o gyllid adran 4 o ffynonellau'r UE.

**Lisa Francis:** Beth yw nodau, amcanion a swyddogaethau Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd? (WAQ43007)

**Lisa Francis:** Beth yw nodau, amcanion, a swyddogaethau Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth? (WAQ43008)

**Lisa Francis:** I bwy y mae Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd yn atebol ac yn gyfrifol? (WAQ43009)

**Lisa Francis:** I bwy y mae Partneriaeth Twristiaeth y Canolbarth yn atebol ac yn gyfrifol? (WAQ43010)

**Lisa Francis:** A gaiff perfformiad Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth ei fonitro'n annibynnol? (WAQ43013)

**Lisa Francis:** A gaiff perfformiad Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd ei fonitro'n annibynnol? (WAQ43014)

**Lisa Francis:** Pryd y cynhelir yr etholiadau nesaf i benderfynu ar gynrychiolwyr masnach ar Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd? (WAQ43015)

**Lisa Francis:** Pryd y cynhelir yr etholiadau nesaf i benderfynu ar gynrychiolwyr masnach ar Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth? (WAQ43016)

**Lisa Francis:** A oes unrhyw aelodau masnach wedi cael eu cyfethol i fod yn gynrychiolwyr masnach ar Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd? (WAQ43017)

**Lisa Francis:** A oes unrhyw aelodau masnach wedi cael eu cyfethol i fod yn gynrychiolwyr masnach ar Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth? (WAQ43018)

**Lisa Francis:** Pa adborth a roddir i Weithredwyr Twristiaeth mewn cysylltiad â gweithgareddau Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd a'r gwaith a wneir ganddi? (WAQ43032)

**Lisa Francis:** Pa adborth a roddir i Weithredwyr Twristiaeth mewn cysylltiad â gweithgareddau Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd a'r gwaith a wneir ganddi? (WAQ43033)

**Andrew Davies:** Mae'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol yn sefydliadau annibynnol—cwmnïau cyfyngedig drwy warant. Mae gwybodaeth am eu nodau a'u hamcanion, atebolrwydd, adroddiadau am berfformiad a threfniadau cyfathrebu eraill, a'u haelodaeth ar gael oddi wrthynt hwy. Efallai y bydd y cysylltiadau isod o gymorth.

http://www.tpnw.org/english/main.htm

http://www.tpmw.co.uk/english/e_pages/e_about_aims.html

**Lisa Francis:** A gaiff perfformiad partneriaeth twristiaeth ranbarthol y Gogledd ei fonitro gan Fwrdd Croeso Cymru? (WAQ43011)

**Lisa Francis:** A gaiff perfformiad partneriaeth twristiaeth ranbarthol y Canolbarth ei fonitro gan Fwrdd Croeso Cymru? (WAQ43012)

**Andrew Davies:** Caiff, mewn perthynas â gweithredu'r strategaethau twristiaeth rhanbarthol. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn paratoi a chytuno ar gytundeb ariannu blynyddol gyda phob partneriaeth twristiaeth ranbarthol ac mae ganddo systemau i fonitro eu gweithgareddau a'u hallbynnau.

**Lisa Francis:** O ran arian a chanran, faint o gyllideb bresennol partneriaeth twristiaeth ranbarthol y Gogledd a gaiff ei gwario ar waith ymgynghori? (WAQ43019)

**Andrew Davies:** Mae partneriaeth twristiaeth ranbarthol y Gogledd wedi gwario £20,000 (1.7 y cant) o'i chyllideb flynyddol o £1.132 miliwn ar waith ymgynghori yn 2005-06.

**Lisa Francis:** O ran arian a chanran faint o gyllideb bresennol Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth a gaiff ei gwario ar waith ymgynghori? (WAQ43020)

**Andrew Davies:** Mae partneriaeth twristiaeth ranbarthol y Canolbarth wedi gwario £10,000 (1.5 y cant) o'i chyllideb flynyddol o £658,000 ar waith ymgynghori yn 2005-06.

**Lisa Francis:** Pam y gwnaeth Bwrdd Croeso Cymru ganslo ei fenter 'Wise Wales' yn America? (WAQ43021)

**Lisa Francis:** A ymgynghorodd Bwrdd Croeso Cymru â gweithredwyr twristiaeth cyn penderfynu canslo'r rhaglen 'Wise Wales', a beth oedd yr ymateb? (WAQ43036)

**Andrew Davies:** Daeth y fenter hon i ben 10 mlynedd yn ôl. Cynhaliodd y bwrdd croeso ymchwil ymysg aelodau diwydiant teithio'r fenter a theimlid y byddai'n well i'r bwrdd croeso gyfeirio ei ymdrechion tuag at greu ymwybyddiaeth o Gymru ymysg defnyddwyr yn UDA. Ar y pryd, ystyriwyd hefyd y gostyngiad yn nifer y bobl oedd yn defnyddio trefnwyr teithiau yn UDA, ac yr oedd hynny hefyd yn effeithio ar 'Wise Wales'.

**Lisa Francis:** Beth y mae Bwrdd Croeso Cymru yn ei wneud i farchnata'r pedwar safle treftadaeth byd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn y Gogledd? (WAQ43022)

**Andrew Davies:** Mae Bwrdd Croeso Cymru yn hyrwyddo Cymru gyfan ac, wrth wneud hynny, mae'n cynnwys safleoedd treftadaeth byd a pharciau cenedlaethol ym mhob rhan o Gymru. Mae Cyngor Sir Gwynedd yn bartner o bwys yn ymgyrchoedd marchnata 'Big Country' y bwrdd ac mae Eryri yn ymddangos ym mhrif lyfryn gwanwyn/haf y bwrdd croeso ar gyfer 2005.

**Lisa Francis:** A yw Bwrdd Croeso Cymru yn cynnig gostyngiadau i asiantaethau llety hunan ddarpar, ar gynlluniau hysbysebu a gaiff eu cynnig gan Fwrdd Croeso Cymru? (WAQ43023)

**Andrew Davies:** Nac ydyw.

**Lisa Francis:** Os caiff llety hunan ddarpar ei raddio bob dwy flynedd gan Fwrdd Croeso Cymru, a nodir hyn yn glir ar bob deunydd hysbysebu a phob un o'i lyfrynnau? (WAQ43024)

**Andrew Davies:** Mae Bwrdd Croeso Cymru yn asesu eiddo sy'n gwneud cais yn annibynnol i gael ei raddio fel llety hunan ddarpar yn flynyddol. Mae arweinlyfr y bwrdd, 'Wales—Where to stay', yn datgan bod pob eiddo sy'n ymddangos ynddo wedi cael ei archwilio a'i raddio o ran ansawdd yn flynyddol.

**Elin Jones:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r goblygiadau i Gymru, gan gynnwys y goblygiadau ariannol, yn dilyn newid enw yr Adran Masnach a Diwydiant yn ddiweddar? (WAQ43025)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi gwneud asesiad o'r naill newid enw na'r llall.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl gwmnïau a dderbyniodd y grant cyfleusterau cludo nwyddau yng Nghymru a'r swm a dalwyd ym mhob achos? (WAQ43030)

**Andrew Davies:** Dyfarnwyd y grant cyfleusterau cludo nwyddau gyntaf yn 1976 ar ôl cychwyn Deddf Rheilffyrdd 1974. Mae rhestr o'r holl gwmnïau sydd wedi cael grant ers y dyddiad hwnnw ynghlwm. Nid oedd swm y grant yn cael ei gofnodi ar wahân tan 1992. Mae'r rhestr yn cofnodi'r dyfarniad grant ym mhob achos rhwng 1976 a 1987, a'r dyfarniad grant a'r grant a dalwyd er 1992 hyd heddiw.

**Grantiau Cyfleusterau Cludo Nwyddau a Ddyfarnwyd yng Nghymru**
**Dyfarniadau o dan Adran 8 o Ddeddf Rheilffyrdd 1974**

| | | **Dyfarniad grant (£)** |
|---|---|---:|
| 1976 | 1. BP Ltd, Bae Baglan, Gorllewin Morgannwg | 110,000 |
| | 2. Tunnel Cement Ltd, Bangor | 75,165 |
| 1977 | 3. Batchelor Robinson Steel and Chemical Ltd, Llanelli | 12,385 |
| | 4. Gloda Distributors (South Wales) Ltd, Abertawe | 60,000 |
| 1978 | 5. Duport Steels Ltd, Llanelli | 1,844,000 |
| | 6. Isis Link (William Cory Ltd) | 125,750 |
| | 7. Fords, Pen-y-bont ar Ogwr | 1,114,000 |
| | 8. Gower Chemicals, Abertawe | 30,325 |
| | 9. AJ Williams, Merthyr Tudful | 60,000 |
| 1979 | 10. Aberthaw Cement, y Barri | 32,834 |
| 1980 | 11. Associated Octel, Amlwch, Ynys Môn | 52,000 |
| 1982 | 12. Steel Supply Co (Western) Ltd, Sgiwen | 34,000 |
| 1983 | 13. Tunnel Cement Ltd, Padeswood | 149,500 |
| | 14. Railease Ltd | 587,250 |
| | 15. Y Bwrdd Glo Gwladol, Pwll Glo Deep Navigation, Treharris | 33,704 |
| | 16. Y Bwrdd Glo Gwladol, Golchfa Ganol Wernos, Rhydaman | 130,025 |
| | 17. Y Bwrdd Glo Gwladol, Gwaun Cae Gurwen | 193,718 |
| | 18. National Smokeless Fuels Ltd, Aberaman Phurnacite | 64,350 |
| 1984 | 19. National Fuel Distributors Ltd | 20,500 |
| | 20. Blue Circle Cement, Gwaith Aberddawan | 343,000 |
| 1985 | 21. Y Bwrdd Glo Gwladol, Pwll Glo Marine | 154,648 |
| 1986 | 22. Carmarthen Warehousing Ltd | 239,000 |
| 1986 | 22. Carmarthen Warehousing Ltd | 239,000 |
| 1987 | 23. National Smokeless Fuels Ltd, Aberaman | 209,784 |
| | 24. Glo Prydain, Pwll Glo Merthyr Vale | 104,076 |
| | 25. Kronospan, Y Waun | 238,500 |

**Dyfarniadau o dan Adran 139 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993**

| | | Dyfarniad grant (£) | Grant a dalwyd (£) |
|---|---|---|---|
| 1992 | 26. Ryan Mining Ltd | 4,247,000 | 3,898,281 |
| 1997 | 27. Associated British Ports, Casnewydd | 677,890 | 677,828 |
| 1999 | 28. Allied Steel and Wire, Caerdydd | 887,500 | 246,772 |
| | | | |
| | | | |

**Dyfarniadau o dan Adran 249 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000**

| | | Dyfarniad grant (£) | Grant a dalwyd (£) |
|---|---|---|---|
| 2002 | 29. European Metals Recycling | 443,942 | 437,751 |
| 2003 | 30. Swansea Container Terminal Plc | 22,325 | 22,644 |
| | EWS Ltd | 22,391 | 22,390 |
| | 31. Associated British Ports, Casnewydd | 476,671 | 476,670 |
| | Sims Group UK Ltd | 1,243,540 | 1,306,761 |

**Lisa Francis:** Faint o'i chyllideb a danwariwyd gan Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd ar gyfer y blynyddoedd 2002-03 a 2003-04; beth oedd y rhesymau a pha ddefnydd a wnaed o'r tanwariant wedyn? (WAQ43031)

**Andrew Davies:** Yr oedd mân danwariant o £2,301 yn 2002-03 a £6,688 yn 2003-04 am nad oedd gwasanaethau wedi cael eu cyflenwi gan gyflenwyr o dan gontract. Defnyddiwyd yr arian hwn ar weithgareddau marchnata newydd yn y blynyddoedd dilynol.

**Lisa Francis:** A fydd rhywfaint o'r £50 miliwn a roddodd Trysorlys y DU tuag at gynnal y gwasanaethau rheilffyrdd presennol yn dod i Gymru; ac os bydd, faint y byddwn yn debygol o'i gael? (WAQ43034)

**Andrew Davies:** Eglurodd cynrychiolwyr o Network Rail wrth y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 11 Mai fod y gronfa arfaethedig gwerth £50 miliwn ar draws y DU ar gyfer mân welliannau yn cael ei thrafod gyda Thrysorlys EM ac nad oes penderfyniadau manwl wedi cael eu gwneud eto.

**Lisa Francis:** Pa gamau a gymerir yn dilyn y gwaith ymgynghori ar sefydlu academi hyfforddi awyrofod yn Ynys Môn a pha asesiad a wnaed o effaith uno'r CCNCau ar sefydlu academi o'r fath? (WAQ43035)

**Andrew Davies:** Yn dilyn yr ymgynghori ar y cynigion i sefydlu academi cynnal a chadw awyrofod yn y Gogledd, wrth ystyried y cynllun busnes o blaid yr academi canfuwyd bod angen partner o'r sector preifat er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn. Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r sector preifat i ganfod a oes diddordeb. Ni fydd uno'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn cael unrhyw effaith ar sefydlu academi o'r fath.

**Lisa Francis:** Faint o'i chyllideb a danwariwyd gan Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth ar gyfer y blynyddoedd 2002-03 a 2003-04; beth oedd y rhesymau a pha ddefnydd a wnaed o'r tanwariant wedyn? (WAQ43037)

**Andrew Davies:** Yr oedd mân danwariant o £8,599 yn 2002-03 a £7,182 yn 2003-04 oherwydd oedi cyn cyflenwi gwasanaethau gan gyflenwyr. Defnyddiwyd yr arian ar weithgareddau marchnata yn y blynyddoedd dilynol.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â'r bwriad i gau swyddfeydd ACAS yn Abertawe a Wrecsam? (WAQ43049)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog a'r Adran Masnach a Diwydiant ynglŷn â'r bwriad i gau swyddfeydd ACAS yn Abertawe a Wrecsam? (WAQ43050)

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn gan sefydliadau busnes ac Undebau Llafur yng Nghymru ynglŷn â'r bwriad i gau swyddfeydd ACAS yn Abertawe a Wrecsam? (WAQ43051)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith y bydd y bwriad i gau swyddfeydd ACAS yn Abertawe a Wrecsam yn ei chael ar yr ardaloedd hyn? (WAQ43066)

**Andrew Davies:** Nid wyf eto wedi cael deialog gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU na'r Adran Masnach a Diwydiant am y mater hwn. Dim ond oddi wrth un cwmni yn Abertawe yr wyf wedi cael gohebiaeth, er fy mod yn deall bod ACAS wedi cael llawer iawn o sylwadau oddi wrth gyflogwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill.

Fe'm sicrheir gan ACAS y bydd yn parhau i ddarparu ei holl wasanaethau ar hyd a lled Cymru.

**Nick Bourne:** A gyhoeddwyd unrhyw ganllawiau ynglŷn ag aelodaeth partneriaeth y Canolbarth ac os do, a wnaiff y Gweinidog roi manylion y canllawiau hyn? (WAQ43052)

**Nick Bourne:** Os oes canllawiau'n bodoli ynglŷn ag aelodaeth partneriaeth y Canolbarth, a gafwyd unrhyw ymgynghori ynglŷn â'r canllawiau hyn ac os do, a wnaiff y Gweinidog roi manylion? (WAQ43053)

**Andrew Davies:** Mae gan bartneriaeth y Canolbarth femorandwm dealltwriaeth rhwng ei phartneriaid sy'n manylu ar yr aelodaeth.

**Nick Bourne:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud o rôl y sector gwirfoddol mewn perthynas â phartneriaeth y Canolbarth? (WAQ43054)

**Nick Bourne:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud o rôl y sector preifat mewn perthynas â phartneriaeth y Canolbarth? (WAQ43055)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol partneriaeth y Canolbarth? (WAQ43056)

**Andrew Davies:** Mae'r sector gwirfoddol a'r sector preifat yn cael eu cynrychioli ar bartneriaeth y Canolbarth. Cafodd rôl y fforymau rhanbarthol, a sut y gallai'r rhain ddatblygu yng nghyd-destun uno'r CCNC a darparu cyngor, ei nodi fel mater i'w ystyried ymhellach yn ein dogfen ymgynghori ar yr uno ym mis Ionawr ac mae'n cael ei ystyried.

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau a fu rhwng Bwrdd Croeso Cymru a gweithredwyr twristiaeth dros y 3 blynedd diwethaf yng ngogledd Cymru ynglŷn â graddio llety ar gyfer ymwelwyr; beth oedd canlyniadau'r trafodaethau hyn a phryd y cawsant eu cyhoeddi? (WAQ43060)

**Andrew Davies:** Dros y tair blynedd diwethaf, mae rhyw 1,500 o fusnesau y flwyddyn wedi cael ymweliadau gan gynghorwyr ansawdd y bwrdd croeso yng ngogledd Cymru i drafod materion graddio o fewn cynlluniau sêr ansawdd y bwrdd i lety twristiaeth. Y wybodaeth a gyhoeddir o ganlyniad i'r trafodaethau hyn yw'r sêr graddio i'r busnesau dan sylw ac mae ar gael drwy wefan VisitWales y bwrdd croeso.

Mae cyfarfodydd ymgynghorol i Gymru gyfan wedi cael eu cynnal, dan gochl Cynghrair Twristiaeth Cymru, gyda chyrff cynrychiadol y diwydiant i drafod y gwaith cysoni graddio ledled Prydain Fawr sydd ar y gweill gan y byrddau croeso cenedlaethol. Cyhoeddwyd 'The Britain Quality Review Report' ym mis Mai 2004.

**Lisa Francis:** A yw Bwrdd Croeso Cymru yn cynnig ffioedd manteisiol i asiantaethau sy'n delio â llety hunan-arlwyaeth ar gyfer ymwelwyr nad ydynt yn eu cynnig i berchnogion unigol? (WAQ43061)

**Andrew Davies:** Ydyw.

**Elin Jones:** Gyda golwg ar ei daith mewn cwch ar hyd arfordir Cymru ym mis Awst 2003, a wnaiff y Gweinidog roi rhagor o fanylion, gan gynnwys: Manylion yr harbyrau yr ymwelwyd â hwy; Manylion busnesau yr ymwelwyd â hwy; Perchnogaeth y cwch; y Broses a ddilynwyd wrth ddewis y cwch ar gyfer y daith? (WAQ43070)

**Andrew Davies:** Dangosir tabl isod sy'n cynnwys manylion y daith uchod mewn cwch.

| Dyddiad | Harbwr yr ymwelwyd ag ef | Busnesau yr ymwelwyd â hwy |
|---|---|---|
| 11 Awst | Aberdaugleddau | Dim |
| | Abergwaun | Dim |
| | Aberaeron | Gwesty'r Harbwr (aros dros nos) |
| 12 Awst | Pwllheli | Gwesty Plasty Gwledig Mynydd Ednyfed (aros dros nos) |
| 13 Awst | Abersoch | Pencampwriaethau Byd GP14 |
| | Porthaethwy | Ye Olde Bull's Head Inn, Biwmares (aros dros nos) |
| 14 Awst | Dychwelyd ar ein hunion i Aberdaugleddau | |

Cyfyngwyd ar y cyfleoedd i ymweld â busnesau oherwydd yr amser a dreuliwyd ar y môr. Cyfarfuom â chynrychiolwyr busnesau a chymdeithasau twristiaeth sy'n ymwneud â chwaraeon dŵr mewn ciniawau busnes a gynhaliwyd yn y mannau lle buom yn aros dros nos (ac eithrio yn Abergwaun, lle cyfarfuom â chynrychiolwyr ar fwrdd y cwch).

Mae'r cwch yn eiddo i Philip Evans, cadeirydd y bwrdd croeso. Dewiswyd y cwch hwn ar gyfer y daith ar y sail fod modd rhoi heibio gostau siarter o £2,000 y diwrnod (£8,000 i gyd). O ganlyniad, yr unig gostau a wynebwyd oedd y costau tanwydd, yswiriant, ffioedd angori, llety a chriw, a chadwyd cost y daith drwyddi draw i'r lleiafswm posibl. Tybiwyd bod hyn yn is o lawer na'r gost o logi cwch yn fasnachol.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnig i dorri swyddi yn swyddfeydd Lloyds TSB yn y de? (WAQ43076)

**Andrew Davies:** Bydd y cyhoeddiad gan Lloyds TSB yn ddiweddar yn effeithio ar ryw 211 o weithwyr yn Abertawe yn Epona House a Black Horse House, ynghyd â 38 yn Northgate House yng Nghaerdydd.

Mae Lloyds TSB wedi cadarnhau mai diogelu effeithlonrwydd a min cystadleuol y grŵp oedd y prif ffactor wrth wraidd y penderfyniad. Mae Lloyds TSB hefyd wedi rhoi sicrwydd y gwneir ymdrechion dygn i adleoli staff i rannau eraill o'r grŵp. Felly, ar hyn o bryd, mae'n amhosibl mynegi barn gywir am faint o'r 249 o aelodau staff yr effeithir arnynt fydd, mewn gwirionedd, yn cael eu diswyddo.

Mae'r grŵp hefyd yn sefydlu mecanweithiau ac yn cysylltu â chwmnïau lleol a'r Ganolfan Byd Gwaith ynglŷn â chyfleoedd cyflogaeth o fewn marchnad leol sy'n dal i fod yn hynod o fywiog.

Yn Abertawe a Chaerdydd, mae diweithdra ar lefelau hanesyddol o isel ac mae'r naill ddinas a'r llall yn dal i ddenu amryw o enghreifftiau o weithgareddau buddsoddi ac adfywio. Yn wir, lai nag wythnos ar ôl cyhoeddiad Lloyds TSB daeth y newydd calonogol fod HSBC i gynyddu, o oddeutu 33 y cant, ei lefelau staffio yn ei ganolfan galwadau ar Barc Menter Abertawe. Mae'r newyddion hwn a buddsoddiadau cyffelyb sy'n parhau yn sicr yn lleihau ergyd cyhoeddiad Lloyd TSB a byddwn yn gobeithio y bydd HSBC yn llwyddo i ddenu rhai o weithwyr Lloyds TSB yr effeithir arnynt.

**Lisa Francis:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu cysylltiadau busnes rhwng y Gogledd a Dulyn? (WAQ43118)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae'n denu busnesau ac unigolion o Ddulyn i'r Gogledd a'r Gorllewin? (WAQ43117)

**Andrew Davies:**

**Mewnfuddsoddi**
Mae gan Awdurdod Datblygu Cymru reolwr gwlad â'i swyddfa yn Nulyn a'i gylch gwaith ef yw denu cyfleoedd mewnfuddsoddi newydd i Gymru o Weriniaeth Iwerddon. Gan weithio gyda'i gydweithwyr yn yr awdurdod yn y rhanbarthau a chyda phartneriaid eraill, mae'r cyfleoedd a geisir wedi'u bwriadu i wneud yn fawr o'r cryfderau sydd i'w gweld mewn gwahanol rannau o Gymru. Cafwyd llwyddiannau ar ffurf swyddi Evron Foods, WF Manufacturing ac Irish yn ne-ddwyrain Cymru: Alpaco Foil, Bimeda, Kingspan a Glanbia yn y Gogledd a Conduit, Dairygold ac Oriel Jones a'r Meibion yn y Gorllewin.

Mae portffolio iach o gyfleoedd mewnfuddsoddi y mae gwaith ar y gweill arnynt ac mae llawer o'r rhain yn ystyried gogledd Cymru fel lleoliad.

**Allforio**
Ers mis Hydref 2002, dechrau'r rhaglen, mae MasnachCymru Rhyngwladol, drwy ei raglen Amcan 1 ExportAssist, wedi trefnu pedair taith fasnach i Iwerddon. Mae dros 80 o gwmnïau, o bob rhan o ranbarth Amcan 1 Cymru, wedi cymryd rhan ar y teithiau hyn.

Ym mis Ionawr 2005, trefnodd ExportAssist un o'r teithiau mwyaf o Gymru, ac, yr ydym yn credu, o'r DU, i Iwerddon. Yr oedd y daith yn cynnwys 46 o gwmnïau, a fu'n arddangos yn Showcase Ireland.

**Lisa Francis:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Croeso Cymru'n bwriadu cydlynu a phecynnu'r profiad gwyliau twristiaeth marchogaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar y potensial a mireinio'r broses cynllunio gwyliau? (WAQ43119)

**Lisa Francis:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Croeso Cymru'n codi proffil ehangach i Gymru fel cyrchfan i dwristiaeth marchogaeth? (WAQ43125)

**Lisa Francis:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Croeso Cymru'n datblygu gwell rhwydwaith cynaliedig o lonydd a llwybrau i greu cysylltiadau cynnyrch a marchnata rhwng llwybrau a mathau eraill o gynnyrch i dwristiaid sy'n marchogaeth a gwasanaethau i greu cynnig cyflawn a chydlynol ym maes twristiaeth marchogaeth? (WAQ43126)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi cymryd eich bod yn cyfeirio at farchogaeth ceffylau. Nod strategaeth Bwrdd Croeso Cymru 'Saddling Up for Success' yw hyrwyddo a datblygu marchogaeth ceffylau yng Nghymru ac mae ei blaenoriaethau strategol yn cynnwys y pwyntiau a wneir gennych uchod. Fel rhan o weithredu'r strategaeth hon, dyfarnwyd contract gwerth £120,000 i Gyngor Ceffylau Cymru gan y bwrdd croeso i farchnata'r sector hwn dros ddwy flynedd. Mae'r ymgyrch, 'Horseback Wales', yn cynnwys gwefan newydd ac ystod o wybodaeth yn cynnwys syniadau gwyliau a llety. Mae Cyngor Ceffylau

Cymru hefyd yn gweithio gyda'r sector marchogaeth ceffylau i annog pecynnu gwyliau a'r nod yw cynnwys y pecynnau hyn ar y wefan ar gyfer cwsmeriaid posibl.

**Lisa Francis:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Fwrdd Croeso Cymru'n cynnig unrhyw arian i whodoiask.com? (WAQ43120)

**Andrew Davies:** Mae whodoiask.com yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o grant gan Fwrdd Croeso Cymru, arian prosiect gan ELWa drwy'r gronfa her dysgu a chyllid cymdeithasol Ewropeaidd.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ardaloedd twf twristiaeth diddordeb arbennig? (WAQ43121)

**Andrew Davies:** Mae tair ardal dwf twristiaeth diddordeb arbennig—de Gwynedd, canol Powys a Pharc Coedwig Afan. Mae i'r ardaloedd hyn y potensial i ychwanegu cyfleusterau ar gyfer amryw o weithgareddau penodol yn cynnwys—dringo, cerdded, seiclo, golff, treftadaeth ddiwydiannol, y celfyddydau a chwaraeon dŵr. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu'r marchnadoedd hyn ac mae wedi dyrannu £500,000 i bob un o'r ardaloedd twf twristiaeth hyn ar gyfer 2002-08.

**Lisa Francis:** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith twristiaeth seiclo yng Nghymru? (WAQ43122)

**Lisa Francis:** Beth mae Bwrdd Croeso Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i ddatblygu'r farchnad i dwristiaid sy'n seiclo yng Nghymru? (WAQ43123)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ41869 ym mis Mawrth 2005.

**Lisa Francis:** Beth mae Bwrdd Croeso Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i ddatblygu'r farchnad i dwristiaid sy'n cerdded yng Nghymru? (WAQ43124)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ42809 ym mis Mawrth 2005.

**Lisa Francis:** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Croeso Cymru'n sicrhau bod cynnyrch twristiaeth marchogaeth cydlynol ar gael yng Nghymru? (WAQ43175)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQs 43119, 43125 a 43126 yn gynharach y mis hwn.

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o arian sydd ar gael ar gyfer y bont gerbydau arfaethedig ar Ffordd Gyswllt Gymunedol Lôn Pen Lan yr ASS a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dyddiad cwblhau disgwyliedig? (WAQ43198)

**Andrew Davies:** Nid yw'r broses statudol ar gyfer y cynllun hwn wedi cael ei chwblhau. Nid yw felly'n bosibl rhoi dyddiad cwblhau disgwyliedig.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar galedwedd cyfrifiadurol y Cynulliad sydd wedi'i ddisodli o dan gynllun cyflwyno Merlin? (WAQ43206)

**Andrew Davies:** Diben cyflwyno'r caledwedd newydd yw disodli'r dechnoleg bresennol a rhoi inni'r seilwaith diweddaraf. Bydd hynny'n galluogi'r Cynulliad i gyflenwi'r gwasanaethau a ragwelir ym

mholisi 'Creu'r Cysylltiadau'. Bydd hefyd yn darparu gwasanaethau TG a theleffonau cyson ar draws ein safleoedd i gyd.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gost y gwaith o gyflwyno Merlin, y system gyfrifiadurol newydd? (WAQ43207)

**Andrew Davies:** Mae cost y gwaith cyflwyno wedi'i chynnwys yn nhâl TGCh fesul defnyddiwr Merlin, a fydd yn gostwng o £144 i £116 y defnyddiwr ar ôl y newid. Mae cost untro'r prosiect, nad yw wedi'i chynnwys yn y tâl defnyddiwr, yn £5.7 miliwn. Mae hyn yn cwmpasu'r gwaith adeiladu a gwaith arall i alluogi'r system newydd i gael ei chyflwyno, hyfforddiant i ACau a'r swyddogion ac uwchraddio'r meddalwedd.

**Sandy Mewies:** Faint o arian y Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol â phortffolio'r Gweinidog a glustnodwyd i sir y Fflint ers mis Mai 2004? (WAQ432012)

**Andrew Davies:** Mae rhaglenni datblygu economaidd a thrafnidiaeth o fudd i ardaloedd eang ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i awdurdod lleol penodol, ond gallwn nodi:

| | |
|---|---|
| £2,854,000 | RSA, AIG, Band Eang, P2P |
| £446,400 | Grant Amcan 3 |
| £6,331,000 | Grantiau trafnidiaeth a thocynnau teithio rhad 2004-05 |

Mae sir y Fflint yn elwa o gynllun cefnffordd yr A494/A55 a gwblhawyd yn 2004 am £18 miliwn, rhaglenni cynnal a chadw ffyrdd a grantiau datblygu eraill.

**Lisa Francis:** A yw Bwrdd Croeso Cymru yn cynnal unrhyw ymgyrchoedd hysbysebu ar y cyd â Great Western Railway i hyrwyddo'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Paddington a Chaerdydd i dwristiaid? (WAQ43214)

**Andrew Davies:** Nid yw Bwrdd Croeso Cymru yn cynnal unrhyw ymgyrchoedd hysbysebu penodol ar y cyd â Great Western Railway i hyrwyddo'r gwasanaeth rhwng Llundain a Chaerdydd—er ei fod yn gweithio gyda'r cwmni ar gyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus. Mae'r bwrdd croeso yn cynnwys gwybodaeth am deithio ar y trên i Gymru ac o fewn Cymru fel rhan o'i weithgareddau marchnata cyffredinol.

**Lisa Francis:** Beth oedd targed economaidd cyffredinol Strategaeth Dwristiaeth Canolbarth Cymru (1999) ar gyfer twf mewn twristiaeth yn y Canolbarth ar gyfer 2003 ac a lwyddwyd i gyrraedd y targed hwn? (WAQ43215)

**Andrew Davies:** Mae gan Bartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru darged strategol i gyfrannu at y targed twf cenedlaethol ym maes twristiaeth, sef cyfradd dwf o 6 y cant ar gyfartaledd yng ngwariant ymwelwyr—fel a nodwyd yn 'Cyflawni Ein Potensial'. Nid oes ystadegau manwl am faint a gwerth twristiaeth yn y Canolbarth ar gael—er bod amcangyfrifon yn awgrymu bod twristiaeth wedi cynyddu 6.8 y cant yn y Canolbarth yn 2003.

Gellir cael rhagor o wybodaeth oddi wrth:
Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
Tŷ Glyndwr
Parc Menter Treowain
Machynlleth

Powys
SY20 8WW

www.tpmw.co.uk

**Lisa Francis:** Faint o swyddi a grëwyd ym maes twristiaeth yn y Canolbarth rhwng 1996 a 2003? (WAQ43216)

**Andrew Davies:** Yn ôl arolwg lleol blynyddol y llafurlu am 2003, yr oedd tua 8,000 o bobl ar draws Ceredigion a Phowys yn cael eu cyflogi mewn diwydiannau yn ymwneud â thwristiaeth fel eu prif swydd. Nid yw'n bosibl dweud faint y mae hyn wedi newid er 1996.

**Lisa Francis:** Pryd y bydd y cyfrifiadau o lefelau cyflogaeth ym maes twristiaeth fel y dangoswyd gan y Model Effaith Twristiaeth ar gael? (WAQ43217)

**Lisa Francis:** A yw'r Model Effaith Twristiaeth sy'n cael ei ddatblygu gan uned ymchwil economaidd Cymru ar gyfer Bwrdd Croeso Cymru wedi'i gwblhau? (WAQ43218)

**Andrew Davies:** Mae model effaith dros dro wedi cael ei baratoi ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn cael mwy o wybodaeth a chaboli'r canlyniadau.

**Lisa Francis:** Gan gyfeirio at bapur Bwrdd Croeso Cymru 'Cyflawni ein Potensial', pa farchnadoedd allweddol a nodwyd gan Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth a pha ymgyrchoedd marchnata a ddatblygwyd yn unol â hynny? (WAQ43219)

**Andrew Davies:** Mae gweithgareddau marchnata Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth yn atgyfnerthu'r gweithgareddau yr ymgymerir â hwy gan bartneriaid allweddol yn cynnwys Bwrdd Croeso Cymru a'r awdurdodau lleol, yn ychwanegu gwerth atynt ac yn eu hategu. Ymysg yr ymgyrchoedd marchnata penodol mae: meithrin ymwybyddiaeth o gefn gwlad yn y gwanwyn a'r hydref; ffordd o fyw; byw'n iach; cerdded/marchogaeth ceffylau/seiclo a physgota; 'gomidwales' ac e-farchnata; campau eithafol rhanbarthol; teithiau grŵp; y rhaglen arddangosfeydd.

Gellir gweld y strategaeth lawn, y cynllun busnes a'r cynllun gweithgareddau ar wefan y bartneriaeth: www.tpmw.co.uk

**Lisa Francis:** Gan gyfeirio at bapur Bwrdd Croeso Cymru 'Cyflawni ein Potensial', pa farchnadoedd allweddol a nodwyd gan Bartneriaeth Ranbarthol Twristiaeth y Gogledd a pha ymgyrchoedd marchnata a ddatblygwyd yn unol â hynny? (WAQ43220)

**Andrew Davies:** Mae Partneriaeth Twristiaeth y Gogledd wedi ymgymryd ag amryw o ymgyrchoedd marchnata gan dargedu ei segmentau allweddol o'r farchnad. Mae'r rhain yn cynnwys: Croeso i Blant; cysylltiadau â chwsmeriaid drwy gronfa ddata e-bostio; datblygu brand i'r ardal farchnata; gwyliau ar thema ddiwylliannol; gwyliau ar thema gerddi; golff, cerdded, antur; llwybr ffilmiau gogledd Cymru.

Gellir cael rhagor o fanylion am strategaeth, cynllun busnes a chynllun gweithgareddau'r bartneriaeth oddi ar ei gwefan, www.tpnw.org.

**Lisa Francis:** Gan gyfeirio at bapur Bwrdd Croeso Cymru 'Cyflawni ein Potensial, pa bartneriaethau marchnata a ddatblygwyd gan Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Canolbarth? (WAQ43221)

**Andrew Davies:** Mae Partneriaeth Twristiaeth y Canolbarth yn ymwneud ag amryw o bartneriaethau a fwriadwyd i helpu i ddatblygu cynnyrch, datblygu sgiliau a marchnata ym maes twristiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys: pum ardal dwf twristiaeth; tri grŵp clwstwr gweithgareddau; Certwg—gweithgor twristiaeth Ceredigion; tair ardal farchnata; partneriaethau strategol Bannau Brycheiniog.

Gellir cael rhagor o wybodaeth oddi ar wefan y bartneriaeth—www.tpmw.co.uk.

**Lisa Francis:** Gan gyfeirio at bapur Bwrdd Croeso Cymru 'Cyflawni ein Potensial', pa bartneriaethau marchnata a ddatblygwyd gan Bartneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd? (WAQ43222)

**Andrew Davies:** Mae Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol y Gogledd yn ymwneud â'r partneriaethau marchnata canlynol:

Ynys Môn
Eryri – mynyddoedd a môr
Llandudno Bae Colwyn
Y Rhyl Prestatyn
Gororau gogledd Cymru
Y trefi caerog
Dinbych
Clwstwr golff
Fforwm cerdded gogledd Cymru
Comisiwn Ffilm Gogledd-orllewin Cymru

Gellir cael rhagor o wybodaeth oddi ar wefan y bartneriaeth—www.tpnw.org.

**Lisa Francis:** Pryd y bydd Bwrdd Croeso Cymru yn cwblhau ei adolygiad o ddarpariaeth gwasanaeth canolfannau croeso a'r seilwaith TGCh integredig a phryd y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi? (WAQ43223)

**Andrew Davies:** Bydd canlyniadau'r adolygiad o'r canolfannau croeso yn cael eu trafod gan weithgor siarter y canolfannau croeso ym mis Mehefin 2005. Unwaith y byddir wedi cytuno ar strwythur a gweithrediad y rhwydwaith canolfannau croeso, caiff y gofynion TGCh eu hadolygu. Y nod yw cytuno ar gynllun datblygu cyffredinol erbyn diwedd 2005.

**Lisa Francis:** Yn sgîl y ffaith bod Bwrdd Croeso Cymru wedi comisiynu canolfan Henley i ymgymryd ag ymarfer ar y dyfodol, pwy oedd arbenigwyr y diwydiant a chynrychiolwyr y diwydiant yr ymgynghorodd Canolfan Henley â hwy yng Nghymru? (WAQ43224)

**Andrew Davies:** Ymgynghorodd Canolfan Henley â'r arbenigwyr a'r cynrychiolwyr o'r diwydiant yng Nghymru sydd wedi'u rhestru yn y tabl isod:

| **Enw** | **Sefydliad/Busnes** |
|---|---|
| Neil James | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Paul Barrett | Ysgol Lletygarwch Cymru, Rheolaeth ym maes Twristiaeth a Hamdden, UWIC |
| Kevin Bishop | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Robin Gwyn | Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru |
| John Walsh-Heron | Associated Quality Services |
| Evelyn Thurlby | Gardd Cymru |
| Joan Asby | Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu |
| Justin Baird-Murray | Gwesty'r Metropole, Llandrindod |

| | |
|---|---|
| Julian Burrell | Wales Tourism Alliance and Wales Holidays, y Drenewydd |
| Sion Llewellyn | Cardiff Backpacker, Caerdydd |
| Mr Peter Smith | Gwesty a Thy Bwyta Caer Beris, Llanfair-ym-Muallt |
| Jenny Adams | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ros Pritchard | British Holiday and Home Parks Association |

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pam na chafodd digwyddiad y mis yn yr Amgueddfeydd ac Orielau ei hysbysebu ar wefan 'Visit Wales' Bwrdd Croeso Cymru? (WAQ43237)

**Andrew Davies:** Deallaf fod cyswllt uniongyrchol erbyn hyn at wefan y digwyddiad '24 Hour Museum' o visitwales.

**Lisa Francis:** I ba raddau y mae nifer y cyfranogwyr yn y cwrs 'Croeso i'r Celfyddydau' wedi gostwng ers 2000? (WAQ43238)

**Lisa Francis:** I ba raddau y cwtogwyd ar y nawdd ar gyfer y cwrs 'Croeso i'r Celfyddydau' ers 2000? (WAQ43239)

**Andrew Davies:** Un elfen o raglen hyfforddi Cynllun Croeso Cymru yw 'Croeso i'r Celfyddydau' ac mae'n cael ei chynnal gan gonsortiwm y Cynllun Croeso sy'n cynnwys colegau Llandrillo, Sir Benfro ac Ystrad Mynach. Gellir cael manylion oddi wrth:

Christine Evans
Rheolwr Gweithrediadau
Ffôn: 01492 542302
07866 453567
ca.evans@llandrillo.ac.uk

**Lisa Francis:** Pa effaith y mae Partneriaeth Twristiaeth y Canolbarth yn ei chael ar y gwaith o ddatblygu twristiaeth yn ei rhanbarth? (WAQ43241)

**Andrew Davies:** Mae Partneriaeth Twristiaeth y Canolbarth yn cyflawni yn erbyn y strategaeth dwristiaeth i'r Canolbarth—sydd ar gael ar www.tpmw.co.uk. Mae'n darparu adolygiad blynyddol o'i pherfformiad i Fwrdd Croeso Cymru. Disgwylir yr adolygiad hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2005 a bydd yn cael ei roi ar wefan y bartneriaeth.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Leighton Andrews:** Faint yw dyraniad y Gweinidog ar gyfer gwariant cyfalaf fesul awdurdod lleol ar adeiladau ysgolion, ar gyfer pob blwyddyn hyd 2007-08? (WAQ42960)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae dwy ffynhonnell gyllid ar gyfer awdurdodau lleol y mae modd eu buddsoddi mewn adeiladau ysgolion, sef cyllid cyfalaf cyffredinol a'r grant gwella adeiladau ysgolion. Mae'r cyllid gogyfer â'r naill a'r llall o'r rhain dros y cyfnod 2003-04 i 2007-08 fel a ganlyn:

**Cyllid Cyfalaf Cyffredinol**

| 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 |
|---|---|---|---|---|
| £54.939 miliwn | £54.939 miliwn | £59.331 miliwn | £59.331 miliwn | £59.331 miliwn |

**Grant Gwella Adeiladau Ysgolion**

| 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 |
|---|---|---|---|---|
| £36.725 miliwn | £42.685 miliwn | £74.685 miliwn | £74.685 miliwn | £74.685 miliwn |

Ffigurau dros dro yw ffigurau 2006-07 a 2007-08, ond mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi ymrwymiad i gynnal y cyllid blynyddol ar gyfer cyfalaf ysgolion ar lefel 2005-06 o £139 miliwn hyd at ddiwedd y ddegawd. Mae hyn yn tybio y bydd cyllid cyfalaf cyffredinol yn parhau i gael ei gymeradwyo ar y gyfradd gyfredol fel rhan o setliad y Cynulliad dros y cyfnod hwn. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys 9.5 miliwn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

Mae'r dyraniad cyllid cyfalaf cyffredinol wedi cael ei gynnwys yn setliad cyfalaf cyffredinol llywodraeth leol ac nid yw wedi ei neilltuo. Caiff elfen addysg y cyllid cyfalaf cyffredinol ei dosbarthu yn unol â fformiwla sydd wedi'i seilio 75 y cant ar nifer y disgyblion a 25 y cant ar nifer yr ysgolion.

Mae'r grant gwella adeiladau ysgolion yn cynnwys swm fformiwla blynyddol ynghyd â, o 2005-06 hyd at 2009-10, cyfandaliad o £9 miliwn i bob awdurdod ar gyfer prosiectau mawr. Mae dyraniadau fformiwla y grant gwella adeiladau ysgolion dros y cyfnod  2003-04 i 2005-06 fel a ganlyn.

| **Awdurdod** | **2003-2004** | **2004-2005** | **2005-2006** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £871,000 | £736,592 | £779,050 | £2,386,642 |
| Blaenau Gwent | £1,589,000 | £425,268 | £442,084 | £2,456,352 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £1,589,099 | £1,376,933 | £1,463,202 | £4,429,234 |
| Caerffili | £2,227,000 | £1,872,901 | £1,963,626 | £6,063,527 |
| Caerdydd | £3,522,000 | £3,000,153 | £3,131,648 | £9,653,801 |
| Sir Gaerfyrddin | £2,286,000 | £1,930,085 | £2,039,213 | £6,255,298 |
| Ceredigion | £818,000 | £828,804 | £892,156 | £2,538,960 |
| Conwy | £1,335,555 | £1,096,072 | £1,176,851 | £3,608,478 |
| Sir Ddinbych | £320,707 | £1,044,590 | £1,097,401 | £2,462,698 |
| Sir y Fflint | £1,841,000 | £1,576,793 | £1,649,136 | £5,066,929 |
| Gwynedd | £1,507,000 | £1,367,875 | £1,446,098 | £4,320,973 |
| Merthyr Tudful | £802,000 | £660,158 | £687,462 | £2,149,620 |
| Sir Fynwy | £657,000 | £2,093,988 | £860,155 | £3,611,143 |
| Castell-nedd Port Talbot | £1,646,000 | £1,420,529 | £1,480,857 | £4,547,386 |
| Casnewydd | £1,712,000 | £1,447,705 | £1,525,548 | £4,685,253 |
| Sir Benfro | £1,775,000 | £1,024,287 | £1,348,993 | £4,148,280 |
| Powys | £1,745,216 | £1,480,544 | £1,593,411 | £4,819,171 |
| Rhondda Cynon Taf | £3,240,000 | £2,674,037 | £2,838,126 | £8,752,163 |
| Abertawe | £1,612,000 | £1,503,000 | £2,268,024 | £5,383,024 |
| Tor-faen | £1,211,000 | £1,028,737 | £1,081,401 | £3,321,138 |
| Bro Morgannwg | £1,509,000 | £1,288,611 | £1,363,338 | £4,160,949 |
| Wrecsam | £1,462,000 | £2,252,941 | £307,061 | £4,022,002 |

Pennir y dyraniadau ar gyfer 2006-07 a 2007-08 cyn gynted ag y bydd cyllidebau perthnasol y Cynulliad ar gyfer y blynyddoedd hynny wedi cael eu cymeradwyo.

Mae cyfrannau'r dyraniadau £9 miliwn hyd yma fel a ganlyn:

| **Awdurdod** | **2005-2006 £** | ***2006-2007 £** | ***2007-2008 £** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,720,000 | 3,000,000 | 0 |
| Blaenau Gwent | 4,000,000 | 2,500,000 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 800,000 | 2,055,000 | 3,115,000 |
| Caerffili | 4,800,000 | 3,100,000 | 1,100,000 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 |
| Sir Gaerfyrddin | 3,000,000 | 3,000,000 | 0 |
| Ceredigion | 1,000,000 | 1,750,000 | 0 |
| Conwy | 100,000 | 0 | 0 |
| Sir Ddinbych | 775,000 | 4,325,000 | 1,400,000 |
| Sir y Fflint | 1,064,000 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 0 | 2,500,000 | 750,000 |
| Sir Fynwy | 3,500,000 | 2,000,000 | 500,000 |
| Castell-nedd Port Talbot | 300,000 | 489,000 | 0 |
| Casnewydd | 3,000,000 | 2,400,000 | 100,000 |
| Sir Benfro | 750,000 | 4,250,000 | 3,750,000 |
| Powys | 2,948,000 | 2,832,000 | 1,300,000 |
| Rhondda-Cynon-Taf | 1,600,000 | 1,500,000 | 667,721 |
| Abertawe | 3,300,000 | 2,500,000 | 1,850,000 |
| Tor-faen | 920,000 | 2,750,000 | 0 |
| Bro Morgannwg | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 3,000,000 | 3,000,000 | 0 |
| Cyfanswm | 36,577,000 | 43,951,000 | 14,532,721 |

Mai 2005 * Amcangyfrif o'r dyraniad

Bydd awdurdodau nad ydynt yn derbyn y cyfan neu ryw gyfran o'u dyraniad £9 miliwn yn y cyfnod hyd at 2007-08 yn ei gael yn y blynyddoedd dilynol.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog restru'r nifer o fyfyrwyr o etholaeth Rhondda, ac ardal Cyngor Rhondda Cynon Taf, sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, ar gyfer pob blwyddyn ers 1998-99? (WAQ42965)

**Jane Davidson:** Mae'r wybodaeth a geisiwch yn y tabl sydd ynghlwm.

**Israddedigion blwyddyn gyntaf a gofrestrodd mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU yn ôl dull astudio (a)**

| **Blwyddyn academaidd** | **Etholaeth** | | | **Awdurdod Unedol** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhondda** | | | **Rhondda Cynon Taf** | | |
| | **Amser llawn** | **Rhan-amser** | **Pawb** | **Amser llawn** | **Rhan-amser** | **Pawb** |
| 1998-99 | 235 | 300 | 535 | 1,075 | 1,100 | 2,175 |
| 1999-2000 | 295 | 300 | 595 | 1,140 | 1,185 | 2,325 |
| 2000-01 | 350 | 415 | 765 | 1,305 | 1,530 | 2,835 |
| 2001-02 | 385 | 495 | 880 | 1,435 | 1,585 | 3,020 |
| 2002-03 | 385 | 535 | 920 | 1,475 | 1,815 | 3,290 |
| 2003-04 | 405 | 435 | 840 | 1,555 | 1,435 | 2,985 |

Ffynhonnell: HESA
(a) Y sefyllfa ar 1 Rhag. Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf.

Nid yw myfyrwyr addysg uwch yn astudio mewn sefydliadau addysg bellach wedi'u cynnwys.
Gallai myfyrwyr ar raglen blwyddyn gyntaf gynnwys myfyrwyr sydd wedi astudio ar lefel AU o'r blaen.
Nid yw myfyrwyr â chod post anhysbys/annilys wedi cael eu cynnwys.

**Michael German:** Er Gorffennaf 14, 2004 faint o bobl (a) sydd wedi gadael gwasanaeth ELWa, a pha swyddi maent wedi ymadael â hwy (b) sydd wedi'u recriwtio a beth oedd y ffigyrau cymharol ar gyfer 2003-04? (WAQ43075)

**Jane Davidson:** Mae'r manylion am ELWa fel a ganlyn:

| **Cyfnod: 14 Gorff tan y presennol** | **Wedi gadael** | **Wedi ymuno** |
|---|---|---|
| Strategaeth a Sgiliau | 4 | 1 |
| Strategaeth a Chyfathrebu | 1 | 0 |
| Swyddfa'r Prif Weithredwr | 1 | 0 |
| Swyddfeydd Rhanbarthol | 1 | 0 |
| Y Gyfarwyddiaeth Ddysgu | 14 | 16 |
| Cyllid a Risg | **19** | 2 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 4 | 1 |
| **Cyfansymiau** | 44 | 10 |

| **Cyfnod: 14 Gorff 2003 tan 13 Gorff 2004** | **Wedi gadael** | **Wedi ymuno** |
|---|---|---|
| Strategaeth a Chyfathrebu | 1 | 1 |
| Swyddfa'r Prif Weithredwr | 5 | 3 |
| Swyddfeydd Rhanbarthol | 47 | 8 |
| Y Gyfarwyddiaeth Ddysgu | 22 | 11 |
| Cyllid a Risg | 19 | 11 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 11 | 7 |
| Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol | 4 | 1 |
| Cyfranogi a Chyfathrebu | 13 | 0 |
| Perfformiad a Gwybodaeth | 5 | 1 |
| Strategaeth a Dysgu | 7 | 4 |
| **Cyfansymiau** | 134 | 47 |

Mae'r ffigurau am y naill cyfnod a'r llall yn dangos yr ailstrwythuro ar y gweill yn ELWa a'r ailgyflunio ar ei gyfarwyddiaethau yn ogystal â throsiant staff nad oedd a wnelo â hynny.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a gychwynnir ar godi'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol St Alban ym Mhont-y-pwl yn ddiymdroi? (WAQ43116)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn cymryd eich bod yn cyfeirio at yr ysgol gynradd Gatholig newydd arfaethedig i ddisodli ysgolion cynradd Catholig St Alban a St Francis ym Mhont-y-pwl. Cymeradwywyd cyllid mewn egwyddor o dan y rhaglen gyfalaf i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ym mis Mawrth 2004.

Megis gyda phob cynnig a gymeradwyir mewn egwyddor o dan y rhaglen gyfalaf i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, mae'n amodol ar i unrhyw weithdrefnau statudol gofynnol gael eu cwblhau'n foddhaol e.e. cyhoeddi hysbysiadau, lle tybir bod hynny'n briodol. Gan fod y cynnig hwn yn golygu cau dwy ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir sy'n bodoli ar hyn o bryd a sefydlu ysgol gynradd wirfoddol newydd a gynorthwyir, mae'n rhaid wrth weithdrefnau statudol. Mae'r gweithdrefnau yn cynnwys gofyniad ar i hyrwyddwyr y cynnig, Archesgobaeth Caerdydd ac awdurdod addysg lleol Tor-faen yn yr achos hwn, ymgynghori â phartïon perthnasol y mae'n debygol y bydd y cynigion a'r hysbysiadau statudol yn effeithio arnynt.

Deallaf fod yr ymgynghori wedi cael ei gynnal, ond nad yw'r hysbysiadau cyhoeddus wedi cael eu cyhoeddi eto. Mater i hyrwyddwyr y cynnig yw penderfynu pa un i gyhoeddi hysbysiadau statudol a phryd i wneud hynny, ar ôl ystyried canlyniadau'r ymgynghori. Mae hysbysiadau statudol yn rhoi cyfle i wneud gwrthwynebiadau, ac os cyfyd gwrthwynebiadau i gynnig, mae'n disgyn i'm rhan i fel y Gweinidog dros Addysg a Ddysgu Gydol Oes i benderfynu pa un y dylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio.

Er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cymeradwyaeth mewn egwyddor i ddarparu cyllid ar gyfer y prosiect hwn, gwnaed hynny heb ragfarnu unrhyw benderfyniad y gallai fod gofyn i mi, fel y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ei wneud ar unrhyw gynnig statudol pe bai gwrthwynebiadau statudol yn dod i law.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu cynlluniau gofal plant gan gynnwys Cymorth a Chychwyn Cadarn? (WAQ43132)

**Jane Davidson:** Mae Cymorth yn cynnwys Cychwyn Cadarn a phrosiectau gofal plant yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae cyllideb Cymorth yn y tair blynedd 2005-06, 2006-07, a 2007-08 yn £44,744,000, £62,833,000 a £75,362,000 yn eu tro. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn darparu cyllid craidd i amryw o gyrff ymbarél sy'n cefnogi gofal plant. Mae'r cyllid hwnnw yn £2,008,928 i gyd yn 2005-06.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn bwrw ymlaen â dau gynllun buddsoddi mawr newydd ym maes gofal plant. Yn gyntaf, yr ydym wedi gwneud cais llwyddiannus am £12.5 miliwn dros dair blynedd o dan Amcanion 1 a 3 i'r diben o gynyddu cyfraniad y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd tuag at ddarpariaeth gofal plant ar draws Cymru. Yn ail, yr ydym yn darparu £50 miliwn dros y ddwy flynedd 2006-07 a 2007-08 ar gyfer menter blynyddoedd cynnar sydd wedi'i thargedu at y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r arian hwn yn cael ei adlewyrchu yn llinellau'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd cynnar a Cymorth, yn cynnwys gofal plant.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi darparu tua £529,000 i Gymru ar gyfer peilot gofal plant mewn ysgolion sydd â ffocws cymunedol yn Nhor-faen.

**Leighton Andrews:** Pa rôl sydd gan Glybiau Plant Cymru o ran cyflwyno polisïau cyffredinol y Gweinidog ar ofal plant? (WAQ43133)

**Jane Davidson:** Clybiau Plant Cymru yw'r prif gorff gofal plant y tu allan i'r ysgol dros Gymru. Ers ei greu yn 2001, mae Clybiau Plant Cymru wedi bod yn hynod lwyddiannus ac, erbyn mis Rhagfyr 2004, yr oedd 1,166 o glybiau y tu allan i'r ysgol yn darparu 26,000 o leoedd gofal plant yng Nghymru, sy'n cynrychioli twf o 98 y cant. Mae Clybiau Plant Cymru wedi darparu egni aruthrol i gyrraedd, a hyd yn oed ragori ar, darged Gwell Cymru o 22,000 o leoedd gofal plant newydd, erbyn mis Mawrth 2003. Cymru oedd y genedl gyntaf i gyrraedd ei tharged o dan y Gronfa Cyfleoedd Newydd, diolch i ymdrechion Clybiau Plant Cymru.

O'r flwyddyn nesaf, dylai gwaith Clybiau Plant Cymru gael ei gyflwyno a'i yrru drwy bartneriaethau lleol a fydd yn comisiynu gwasanaethau gan Glybiau Plant Cymru i ddiwallu anghenion neilltuol eu hardaloedd. Yr wyf yn ymwybodol hefyd fod Clybiau Plant Cymru yn gwneud ceisiadau am arian Ewropeaidd i gynnal eu gwaith a helpu i'w ddatblygu ymhellach ym maes gofal plant y tu allan i'r ysgol.

Yr ydym yn dal i gefnogi Clybiau Plant Cymru a'r nod o ehangu'r ddarpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol ymhellach a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr, o fewn Clybiau Plant Cymru ac ar draws Cymru a mannau eraill, er mwyn hyrwyddo darpariaeth gofal plant fforddiadwy o ansawdd da.

**Leighton Andrews:** Pa astudiaethau a wnaethpwyd ynghylch effaith economaidd gwahardd ysmygu ar Dai Tafarn yng Nghymru? (WAQ43134) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu dau ddarn o ymchwil ar y cyd â Gweithrediaeth yr Alban sy'n ystyried effaith economaidd gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Archwiliodd adolygiad rhyngwladol a gyflawnwyd gan Brifysgol Aberdeen effaith gwaharddiadau ar ysmygu ar y diwydiant lletygarwch. Daeth i'r casgliad, yn gyffredinol, fod y dystiolaeth sydd ar gael yn dangos effeithiau bach, cadarnhaol gan mwyaf. Nid oes effaith economaidd negyddol yn deillio o wahardd ysmygu mewn tai bwyta a bariau yn cael ei dangos gan astudiaethau lle seiliwyd y canfyddiadau ar fesurau gwrthrychol megis derbyniadau gwerthiant trethadwy.

Ymgymerwyd ag ail astudiaeth a fodelai effaith gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru gan Brifysgol Morgannwg. Daeth i'r casgliad y byddai'r effaith flynyddol ar y sector lletygarwch yng Nghymru yn yr ystod minws £48 miliwn i £131 miliwn, a'r amcangyfrif mwyaf tebygol oedd £42 miliwn, ond y byddai'r effaith net ar economi Cymru yn llai na hyn gan y byddai unrhyw newid mewn gwariant yn cael ei ailddosbarthu i sectorau eraill o'r economi ac ohonynt.

Cyflwynwyd y naill astudiaeth a'r llall fel tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor y Cynulliad ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus. Maent ar gael ar
http://www.wales.gov.uk/keypubassemsmoking/index-e.htm
http://www.cymru.gov.uk/keypubassemsmoking/index-w.htm

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog gomisiynu astudiaeth ar effaith economaidd debygol gwahardd ysmygu ar dai tafarn yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n fentrau i unigolion? (WAQ43135) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Brian Gibbons:** Yn dilyn y bleidlais gan y Cynulliad ar 25 Mai i dderbyn argymhellion y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio'r pwerau'r perthnasol oddi wrth Lywodraeth y DU. Byddai unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnwys arfarniad rheoliadol o gostau a buddion tebygol y polisi, yn cynnwys y gwelliannau o ran iechyd, yr arbedion i'r GIG, a'r effaith economaidd debygol ar amryw o sectorau, yn cynnwys busnesau bach.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog esbonio'i rôl yng nghyswllt apelau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau lleol i gau ysgolion? (WAQ43136)

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau addysg lleol yw adolygu'r ddarpariaeth ysgolion a chyhoeddi cynigion i wneud newidiadau, yn cynnwys cynigion i gau ysgolion pan fyddant o'r farn fod hynny'n angenrheidiol. Mae cyhoeddi cynigion yn rhoi'r cyfle i wneud gwrthwynebiadau statudol, ac fel arfer rhaid gwneud hynny o fewn cyfnod o ddau fis. Lle bo gwrthwynebiadau o'r fath yn codi, mae paragraff 8 o Atodlen 6 at Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn pennu bod gofyn i'r cynigion gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r pwer i benderfynu pa un i gymeradwyo cynigion ai peidio wedi cael ei ddirprwyo i mi fel y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r materion yr wyf yn eu hystyried wrth benderfynu ar gynigion o'r fath wedi cael eu nodi'n fanwl yng nghylchlythyr 23/02, y mae copi ohono i'w weld yn
http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/circulars/2302/cover-e.htm.

**Lisa Francis:** Sut yr ariennir yr uned ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Gynradd Tŷ Aron yn Nolgellau; pa gyfran o'r arian, os o gwbl, a ddaw o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd a pha gyfran a ddaw o Adran Addysg yr Awdurdod Lleol? (WAQ43194)

**Jane Davidson:** Darperir cyllid i ysgolion yng Nghymru ar sail heb ei neilltuo drwy'r setliad i lywodraeth leol. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol unigol yn eu tro yw gosod cyllidebau ar gyfer eu hysgolion—y nhw sydd yn y sefyllfa orau i farnu anghenion ac amgylchiadau lleol ac i ariannu'r ysgolion yn unol â hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn mynd allan i'r ysgolion ar ffurf cyllidebau wedi'u dirprwyo. Pennir y rhain drwy gyfrwng fformiwla gyllido leol, sydd wedi'i seilio'n bennaf ar nifer y disgyblion ond mae'n darparu hyblygrwydd i'r AALlau i roi sylw i amgylchiadau lleol.

Nid yw'r Cynulliad yn dal gwybodaeth am gyllidebau ysgolion unigol, a byddai angen gofyn am y wybodaeth honno i'r AALl neu'r ysgol dan sylw.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn ymwneud â'r gostyngiad arfaethedig yng nghyflogau gweinyddesau meithrin a chynorthwywyr dosbarth ym Mro Morgannwg? (WAQ43199)

**Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar o ran y gostyngiad arfaethedig yng nghyflogau gweinyddesau meithrin a chynorthwywyr dosbarth ym Mro Morgannwg? WAQ43200)

**Janet Ryder:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r gostyngiad arfaethedig yng nghyflogau gweinyddesau meithrin a chynorthwywyr dosbarth ym Mro Morgannwg? (WAQ43201)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn ymwybodol drwy ohebiaeth fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn gweithio gyda'r ysgolion yn ei ardal i adolygu graddfeydd a thelerau ac amodau ei staff cymorth yn yr ysgolion.

Ar yr un pryd ag y mae'r ysgolion yn gweithredu'r cytundeb llwyth gwaith, mae'r awdurdodau lleol hefyd yn gweithio tuag at weithredu adolygiadau statws sengl. Mae hynny'n golygu bod angen i'r AALlau edrych ar gyflogau a chyfrifoldebau staff cymorth yr ysgolion i sicrhau eu bod yn briodol i'r rolau y maent yn eu llenwi ac yn cymharu â chyflogau a chyfrifoldebau aelodau staff eraill sy'n gwneud gwaith o'r un gwerth yn yr awdurdod lleol.

Mae'r naill a'r llall o'r datblygiadau hyn wedi cael eu croesawu gan yr undebau sy'n cynrychioli staff cymorth yr ysgolion gan eu bod yn cynnig buddion a chyfleoedd gwirioneddol i'w haelodau. Fodd bynnag, gallai fod achlysuron lle bo unigolyn yn pryderu am ei amgylchiadau neilltuol ei hun, ac mewn achosion felly bydd yr undebau yn gallu cynnig cyngor a chymorth priodol.

Mater i'r ysgolion unigol a'u llywodraethwyr yn sicrhau bod cyflogau eu staff cymorth yn rhesymol o ystyried eu rôl a'u cyfrifoldebau. Dylent wneud hyn yn unol â pholisïau'r AALl a'r canllawiau oddi wrth y Cyd Gyngor Cenedlaethol.

**Sandy Mewies:** Faint o arian y Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol â phortffolio'r Gweinidog a glustnodwyd i sir y Fflint ers mis Mai 2004? (WAQ432011)

**Jane Davidson:** O fewn y portffolio addysg a dysgu gydol oes, dyrennir cyllid ar sail rhaglen yn hytrach na fesul rhanbarth, felly nid yw'n bosibl rhoi manylion am y cyllid sydd wedi cael ei ddyrannu ar gyfer addysg a hyfforddiant yn sir y Fflint drwyddo draw. Serch hynny, mae rhai datblygiadau cyffrous iawn yn y gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn sir y Fflint y mae'n werth eu nodi:

- Yn 2004-05 cafodd sir y Fflint £966,500 o arian refeniw a £150,000 o arian cyfalaf i sicrhau bod lle rhan-amser ar gael i bob plentyn tair oed o'r tymor ar ôl iddo gael ei ben-blwydd yn dair. Sicrhaodd y dyraniad cyfalaf bod modd sefydlu canolfan integredig, sy'n dod ag addysg y blynyddoedd cynnar, gofal plant cofleidiol, hyfforddiant a datblygu a chwarae mynediad agored ynghyd.
- Mae gan sir y Fflint ysgol a grŵp chwarae sy'n rhan o'r peilot ar gyfer y cyfnod sylfaen ac mae wedi cael cyllid i sicrhau cymhareb oedolyn/plentyn o 1:8

- Mae AALl Sir y Fflint wedi bod yn cymryd rhan yn y fenter brecwastau ysgol am ddim ers tymor y gwanwyn 2005. Hyd yma mae wedi cael taliad o £54,622.60 ar ffurf grant penodol i ariannu cyfanswm o saith ysgol dros dymhorau'r gwanwyn a'r haf 2005. Caiff cyllid pellach ei ddyrannu i sir y Fflint fesul tymor, a bydd y swm yn dibynnu ar faint o ysgolion sy'n cymryd rhan ac ar nifer y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth.
- Mae cyfanswm y cymorth refeniw heb ei neilltuo a dalwyd i sir y Fflint ar gyfer 2005-06 yn £154 miliwn. Mae hyn yn cynnwys grant cynnal refeniw, grant amddifadedd, grant cymell perfformiad a menter twf busnes yr awdurdod lleol.
- O ran anghenion addysgol arbennig, mae £2.8 miliwn wedi cael ei wario ar ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ranbarthol ar gyfer anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yng ngogledd Cymru. Bydd y ddarpariaeth hon yn fodd i blant ag anghenion arbennig sydd ag anhwylderau hynod gymhleth ar y sbectrwm awtistig gael eu cadw yng ngogledd Cymru yn hytrach na'r trefniadau cyfredol lle mae'r plant hyn yn cael eu lleoli mewn gwahanol fathau o ddarpariaeth mewn ysgolion ar draws y DU. Ysgol Plas Brondyffryn yw'r prosiect rhanbarthol cyntaf o'r math hwn, ac mae ei ddatblygiad, er ei fod wedi golygu rhai problemau sydd wedi mynd â llawer o amser, yn torri tir newydd. Er ei bod wedi ei dyrannu i sir Ddinbych, rhagwelir y bydd yr ysgol yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anhwylderau difrifol ar y sbectrwm awtistig ar draws gogledd Cymru. Dyrannwyd £45,000 ymhellach i sir y Fflint i ddatblygu canolfan adnoddau gynradd i blant a phobl ifanc ag anhwylderau difrifol ar y sbectrwm awtistig ar draws Wrecsam a sir y Fflint.
- O dan raglen y grant gwella adeiladau ysgolion, cafodd sir y Fflint £1.577 miliwn yn 2004-05 a £1.649 miliwn yn 2005-06 i uwchraddio adeiladau ysgolion.
- Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn darparu cyllid i'r AALlau yn gefn i flaenoriaethau strategol y Cynulliad Cenedlaethol o safbwynt addysg gyda ffocws cryf ar arloesi a chymorth i gynlluniau newydd. Mae dyraniad sir y Fflint o dan y Gronfa Ysgolion Gwell yn 2004-05 a 2005-06 yn fwy na £4 miliwn (£4,175,750).
- Yn 2004-05 a 2005-06 dyrannwyd arian refeniw ychwanegol i sir y Fflint ar gyfer mesurau i wella ysgolion, yn cynnwys maint dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2, cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 3, ysgolion sy'n tangyflawni, cymorth i ysgolion bach ac ysgolion gwledig, gwerth £3.1 miliwn.
- Mae'r Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn dod ag asiantaethau allweddol ynghyd i benderfynu ar flaenoriaethau ac amcanion a rennir ac mae'n galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, cynllunio ac adolygu. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cymeradwyo cynlluniau i ddefnyddio'r grant Cymorth sy'n ariannu ymyriadau ataliol yn lleol. Mae cyllid Cymorth i sir y Fflint yn £1,822,707 yn y flwyddyn gyfredol 2005-06, ac mae'r ffigur dangosol ar gyfer 2006-07 yn £2,225,430. Ategir gwaith y partneriaethau fframwaith gan bartneriaethau plant a phartneriaethau pobl ifanc sy'n ymdrin â'r gwasanaethau ar gyfer plant o 0 i 10 oed a phobl ifanc o 11 i 25 oed, y naill a'r llall.
- Ar lefel leol, mae'r agenda ymestyn hawliau, polisi blaengar, trosfwaog y Cynulliad ar gyfer pob person ifanc rhwng 11 a 25 oed, yn cael ei roi ar waith gan amryw o asiantaethau sy'n cael eu cyd-drefnu gan 22 o bartneriaeth pobl ifanc amlasiantaethol—un ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru, yn cynnwys sir y Fflint. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys cyrff sydd â rôl i'w chwarae yn natblygiad ein pobl ifanc. Mae gofyn i bartneriaethau pobl ifanc weithio gyda phobl ifanc i ddatblygu a chynnal archwiliad sy'n cael ei ddiweddaru o'r angen a'r ddarpariaeth bresennol gan weithio gyda phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau presennol a phobl ifanc nad ydynt yn eu defnyddio.
- Mae partneriaethau plant, sydd wedi'u seilio ar y canllawiau 'Hawl Bore Oes', yn ymdrin â gwasanaethau i blant 0 i 10 oed yn yr un ffordd yn fras ag a wna'r partneriaethau pobl ifanc ar gyfer y grŵp oedran hyn. Maent yn canolbwyntio ar anghenion plant ar sail saith nod craidd cyffredin y Cynulliad a'r blaenoriaethau strategol cyffredinol sydd wedi'u nodi yn eu fframwaith lleol plant a phobl ifanc, yn hytrach nag o safbwynt darparwyr gwasanaethau, ac maent yn ceisio lleihau'r posibilrwydd o orgyffwrdd a dyblygu.
- Yn 2004-05, darparwyd £30,000 o dan adroddiad grant arbennig Rhif 7 i bob un o'r 22 partneriaeth pobl ifanc yng Nghymru, yn cynnwys sir y Fflint. Defnyddiwyd yr arian hwn i gynnal gweithgarwch

datblygiadol gan bartneriaid y partneriaethau pobl ifanc, yn cynnwys y bartneriaeth ehangach os oedd hynny'n briodol, ym meysydd cyfranogiad pobl ifanc a thrafnidiaeth a/neu gyngor ar iechyd rhywiol. Mae sir y Fflint hefyd wedi cael £18,826 o arian o gronfa gymdeithasol Ewrop tuag at ei chronfeydd adroddiad grant arbennig rhwng mis Hydref 2004 a mis Mawrth 2005, sydd wedi ei galluogi i symud ymlaen â'r agenda ymestyn hawliau ar gyfer pobl ifanc.

- Yn 2005-06, darparwyd grant arbennig o £50,000 i bob partneriaeth pobl ifanc i gefnogi gweithgarwch datblygiadol gan bartneriaid y partneriaethau pobl ifanc, yn cynnwys y bartneriaeth ehangach ym meysydd blaenoriaethol cyfranogi a gwybodaeth a chyngor—codi ymwybyddiaeth a/neu iechyd emosiynol. Mae gofyn i bob partneriaeth pobl ifanc roi sylw i gyfranogiad ac o leiaf un maes arall y rhoddir blaenoriaeth iddo. Cafodd sir y Fflint £24,892 hefyd o arian o gronfa gymdeithasol Ewrop fel arian cyfatebol tuag at ei chronfeydd adroddiad grant arbennig rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006, a fydd yn ei galluogi i barhau i fwrw ymlaen yn gyflymach â'r agenda ymestyn hawliau.
- O ran y llwybrau dysgu 14-19, yn 2004-05 cafodd sir y Fflint grant datblygu rhwydwaith llwybrau dysgu o £50,000. Yn ychwanegol at hyn, yn 2004-05 bydd cyllid grant penodol ar gael i redeg amryw o brosiectau peilot. Cynhaliodd sir y Fflint beilot profiad yn canolbwyntio ar waith y cafodd £6,000 ar ei gyfer. Yn 2005-06 mae'r grant datblygu rhwydwaith wedi codi i £65,000, y bydd yn ei dderbyn ar ôl i'w gynllun datblygu gael ei gymeradwyo. Yn ychwanegol, pe bai'n cymryd rhan ym mhrosiect cronfa gymdeithasol Ewrop, mae'r grant datblygu rhwydwaith yn cynyddu i £85,000, ac mae'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd ar ei ben yn dod yn £120,000.
- Yn sir y Fflint, mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn treialu cymhwyster bagloriaeth Cymru. Cafodd Coleg Glannau Dyfrdwy ei ddethol fel rhan o'r garfan gyntaf i gyflwyno bagloriaeth Cymru o fis Medi 2003. Ym mlwyddyn academaidd 2004-05, cofrestrodd 73 o fyfyrwyr am gymhwyster bagloriaeth Cymru yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy. Mae gan Goleg Glannau Dyfrdwy 16 o fyfyrwyr ar y lefel ganolradd a 57 o fyfyrwyr ar y lefel uwch. Ar draws Cymru, mae 2,963 o fyfyrwyr yn ymgymryd â bagloriaeth Cymru ym mlwyddyn academaidd 2004-05.
- O ran addysg bellach, mae Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Garddwriaeth Cymru o fewn ffiniau sir y Fflint. Darparodd ELWa gyllid drwy ei fethodoleg cyllido rheolaidd ar gyfer blwyddyn academaidd 2004-05 o ryw £12.725 miliwn a £0.5 miliwn pellach gogyfer â gwariant cyfalaf. Ar ben hynny, ar gyfer blwyddyn academaidd 2004-05 darparwyd £1.133 miliwn pellach i gefnogi'r fenter cyflogau addysg bellach.
- Darparodd ELWa ryw £5.337 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2004-05 i AALl Sir y Fflint gogyfer ag ysgolion ôl-16 a £3,000 arall i gefnogi dysgu i oedolion yn y gymuned.
- Ni allaf roi dadansoddiad ar fyr rybudd o'r gwariant yn sir y Fflint ar addysg a hyfforddiant arall a gefnogwyd gan ELWa yn sir y Fflint er mis Mai 2004. Fodd bynnag, byddai'r gwariant hwnnw yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith, datblygu sgiliau busnes, y gronfa her dysgu, cyfrifon dysgu unigol a chymorth i ddysgwyr ag anawsterau dysgu.
- Yn ddiweddar mae ELWa wedi lansio ei gronfa fuddsoddi gyffredin i AALlau a sefydliadau addysg bellach, sydd wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cynigion ar ran partneriaethau dysgu i ddangos sut y byddent yn defnyddio grant i hyrwyddo gweithio cydweithrediadol er mwyn gwneud gwelliannau i'r seilwaith dysgu, i ansawdd y profiad dysgu ac i ansawdd yr amgylchedd dysgu er budd rhanddeiliaid ym maes dysgu. Mae ELWa wedi neilltuo rhyw £0.364 miliwn yn 2005-06 ar gyfer sir y Fflint.
- Y swm a ddyrannwyd i sir y Fflint i gefnogi gweithgareddau yn ymwneud â'r strategaeth sgiliau sylfaenol genedlaethol yn 2004-05 oedd £344,330.78.
- Yn ystod cylch 2004 o gronfa ddysgu undebau Cymru, llwyddodd y GMB i sicrhau £48,000 i gynnal ei brosiect dwy flynedd, 2004-06, yn Greencore Pizza ar barc diwydiannol Glannau Dyfrdwy, sir y Fflint. Gelwir y prosiect yn ddatblygiad canolfan ddysgu. Ei nod yw datblygu canolfan ddysgu yn Greencore Pizza a darparu adnoddau ynddi, canfod anghenion sgiliau sylfaenol y gweithwyr, cynorthwyo dysgwyr sgiliau sylfaenol i fanteisio ar ddarpariaeth achrededig, darparu hyfforddiant Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill, ac annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ehangach.
- Mae Greencore Pizza wedi ymrwymo i addewid sgiliau sylfaenol y cyflogwr ac yr oedd hefyd yn un o'r cyflogwyr cyntaf yng Nghymru y dyfarnwyd addewid y cyflogwr iddo. Bydd y prosiect hwn yn help i addewid y cyflogwr fagu gwreiddiau yn y cwmni. Lansiodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y prosiect ar 14 Ionawr 2005.

- Yn olaf, yr wyf wedi darparu ffurflen grant 2004-05 sir y Fflint, er gwybodaeth ichi, sy'n dangos yr arian yr adroddodd iddi ei dderbyn mewn grantiau yn y flwyddyn honno.

**Glyn Davies:** Faint fydd y gost i gyllideb Llywodraeth y Cynulliad, dros y 5 mlynedd nesaf, o ad-dalu myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru i wneud yn siŵr eu bod yn derbyn addysg prifysgol am ddim? (WAQ43250)

**Jane Davidson:** Nid oes gan y Cynulliad y pwerau i ariannu nac ad-dalu ffioedd hyfforddi i fyfyrwyr o Gymru ym mlwyddyn academaidd 2005-06. Cynigir bod y pwerau statudol o ran cymorth i fyfyrwyr i gael eu trosglwyddo o'r Adran Addysg a Sgiliau 'r Cynulliad gan ddod i rym o flwyddyn academaidd 2006-07.

A chymryd bod pob myfyriwr o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru, ond o fewn y DU, yn cymryd benthyciadau ffioedd, a gâi eu had-dalu wedyn gan y Cynulliad, amcangyfrifir y byddai'r gost yn:

| | |
|---|---|
| Blwyddyn academaidd 2006-07 | £26.0 miliwn |
| Blwyddyn academaidd 2007-08 | £40.0 miliwn |
| Blwyddyn academaidd 2008-09 | £53.1 miliwn |
| Blwyddyn academaidd 2009-10 | £58.8 miliwn |

Fodd bynnag, pe bai'r Cynulliad i roi cymorth tuag at ffioedd i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion y tu allan i Gymru, mae perygl y byddai'r DU yn torri ei rhwymedigaethau o dan yr Undeb Ewropeaidd.

**Nodyn**
Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar system sy'n adlewyrchu'r galw ac maent yn amodol ar amryw o ragdybiaethau. Gallai'r amcangyfrifon newid wrth i ddata mwy diweddar ddod ar gael.

1. Mae'r cyfrifiadau wedi'u seilio ar yr amcangyfrif y bydd myfyrwyr o Gymru yn Lloegr ac Iwerddon, o garfan 2006-07 ymlaen, yn wynebu ffi o £2,980 ar gyfartaledd; bydd y myfyrwyr hynny yn yr Alban yn talu ffi benodedig o £1,900.
2. Nid yw hyn yn cynnwys cost y grant presennol i dalu am ffioedd sy'n ddarostyngedig i brawf modd, i fyfyrwyr cyn 2006-07 sy'n dal i astudio.
3. Wedi'u seilio ar amcangyfrifon yr Adran Addysg a Sgiliau o dwf myfyrwyr.
4. Nid yw'r ffigurau yn cymryd unrhyw arbedion gan y Cynulliad ar y grant dysgu nac unrhyw incwm oddi wrth yr Adran Addysg a Sgiliau drwy drosglwyddiad ariannol cymorth i fyfyrwyr i ystyriaeth.

**Glyn Davies:** Faint fydd cyfanswm y gost i gyllideb y Cynulliad o gael gwared ar ffïoedd dysgu ynghyd â'r gost o beidio â chyflwyno ffioedd atodol yng Nghymru ar yr un lefel â'r hyn a gynigiwyd ar gyfer Lloegr dros y 5 mlynedd nesaf? (WAQ43251)

**Jane Davidson:** Dyma'r gost amcangyfrifedig lawn i gyllideb y Cynulliad o gael gwared â'r gofyniad am i fyfyrwyr newydd yng Nghymru dalu ffioedd hyfforddi o 2006-07 tra'n sicrhau nad yw sefydlidau addysg uwch Cymru yn wynebu anfantais ariannol dros y pum mlynedd nesaf:

| | |
|---|---|
| 2006-07 | £72.4 miliwn |
| 2007-08 | £122.7 miliwn |
| 2008-09 | £163.7 miliwn |
| 2009-10 | £176.9 miliwn |

**Nodyn**

Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar system sy'n adlewyrchu'r galw ac maent yn amodol ar amryw o ragdybiaethau. Gallai'r amcangyfrifon newid wrth i ddata mwy diweddar ddod ar gael.

1. Yn cynnwys y gost o ran adnoddau o ddarparu benthyciadau ffioedd i fyfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau y tu allan i Gymru. Mae'r cyfrifiadau wedi'u seilio ar yr amcangyfrif y bydd myfyrwyr o Gymru yn Lloegr ac Iwerddon, o garfan 2006-07 ymlaen, yn wynebu ffi o £2,980 ar gyfartaledd; bydd y myfyrwyr hynny yn yr Alban yn talu ffi benodedig o £1,900.
2. Rhagdybir y bydd 83 y cant yn manteisio ar fenthyciadau ffioedd.
3. Yn cynnwys cost ffrwd incwm atodol wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y bydd angen atodiad at incwm sefydliadau addysg uwch Cymru yn lle'r incwm ffioedd amrywiol a fyddai wedi ei hepgor i 91 y cant o fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus. Mae'r ffigurau'n ddibynnol ar benderfyniadau polisi yn ymwneud â ffrwd incwm atodol.
4. Wedi'u seilio ar amcangyfrifon yr Adran Addysg a Sgiliau o dwf myfyrwyr.
5. Nid yw'r ffigurau yn cymryd unrhyw arbedion gan y Cynulliad ar y grant dysgu nac unrhyw incwm oddi wrth yr Adran Addysg a Sgiliau drwy drosglwyddiad ariannol cymorth i fyfyrwyr i ystyriaeth.

**Glyn Davies:** Faint fydd y gost i gyllideb Llywodraeth y Cynulliad o gadw ffioedd dysgu ar eu lefel bresennol o gymharu â chyflwyno ffioedd atodol ar yr un gyfradd â'r hyn a gynigiwyd ar gyfer Lloegr dros y 5 mlynedd nesaf? (WAQ43252)

**Jane Davidson:** Dyma'r gost amcangyfrifedig o gadw ffioedd dysgu yng Nghymru ar £1,200 tra'n sicrhau nad yw sefydliadau addysg uwch Cymru yn wynebu anfantais ariannol:

| | |
|---|---|
| 2006-07 | £50.5 miliwn |
| 2007-08 | £84.3 miliwn |
| 2008-09 | £112.5 miliwn |
| 2009-10 | £122.2 miliwn |

Mae cost amcangyfrifedig cyflwyno ffioedd hyfforddi amrywiol o hyd at £3,000 yng Nghymru i bob myfyriwr o 2007-08 a chyda'r un system o gymorth i fyfyrwyr ag a gynigir ar gyfer Lloegr fel a ganlyn:

| | Os yw carfan 2006-07 yn cael ei gwarchod rhag ffioedd amrywiol | Os nad yw carfan 2006-07 yn cael ei gwarchod |
|---|---|---|
| 2006-07 | £51.4 miliwn | £51.4 miliwn |
| 2007-08 | £54.6 miliwn | £32.4 miliwn |
| 2008-09 | £59.8 miliwn | £43.1 miliwn |
| 2009-10 | £51.5 miliwn | £47.8 miliwn |

## Nodyn

O 2007-08 mae'r gost o gadw ffi o £1,200 yn cynyddu o'i chymharu â'r gost o gyflwyno ffioedd amrywiol oherwydd lefel y ffrwd incwm atodol y byddai ei hangen ar sefydliadau addysg uwch Cymru (gweler nodyn 3).

Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar system sy'n adlewyrchu'r galw ac maent yn amodol ar amryw o ragdybiaethau. Gallai'r amcangyfrifon newid wrth i ddata mwy diweddar ddod ar gael.

Yn cynnwys y gost o ran adnoddau o ddarparu benthyciadau ffioedd i fyfyrwyr o Gymru a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r cyfrifiadau wedi'u seilio ar yr amcangyfrif y bydd myfyrwyr o Gymru yn Lloegr ac Iwerddon, o garfan 2006-07 ymlaen, yn wynebu ffi o £2,980 ar gyfartaledd; bydd y myfyrwyr hynny yn yr Alban yn talu ffi benodedig o £1,900.
Rhagdybir y bydd 83 y cant yn manteisio ar fenthyciadau ffioedd.

Yn cynnwys cost ffrwd incwm atodol wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y bydd angen atodiad at incwm sefydliadau addysg uwch Cymru yn lle'r incwm ffioedd amrywiol a fyddai wedi ei hepgor am 91 y cant o fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus. Mae'r ffigurau'n ddibynnol ar benderfyniadau polisi yn ymwneud â ffrwd incwm atodol.
Wedi'u seilio ar amcangyfrifon yr Adran Addysg a Sgiliau o dwf myfyrwyr.
Nid yw'r ffigurau yn cymryd unrhyw arbedion gan y Cynulliad ar y grant dysgu nac unrhyw incwm oddi wrth yr Adran Addysg a Sgiliau drwy drosglwyddiad ariannol cymorth i fyfyrwyr i ystyriaeth.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Leighton Andrews:** Pa gyfleusterau sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer ailgylchu cyfrifiaduron personol? (WAQ42997)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae cyfrifiaduron personol yn cael eu hailgylchu mewn amryw o gyfleusterau ar draws Cymru yn y sector cymunedol a'r sector preifat. Mae hyn yn cynnwys paratoi cyfrifiaduron i gael eu hailddefnyddio, yn ogystal ag ailgylchu'r deunyddiau. Enghraifft o'r olaf yw'r cyfleusterau newydd yn Hirwaun sy'n ailgylchu tiwbiau pelydrau catod o fonitoriaid cyfrifiaduron. Gall cyfleusterau yng Nghymru ailgylchu cyfrifiaduron neu ddeunyddiau o'r tu allan i Gymru. Yn yr un modd, gall cyfrifiaduron personol gael eu hailgylchu y tu allan i Gymru; bydd hyn yn dibynnu ar rymoedd y farchnad ac ymhle mae cyfleusterau ar gael.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar godi polidwnelau yng nghefn gwlad, a'r polisi cynllunio presennol sy'n ymwneud â hynny? (WAQ43029)

**Carwyn Jones:** Lle bo angen caniatâd cynllunio, byddai angen i gynigion i godi polidwnelau gael eu hystyried ar eu haeddiant gyda golwg, ymysg pethau eraill, ar y canllawiau cynllunio cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) a Nodyn Cyngor Technegol 6, Datblygu Amaethyddol a Gwledig, Mehefin 2000.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y refeniw a gesglir drwy fodiwleiddio bob blwyddyn ac a wnaiff restru'r prosiectau sydd wedi derbyn nawdd, neu sydd wedi cael addewid o nawdd, o'r refeniw a gesglir? (WAQ43077)

**Carwyn Jones:** Yr oedd y symiau a gasglwyd drwy fodiwleiddio ym mhob blwyddyn ariannol, erbyn diwedd Ebrill 2005, fel a ganlyn:

| **Blwyddyn Ariannol** | **Swm a Gasglwyd** |
|---|---|
| 2001-02 | 2,377,191.03 |
| 2002-03 | 3,976,523.42 |
| 2003-04 | 7,132,050.97 |
| 2004-05 | 6,621,074.26 |
| 2005-06 | 395,601.13 |
| **Cyfanswm** | **20,502,440.81** |

Hyd yma Tir Gofal yw'r unig gynllun sydd wedi cael cyllid o'r derbyniadau modiwleiddio. O'r swm a gasglwyd, mae £2,166,200.59 wedi cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau Tir Gofal.

Ar 23 Mai 2005 yr oedd 1,261 o brosiectau oedd yn cael eu hariannu ag arian modiwleiddio.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun datblygu gwledig? (WAQ43151)

**Carwyn Jones:** Mae'r cynllun datblygu gwledig cyfredol i Gymru yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2006. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud yn llawn ar lefel y DU ac Ewrop â'r negodi ar reoliad drafft yr Undeb Ewropeaidd ar ddatblygu gwledig. Bydd y rheoliad yn gosod y fframwaith polisi strategol, yn ogystal â'r sail ar gyfer ymwneud â'n partneriaid allanol, wrth inni baratoi'r cynllun olynol ar gyfer 2007-13.

**Lisa Francis:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i ddenu pobl ifanc i barhau'r traddodiad ffermio? (WAQ43152)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd mesurau i annog pobl ifanc i barhau mewn amaethyddiaeth. Mae'r rhain yn amrywio o grantiau gwella ffermydd a grantiau mentrau fferm ar lefelau uwch i ymgeiswyr o dan 40, darpariaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid o fewn elfen y gronfa genedlaethol o'r cynllun taliad sengl, a darparu cyllid i Glybiau Ffermwyr Ifanc.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cynhyrchwyr llaeth sydd wedi bod wrthi'n cynhyrchu yng Nghymru, bob blwyddyn er 1997? (WAQ43153)

**Carwyn Jones:** Nid oes data ar gael yn y ffurf a geisir ond, gan ddefnyddio ystadegau amaethyddol Cymru 2004, amlinellir nifer y daliadau llaeth isod. I roi'r ffigurau hyn yn eu cyd-destun, darperir data hefyd am gyfanswm y fuches laeth a maint cynyddol buchesau Cymru.

| **Bl** | **Nifer y daliadau a nodir fel rhai llaeth** | **Cyfanswm y fuches laeth sy'n bridio** | **Maint buches ar gyfartaledd** |
|---|---|---|---|
| 1997 | 4,008 | 280,452 | 57 |
| 1998 | 3,809 | 276,523 | 58 |
| 1999 | 3,644 | 278,533 | 61 |
| 2000 | 3,381 | 268,565 | 62 |
| 2001 | 3,364 | 269,952 | 66 |
| 2002 | 3,165 | 267,737 | 67 |
| 2003 | 3,015 | 268,140 | 71 |
| 2004 | 2,937 | 271,470 | 74 |

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y daliadau llaeth sydd wedi bod yng Nghymru bob blwyddyn er 1997? (WAQ43154)

**Carwyn Jones:** Gan ddefnyddio ystadegau amaethyddol Cymru 2004, amlinellir nifer y daliadau llaeth isod. I roi'r ffigurau hyn yn eu cyd-destun, darperir data hefyd am gyfanswm y fuches laeth a maint cynyddol buchesau Cymru.

| **Bl** | **Nifer y daliadau a nodir fel rhai llaeth** | **Cyfanswm y fuches laeth sy'n bridio** | **Maint buches ar gyfartaledd** |
|---|---|---|---|
| 1997 | 4,008 | 280,452 | 57 |
| 1998 | 3,809 | 276,523 | 58 |
| 1999 | 3,644 | 278,533 | 61 |
| 2000 | 3,381 | 268,565 | 62 |
| 2001 | 3,364 | 269,952 | 66 |
| 2002 | 3,165 | 267,737 | 67 |
| 2003 | 3,015 | 268,140 | 71 |
| 2004 | 2,937 | 271,470 | 74 |

**Glyn Davies:** Gyda golwg ar Adroddiad Barker: ‘Darparu sefydlogrwydd; diogelu ein hanghenion tai i’r dyfodol’, pa asesiad a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch effaith bosibl atodiad budd cynllunio ar bolisïau Llywodraeth y Cynulliad ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad? (WAQ43173)

**Carwyn Jones:** Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am yr atodiad budd cynllunio a fydd, os caiff ei fabwysiadu gan Ganghellor y Trysorlys, yn gymwys i Gymru. Byddwn yn parhau i gysylltu ag adrannau perthnasol y DU wrth i’r polisi ar yr atodiad budd cynllunio ddatblygu, er mwyn sicrhau’r canlyniad gorau posibl i Gymru.

**Glyn Davies:** Gyda golwg ar Adroddiad Barker: "Darparu sefydlogrwydd; diogelu ein hanghenion tai i’r dyfodol’, pa asesiad a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o’r goblygiadau ariannol i Gymru o ran sut y cai refeniw a gesglid drwy atodiad budd cynllunio ei ddosbarthu ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad? (WAQ43174)

**Carwyn Jones:** Gallai unrhyw benderfyniad gan Ganghellor y Trysorlys i gyflwyno atodiad budd cynllunio fod â goblygiadau ariannol i Gymru. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio’n agos gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â’r atodiad budd cynllunio, i sicrhau’r canlyniad mwyaf ffafriol i Gymru.

**Glyn Davies:** Pa gyfraniad ariannol mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’i wneud i’r ymgyrch i hyrwyddo clytiau/cewynnau ailddefnyddiadwy? (WAQ43176)

**Carwyn Jones:** Ym mis Mawrth y llynedd cymeradwyodd Llywodraeth y Cynulliad grant o £25,000 i Sustainable Wales iddo gynhyrchu cynllun busnes ar gyfer ymgyrch clytiau/cewynnau go-iawn i hyrwyddo defnyddio clytiau/cewynnau adnewyddadwy ar draws Cymru.

**Leanne Wood:** A yw’n bolisi gan y Gweinidog y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd erlyn llygrwyr sy’n achosi niwed i’r amgylchedd waeth beth fo’u statws cyfreithiol? (WAQ43202)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl Asiantaeth yr Amgylchedd o ran erlyn llygrwyr sydd ag amddiffyniad posibl o imiwnedd y Goron? (WAQ43203)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog gymryd camau i sicrhau bod pob llwybr cyfreithiol sydd ar agor iddo yn cael ei ddefnyddio gan yr asiantaethau perthnasol er mwyn erlyn llygrwyr honedig? (WAQ43204)

**Carwyn Jones:** Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd bwerau gorfodi ac erlyn eang eu cwmpas o dan y gwahanol Ddeddfau ac is-ddeddfwriaeth, yn cynnwys pwerau yn ymwneud â digwyddiadau llygredd amgylcheddol. Mater i’r asiantaeth yw penderfynu sut y mae’n defnyddio ei phwerau.

Mae’r asiantaeth wedi cyhoeddi ei pholisi gorfodi ac erlyn, ac mae hwn i’w weld ar ei wefan. Fel y dywed y polisi, lle bo imiwnedd y Goron yn bodoli nid yw erlyn yn opsiwn sydd ar gael. Fodd bynnag, mae amgylchiadau sy’n cael eu disgrifio ym mholisi’r asiantaeth, fel y mae wedi’i gyhoeddi, pryd y gall wneud cais i’r Uchel Lys am ddatganiad bod unrhyw dorri ar ddarpariaeth gan y Goron yn anghyfreithlon.

Yn ôl polisi’r asiantaeth, mae ei phwerau gorfodi yn gymwys i’r Goron yn yr un modd ag i unrhyw berson arall.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y digwyddiad llygru a gofnodwyd yn afon Elái ar 8 Mai 2005? (WAQ43205)

**Carwyn Jones:** Ar 9 Mai rhyddhaodd Asiantaeth yr Amgylchedd ddatganiad am y digwyddiad llygru difrifol hwn yr oedd aelod o'r cyhoedd wedi rhoi gwybod amdano ar 8 Mai, ac yr amcangyfrifir ei fod wedi lladd sawl mil o bysgod yn afon Elái. Deallaf fod ymchwiliadau'r asiantaeth i'r hyn a'i hachosodd yn parhau.

**Sandy Mewies:** Faint o arian y Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol â phortffolio'r Gweinidog a glustnodwyd ar gyfer sir y Fflint ers mis Mai 2004? (WAQ432010)

**Carwyn Jones:** Nid yw'n bosibl rhoi dadansoddiad o gyllideb na gwariant penodol yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar siroedd Cymru gan mai dim ond yn ddiweddar y mae'r adran wedi symud i system daliadau electronig lle caiff y wybodaeth hon ei dal.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog restru'r contractau sy'n bodoli rhwng Serco a phob un o adrannau'r Cynulliad, ei asiantaethau gweithredol a'i gyrff cyhoeddus cysylltiedig ac a wnaiff restru'r rheini sydd wedi bodoli er 1999? (WAQ43184)

**Y Gweinidog dros Cyllid (Sue Essex):** Er 1999 mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gosod un contract i Serco Systems Ltd. Contract oedd hwnnw, a osodwyd ym mis Gorffennaf 1998, i gyflenwi a gosod systemau trydan yng Ngwent a de Cymru. Cafodd y contract ei osod gan Is-adran Rheilffyrdd a Ffyrdd Newydd y Cynulliad a daeth i ben ym mis Ionawr 2004.

Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am ein hasiantaethau gweithredol a chyrff cyhoeddus cysylltiedig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Lisa Francis:** A gedwir y cyffuriau angenrheidiol ar gyfer trin thrombolysis yn Ysbyty Tywyn? Os felly, sut y byddai Parameddygon sy'n gweithio o Orsaf Ambiwlans Tywyn yn cael gafael arnynt? (WAQ42966)

**Brian Gibbons:** Nid oes cyflenwadau o gyffuriau thrombolytig yn cael eu cadw yn Ysbyty Tywyn. Os yw'r gwasanaeth sydd i gael ei ddarparu yn ardal Tywyn i weithredu mewn modd tebyg i'r gwasanaeth yng ngogledd Gwynedd ac Ynys Môn, mae'n debygol y byddai'r cyffuriau thrombolytig ar yr ambiwlans yn cael ei hailgyflenwi wrth i griw'r ambiwlans gyflwyno'r claf i ysbyty cyffredinol dosbarth.

**Lisa Francis:** Pryd y rhoddwyd y gorau i ddarparu triniaeth thrombolysis ar gyfer dioddefwyr trawiad ar y galon yn ysbyty Tywyn? Beth oedd y rheswm dros roi'r gorau i ddarparu'r driniaeth hon? (WAQ42967)

**Brian Gibbons:** Yn ôl ymholiadau lleol, mae'n ymddangos bod gwasanaeth wedi cael ei sefydlu yn ardal Tywyn gan un meddyg teulu oedd â diddordeb mewn gofal cyn-ysbyty gyda rhywfaint o gymorth gan ail feddyg teulu yn yr ardal. Yr oedd y gwasanaeth yn gweithio drwy i'r meddyg teulu roi pigiadau o gyffuriau thrombolytig yn yr uned mân anafiadau, gyda chymorth nyrsys yn yr ysbyty. Cafodd y gwasanaeth meddygon teulu ei atal yn gyntaf pan fu newid o ran y cyffur a gâi ei ffafrio ar gyfer thrombolysis i un lle'r oedd gofyn i feddyg teulu fod yn bresennol am awr tra'r oedd y cyffur yn cael ei weinyddu. Er bod newidiadau pellach wedi bod ers hynny i'r cyfundrefnau cyffuriau a ddefnyddir, daeth y gwasanaeth hwn i ben ryw dair neu bedair blynedd yn ôl pan symudodd y meddyg teulu oedd wedi sefydlu'r cynllun lleol hwn dramor.

**Lisa Francis:** A fwriadwyd i barameddygon sy’n gweithio yng ngorsaf Ambiwlans Tywyn roi triniaeth thrombolysis ar ôl rhoi’r gorau i ddarparu’r driniaeth hon yn Ysbyty Tywyn? (WAQ42968)

**Brian Gibbons:** Mae cynllun ar y gweill parthed cynnwys parameddygon o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn y gwaith o weinyddu thrombolysis.

Dechreuodd gwasanaeth ambiwlans Cymru hyfforddi parameddygon i ddarparu triniaeth thrombolysis ym mis Medi 2003 mewn cynllun ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru. Hyfforddwyd 46 o barameddygon.

Ym mis Medi 2004, cafodd gwasanaeth ambiwlans Cymru, gyda chymorth rhwydwaith cardiaidd gogledd Cymru, gytundeb ar y cyd â chwe bwrdd iechyd lleol gogledd Cymru i hyfforddi gweddill y parameddygon sy’n gweithio yng ngogledd Cymru. Yr oedd hyn yn cynnwys y pedwar parameddyg oedd yn weddill sy’n gweithio yng ngorsaf ambiwlans Tywyn.

**Leighton Andrews:** Yn dilyn yr ateb i WAQ41853, a gyflwynwyd i’w ateb ar 7 Mawrth 2005, a wnaiff y Gweinidog sicrhau bod casglu gwybodaeth yn ganolog ar enillion preifat ymgynghorwyr y GIG yn bolisi ganddo? (WAQ42961)

**Brian Gibbons:** Nid oes gennyf gynlluniau i gasglu’r wybodaeth hon.

**Leighton Andrews:** Beth yw’r ffigurau ar gyfer pobl sydd â diabetes Math 1 a Math 2 yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf? (WAQ42963)

**Brian Gibbons:** Cofnododd meddalwedd contract y meddygon teulu 9,807 o bobl yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taff ar gofrestri diabetes meddygon teulu (math 1 a math 2) ac mae hynny, ar 1 Chwefror 2005, yn cyfateb i 4.1 y cant o’r boblogaeth sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu.

Mae nifer yr achosion yn amrywio ar draws practisiau yn Rhondda Cynon Taf o 2.8 y cant i 5.5 y cant.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y darparwyd gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwent ers 2003? (WAQ42979)

**Lynne Neagle:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu adnoddau yn y gwasanaeth iechyd yng Ngwent? (WAQ42980)

**Brian Gibbons:** Sefydlwyd yr ad-drefnu strwythuredig ar GIG Cymru ym mis Ebrill 2003 gan ddisodli hen ffiniau gweinyddol sir Gwent ac awdurdod iechyd Gwent. Erbyn hyn mae pum bwrdd iechyd lleol ac un ymddiriedolaeth GIG yn bodoli yng Ngwent. Mae pob BILl, ar y cyd â’i bartneriaid lleol, wedi llunio strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar gyfer ei boblogaeth, sy’n nodi sut y bydd anghenion iechyd y boblogaeth yn cael eu diwallu.

Mae pa mor dda y mae’r gwasanaethau iechyd yn cyflawni o ran eu perfformiad yn cael ei reoli gan swyddfa ranbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y De-ddwyrain drwy’r broses fframwaith gwasanaeth a chyllid. Mae’r estyniad at Ysbyty Gwynllyw yn 2005 yng enghraifft o ehangu capasiti’r gwasanaeth iechyd yng Ngwent i ddarparu triniaeth orthopedig.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyraniad o £5 miliwn a gyhoeddwyd i dreialu gwasanaethau deintyddol personol yng Nghymru? (WAQ42981)

**Brian Gibbons:** Mae'n bwysig ei gwneud yn glir nad ar gyfer y contractau gwasanaethau deintyddol personol eu hunain y mae'r £5 miliwn. Daw gwerth y contract yn bennaf o'r gyllideb ddeintyddiaeth bresennol lle mae'n newid o fod yn ariannu'r deintydd o dan y gwasanaeth deintyddol cyffredinol presennol i'w ariannu o dan y gwasanaethau deintyddol personol.

Caiff y £5 miliwn ei ddefnyddio i warantu costau'r byrddau iechyd lleol fel bod incymau crynswth deintyddion yn cael eu cynnal lle bo'r incwm o daliadau cleifion yn gostwng yn sgîl y ffyrdd newydd o weithio. Mae'r gwasanaethau deintyddol personol yn caniatáu mwy o amser o safon i ddeintyddion gyda chleifion a mwy o amser ar gyfer datblygiad proffesiynol a datblygu'r practis. Mae modd iddynt ymdrin â iechyd y geg mewn modd ataliol a chael eu talu am ansawdd yn hytrach na nifer y cleifion sy'n cael eu trin. Defnyddir yr adnoddau hefyd i ariannu cynigion i gynyddu'r capasiti yn cynnwys gwella mynediad at ofal deintyddol GIG.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y darperir gofal iechyd gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych? (WAQ42982)

**Brian Gibbons:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych yn darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd aciwt, cymunedol a meddyliol i ganol gogledd Cymru. Yn ogystal, mae nifer o wasanaethau yn cael eu darparu ar draws gogledd Cymru gyfan. Dyma'r prif wasanaethau:

- ysbytai cymuned
- nyrsys ardal a nyrsys ysgol
- iechyd meddwl ac anableddau dysgu;
- gwasanaethau pediatrig aciwt a chymunedol yn cynnwys gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed i ogledd Cymru, ac uned newydd-anedig i orllewin a chanol gogledd Cymru;
- llawfeddygaeth aciwt;
- meddygaeth aciwt;
- gwasanaethau gên ac wyneb i ogledd Cymru, gyda gwasanaeth aciwt yn cael ei ddarparu yng Nglan Clwyd;
- seicoleg glinigol i ganol a dwyrain gogledd Cymru;
- obstetreg a gynaecoleg a bydwragedd cymunedol yn cynnwys gwasanaethau obstetreg arbenigol i ganol a gorllewin Cymru;
- Canolfan Triniaeth Canser Gogledd Cymru;
- uned fawr damweiniau ac achosion brys;
- gwasanaeth deintyddol cymunedol i ogledd Cymru;
- gwasanaethau diagnostig;
- gwasanaethau cymorth clinigol, yn cynnwys therapïau;
- gwasanaethau awdioleg, yn cynnwys gwasanaethau awdioleg i ganolbarth a dwyrain Cymru;
- ffiseg feddygol i ogledd Cymru;
- Gwasanaeth Geneteg Glinigol Gogledd Cymru;
- cynllunio teulu i ganol a dwyrain gogledd Cymru.

Mae'r ystod amrywiol ac eang hon o wasanaethau gofal iechyd yn cael ei darparu o nifer o leoliadau daearyddol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth gwaith yr ymddiriedolaeth. Mae'r sector aciwt yn cynnwys Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Glan Clwyd, ynghyd â H.M. Stanley yn Llanelwy ac Ysbyty Abergele. Mae rhwydwaith o ryw chwe ysbyty cymunedol yn y Rhyl, Prestatyn, Bae Colwyn, Dinbych, Rhuthun a Llangollen (gyda rhai ohonynt yn darparu gwasanaethau ysbyty dydd hefyd), un uned iechyd meddwl aciwt i gleifion mewnol ac un uned adsefydlu iechyd meddwl gymunedol, ynghyd â thair uned i bobl hyn â salwch meddwl.

Yn gefn i bob un o'r arbenigeddau uchod mae ystod o dimau cymunedol sydd wedi cael hyfforddiant penodol, yn gweithio o ganolfannau iechyd, clinigau a mannau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o wasanaethau plant.

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau orthopedeg yn Ysbyty Llandochau? (WAQ42983)

**Brian Gibbons:** Yn ddiweddar mae'r Cynulliad wedi cymeradwyo datblygu canolfan triniaethau orthopedig yn Ysbyty Llandochau. Mis Mawrth 2006 yw'r dyddiad cwblhau disgwyliedig. Bydd y ganolfan yn darparu'r cyfleusterau canlynol:

- dwy theatr orthopedig wedi'u neilltuo;
- 15 gwely aros dros nos;
- ardal ymadfer;
- adran newydd i gleifion allanol;
- cyfleusterau radioleg ehangach;
- derbynfa ac ardaloedd aros;
- dwy theatr ychwanegol;
- cyfleusterau MRI.

Y targedau aros ar gyfer y ganolfan newydd yn 2005-06 yw 12 mis i gleifion allanol, a 12 mis i gleifion mewnol/achosion dydd. Bydd gostyngiadau pellach yn y targedau amseroedd aros dros y pum mlynedd nesaf yn arwain at gyfnod aros hwyaf o chwe mis o'r adeg y caiff claf ei gyfeirio hyd nes iddo gael ei drin erbyn 2009, yn cynnwys unrhyw brofion diagnostig angenrheidiol.

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fesurau i wella iechyd trigolion Llanrhymni? (WAQ42984)

**Brian Gibbons:** Mae BILl Caerdydd wedi cynhyrchu strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar gyfer trigolion Caerdydd, a cham cyntaf y strategaeth honno oedd gwneud asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth.

I symud ei strategaeth ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles ymlaen, mae BILl Caerdydd wrthi ar hyn o bryd yn cynnal proses ffurfiol i ymgynghori â'r cyhoedd am y gwasanaethau i drigolion dwyrain Caerdydd. Gan nad yw'r broses hon wedi cael ei chwblhau, ni fyddai'n briodol i mi wneud sylwadau am y canlyniad posibl. Bydd unrhyw gynigion i ddatblygu gwasanaethau iechyd ar gyfer trigolion canol a dwyrain Caerdydd yn effeithio'n uniongyrchol ar boblogaeth Llanrhymni.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyfforddiant sylfaenol cymorth cyntaf yng Nghymru? (WAQ42985)

**Brian Gibbons:** Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 i gyflogwyr ddarparu cyfarpar, cyfleusterau a phersonél digonol a phriodol fel bod modd rhoi cymorth cyntaf i weithwyr os cânt eu hanafu neu os ânt yn sâl yn y gwaith. Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i bob gweithle yn cynnwys y rheini sydd â phump neu lai o weithwyr neu i bobl hunangyflogedig. Nid yw iechyd a diogelwch wedi'u datganoli, felly yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

Nid yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynnal cyrsiau hyfforddiant cymorth cyntaf ond mae'n cymeradwyo cyrff y mae eu cyrsiau wedi cyrraedd y safonau gofynnol. Mae 1,600 yn fras o ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi'u cymeradwyo ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru.

Mae safonau iechyd corfforaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi datblygu polisïau iechyd y yn y gweithle ac maent yn gwobrwyo arferion da. Fel rhan o'r broses ymgeisio ac asesu, rhaid i gyrff

ddangos tystiolaeth eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau cymorth cyntaf yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar staff y GIG sydd newydd gymhwyso yng Nghymru? (WAQ42986)

**Brian Gibbons:** Yr oedd nifer y myfyrwyr meddygol a raddiodd o Ysgol Feddygol Caerdydd yn 184 yn 2004. Disgwylir i'r nifer hwn gynyddu i 241 yn 2005 a rhagwelir cynnydd pellach yn y dyfodol yn sgîl sefydlu Ysgol Glinigol Abertawe y llynedd. Rhagwelir y bydd 351 o fyfyrwyr meddygol yn graddio yng Nghymru yn 2009.

Cynyddodd nifer y nyrsys cymwysedig yng Nghymru 612 rhwng 2003 a 2004. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 3 y cant mewn un flwyddyn. Mae'r Cynulliad ar ben ffordd i gwrdd â'i darged o gynyddu nifer y nyrsys yn y gwasanaeth o 6,000 erbyn 2010. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynyddu'r hyfforddiant cyn-cofrestru, cyrsiau dychwelyd i ymarfer a chynlluniau eraill recriwtio a chadw.

Mae'r grŵp staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol wedi gweld cynnydd o 685 yn nifer y staff cymwysedig yn y 12 mis rhwng 2003 a 2004. Mae hyn yn cyfateb i dwf blynyddol o 8 y cant yn y swyddi hyn dros y cyfnod dan sylw.

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hygyrchedd cyfleusterau MRI ym Merthyr Tudful a Rhymni? (WAQ42987)

**Brian Gibbons:** O fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae prosiect moderneiddio delweddu diagnostig wedi cael ei sefydlu, i symud argymhellion y strategaeth gwasanaethau diagnostig yn eu blaen. Nod y prosiect yw cynhyrchu a gweithredu fframwaith cenedlaethol a fydd yn darparu glasbrint ar gyfer cyfluniadau gwasanaeth i'r dyfodol ac a fydd yn sicrhau gwelliannau tymor byr, tymor canolig a thymor hir o ran ansawdd, tegwch, cynaliadwyedd, cost, effeithlonrwydd a morâl. Mae'r prosiect yn annog asiantaethau perthnasol i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y buddsoddiad yn cyfateb i anghenion Cymru ac yn adlewyrchu profiad yr arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt.

Un o'r ffrydiau gwaith y mae'r prosiect yn ymgymryd ag ef ar hyn o bryd yw adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaethau MRI ar draws Cymru ac adolygiad o'r holl gyfarpar delweddu. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, gyda chymorth y fforymau cynllunio rhanbarthol sydd newydd gael eu sefydlu, bydd bwrdd y prosiect yn trafod ac yn cytuno ar ofynion cyfarpar yr ymddiriedolaethau ar draws Cymru.

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hygyrchedd i wasanaethau diagnostig ym Merthyr Tudful a Rhymni? (WAQ42988)

**Brian Gibbons:** O fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae prosiectau moderneiddio delweddu diagnostig a phatholeg wedi cael eu sefydlu, er mwyn bwrw ymlaen ag argymhellion y strategaeth gwasanaethau diagnostig. Nod y prosiectau hyn yw cynhyrchu a gweithredu fframwaith cenedlaethol a fydd yn darparu glasbrint ar gyfer cyfluniadau gwasanaeth i'r dyfodol ac a fydd yn sicrhau gwelliannau tymor byr, tymor canolig a thymor hir o ran ansawdd, tegwch, cynaliadwyedd, cost, effeithlonrwydd a morâl. Mae'r prosiectau hyn yn annog asiantaethau perthnasol i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y buddsoddiad yn cyfateb i anghenion Cymru ac yn adlewyrchu profiad yr arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt.

Un o'r ffrydiau gwaith ar hyn o bryd yw adolygiad llinell sylfaen o'r gwasanaethau diagnostig sy'n cael eu darparu ar draws Cymru ac adolygiad o'r holl gyfarpar delweddu a phatholeg. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau bydd bwrdd y prosiect yn trafod ac yn cytuno ar ofynion cyfarpar yr ymddiriedolaethau ar draws Cymru.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Fwrdd Iechyd Lleol sir y Fflint? (WAQ42989)

**Brian Gibbons:** Mae dyraniad Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint yn 2005-06 yn £147.347 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o £14.405 miliwn o'i gymharu â 2004-05.

Mae dyraniad y BILl 6.2 y cant islaw ei gyfran darged o dan fformiwla anghenion uniongyrchol Townsend ar hyn o bryd. Mae £41 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r BILlau hynny sydd bellaf o dan y targed i'w galluogi i fynd ag agenda ddiwygio Wanless yn ei blaen. Mae BILl sir y Fflint wedi cael £4.03 miliwn o'r cyllid hwn.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Abertawe? (WAQ42990)

**Brian Gibbons:** Mae dau safle ysbyty yn Abertawe yn darparu gwasanaethau damweiniau ac achosion brys. Mae Ysbyty Treforys yn darparu gwasanaeth i tua 66,000 o gleifion bob blwyddyn ac yn delio â phob achos brys, yn ogystal ag achosion trawma difrifol. Yr ysbyty yw'r ganolfan drydyddol i ganolbarth a gorllewin Cymru hefyd. Mae ysbyty Singleton yn darparu gwasanaeth i tua 37,000 o gleifion bob blwyddyn ac yn delio â phob achos brys, yn cynnwys achosion llawfeddygaeth frys.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Abertawe wedi bod yn trafod gyda Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe sut y gellir ailfodelu'r ddarpariaeth gwasanaethau i'r dyfodol er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael. Gallai hyn olygu defnyddio mwy o nyrs ymarferwyr ar adegau neilltuol ac mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn cryfhau'r cysylltiadau â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau sy'n gweithredu o Singleton. Mae'r cyngor iechyd cymuned hefyd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hyn.

Deallaf fod yr ymddiriedolaeth hefyd wedi cwrdd â chynrychiolwyr o grwpiau cymunedol lleol i roi sicrwydd iddynt nad yw'r adran yn mynd i gau.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd yn ymgorffori gwasanaethau iechyd annibynnol i ddarparu gofal i gleifion yng Nghymru? (WAQ42991)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y BILlau lleol, Comisiwn Iechyd Cymru a'r tîm comisiynu ail gynnig yw comisiynu gwasanaethau ar gyfer cleifion yng Nghymru, yn cynnwys gwasanaethau o'r sector preifat. Ein prif ddull gweithredu yw datblygu capasiti GIG sy'n cynnig triniaethau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw i gleifion o fewn sefydliad cyflym, diogel, wedi'i gynllunio sy'n cael ei warchod rhag derbyniadau brys.

Gall cyrff iechyd ddefnyddio capasiti sy'n bodoli yn y sector preifat lle bo hyn yn help i ddatrys diffyg capasiti yn lleol, ei fod er lles pennaf y cleifion a'i fod yn rhoi gwerth am arian. Y dull gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd yw defnyddio cyfleusterau presennol y GIG a'r sector annibynnol drwy'r cynllun ail gynnig.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am sicrhau bod yr holl fantais o fuddsoddi yn y gwasanaethau iechyd o fudd i bobl Cymru drwyddi draw a'i bod yn gynaliadwy.

Mae trafodaethau pellach ar y gweill gydag ystod o ddarparwyr gofal iechyd yn cynnwys y GIG a'r sector preifat i gomisiynu rhagor o weithgarwch er mwyn cyrraedd fy nharged o sicrhau nad oes yr un claf yn disgwyl mwy na 12 mis am driniaeth fel claf mewnol nac achos dydd.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drafodaethau a gafodd ar effaith ychwanegion bwyd ar iechyd pobl? (WAQ42992)

**Brian Gibbons:** Mae diogelwch ychwanegion bwyd yn fater yr wyf yn cael cyngor arno gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Rhaid i bob ychwanegyn bwyd, boed hwnnw'n digwydd yn naturiol neu'n un artiffisial, fynd drwy drefn asesu diogelwch a chymeradwyo drylwyr, a rhaid iddo gydymffurfio â deddfwriaeth yr UE. Dim ond lle bo arbenigwyr wedi pennu eu bod yn angenrheidiol ac yn ddiogel y gellir cymeradwyo ychwanegion i gael eu defnyddio mewn bwyd.

Hyd yn oed wedyn, gall rhai pobl gael adwaith anffafriol i rai ychwanegion. Dyma pam mae labelu digonol yn bwysig i helpu defnyddwyr i ganfod pa gynhyrchion sydd â chynhwysion y byddent efallai yn dymuno eu hosgoi.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar enw pob tendr am y contract i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghaerdydd a ddyfarnwyd i ddechrau ar 1 Ebrill 2004? (WAQ43039)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar werth y contract i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghaerdydd a ddyfarnwyd i ddechrau ar 1 Ebrill 2004? (WAQ43040)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar ba wasanaethau penodol clinigol a gwasanaethau eraill nad ydynt yn rhai clinigol a gaiff eu cynnig fel rhan o'r contract i ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghaerdydd? (WAQ43041)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar y manylebau y mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghaerdydd eu bodloni fel rhan o'r tendr, a sut y mae'n bwriadu monitro'r modd y cyflawnir y manylebau hynny? (WAQ43042)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar pa un a all darparwr presennol y gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghaerdydd ddarparu meddyginiaeth ar gyfer presgripsiynau? (WAQ43043)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi pa un a oes gan ddarparwr presennol y gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghaerdydd unrhyw brofiad blaenorol o ddarpariaeth glinigol, neu o ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau? (WAQ43045)

**Brian Gibbons:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn dal manylion am y contract y tu allan i oriau yng Nghaerdydd. Mater gweithredol yw hyn, a Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd sy'n gyfrifol amdano.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar a yw darparwr presennol y gwasanaethau y tu allan i oriau yng Nghaerdydd yn cyflogi meddygon nad ydynt wedi cofrestru'n llawn ar y Rhestr Cyflawnwyr, a pha un a ganiateir yr arfer hwn? (WAQ43044)

**Brian Gibbons:** Mater i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'i gontractwr yw sicrhau bod y meddygon a ddefnyddir ar y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi cymhwyso'n iawn. Mae'r gofynion perthnasol wedi'u nodi yng Nghyfarwyddiadau Darparwyr Amgen Gwasanaethau Meddygol (Cymru) 2004 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn cynnwys y darpariaethau ar gyfer meddygon y mae angen iddynt gael eu cofrestru ar y rhestr perfformwyr.

**Val Lloyd:** Pa mor gyffredin yw clefyd Paget yng Nghymru ar hyn o bryd, o'i gymharu â thair gwlad arall Prydain? (WAQ43057)

**Val Lloyd:** Faint o bobl a gafodd eu diagnosio yn dioddef o glefyd Paget yng Nghymru yn y cyfnodau canlynol: 2000-1; 2001-2; 2002-3 a 2003-4? (WAQ43058)

**Val Lloyd:** Pa driniaeth a chefnogaeth sydd ar gael i bobl yng Nghymru sy'n dioddef o glefyd Paget? (WAQ43059)

**Brian Gibbons:** Caiff clefyd Paget ei ddiagnosio a'i reoli gan mwyaf o dan ofal rhiwmatolegydd. Caiff y cyflwr ei drin gan mwyaf gyda grŵp o gyffuriau a elwir yn bisffosffonadau, sy'n gweithredu'n bennaf i arafu'r broses lle mae'r asgwrn yn disodli ei hun yn gyflym. Gellir darparu cymorth ychwanegol lle bo hynny'n briodol i reoli'r boen a geir gyda'r cyflwr drwy ffisiotherapi a hydrotherapi er enghraifft.

Nid oes gwybodaeth am nifer yr achosion o glefyd Paget yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU ar gael ar hyn o bryd. Yr ydym yn ymwybodol o amcangyfrifon fod nifer yr achosion o glefyd Paget yn y DU rhwng 3 a 5 y cant, yn enwedig ymysg pobl dros 50 oed. Gwyddom hefyd fod cysylltiad cryf rhwng y cyflwr ag oedran.

Nid oes gennym ffigurau'n ganolog am nifer y bobl sydd â chlefyd Paget yng Nghymru. Gall clefyd Paget amlygu ei hun mewn llawer o ffyrdd, sy'n aml yn ei wneud yn anodd i'w ddiagnosio. Mewn llawer o achosion, nid yw'r cyflwr yn cael ei ganfod ac efallai na fydd yn achosi unrhyw symptomau.

**Jonathan Morgan:** Sawl cyfarfod y mae'r Gweinidog wedi eu cael â Chyngor Sir Caerdydd ers iddo gael ei benodi? (WAQ43062)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi cael un cyfarfod gyda Chyngor Sir Caerdydd, ers imi gael fy mhenodi, i drafod y cynnydd o ran gwasanaethau plant.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu capasiti'r sector cartrefi gofal yng Nghaerdydd? (WAQ43063)

**Brian Gibbons:** Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio, darparu a chomisiynu gwasanaethau gofal. Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gweithredu ar lefel strategol drwy sefydlu'r fframwaith rheoleiddio, arweiniad a chyllid i gynorthwyo'r awdurdodau lleol i sicrhau bod ystod o wasanaethau wedi'u sefydlu i gynnal anghenion pobl sy'n agored i niwed.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno'r grant adnoddau ymarferol gwerth £19.5 miliwn yn 2004-05 i gynyddu capasiti darpariaeth gofal cymdeithasol yr awdurdodau lleol. Yn 2005-06 mae hefyd wedi darparu £12 miliwn o gyllid rheolaidd yn setliad refeniw llywodraeth leol mewn cydnabyddiaeth o'r angen i ddarparu gofal cymdeithasol i bobl hyn.

Deallaf fod Cyngor Sir Caerdydd yn datblygu cynlluniau i gadw, datblygu ac amrywio'r ddarpariaeth breswyl ar draws Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau gofal newydd i ddarparu gwell ystod o fathau o gartrefi preswyl. Mae arian o'r grant adnoddau ymarferol wedi cael ei rwymo er mwyn helpu i ddatblygu'r cynlluniau hyn.

**Jonathan Morgan:** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wario ar gomisiynu llawdriniaethau yn y sector preifat yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a beth yw'r dadansoddiad ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ43064)

**Jonathan Morgan:** Faint o lawdriniaethau wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru eu comisiynu yn y sector preifat yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac ym mhob blwyddyn ers 1999? (WAQ43065)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu gwasanaethau ond yn darparu cyllid i'r byrddau iechyd lleol sydd wedyn yn comisiynu gwasanaethau oddi wrth ymddiriedolaethau'r GIG a phartïon eraill. Mae'r BILlau yn

ymgynghori ag ymddiriedolaethau'r GIG a grwpiau cymuned eraill i ganfod a dadansoddi anghenion eu pobl leol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu i ddiwallu'r anghenion hynny.

Y llynedd, dyrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £25 miliwn mewn perthynas â'r cynllun ail gynnig, a byddai cyfran o'r dyraniad hwnnw wedi mynd i'r sector annibynnol preifat.

**Brynle Williams:** Faint o bobl yng Nghymru sy'n dioddef o glefyd ar yr iau a faint ohonynt sy'n cael eu trin yma yng Nghymru o'i gymharu â'r nifer sy'n gorfod teithio i Loegr i gael triniaeth? (WAQ43067)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu'n ganolog am nifer y trigolion yng Nghymru sy'n dioddef o glefyd ar yr iau. Fodd bynnag, dengys y tabl isod, am drigolion Cymru, nifer y cleifion mewnol a'r achosion dydd a gafodd eu trin lle mai clefyd ar yr iau oedd y prif ddiagnosis.

**Nifer y cyfnodau yn yr ysbyty lle mae clefyd ar yr iau oedd y prif ddiagnosis (a)**

| | **Trigolion Cymru** | |
|---|---|---|
| **Bl (b)** | **Cafwyd triniaeth yn Lloegr** | **Cafwyd triniaeth yng Nghymru** |
| 2000 | 111 | 1,322 |
| 2001 | 122 | 1,381 |
| 2002 | 111 | 1,464 |
| 2003 | 132 | 1,468 |
| 2004 | 156 | 1,512 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

a. ICD 10 cod: K70 Clefyd Alcoholig ar yr iau, K71 Clefyd Gwenwynig ar yr iau, K72 Methiant Hepatig lle nad yw wedi'i ddosbarthu fel arall, K73 Hepatitis cronig lle nad yw wedi'i ddosbarthu fel arall, K74 Ffibrosis a sirosis yr iau, K75 Clefydau llidiol eraill ar yr iau, K76 Clefydau eraill ar yr iau, K77 Anhwylderau ar yr iau mewn clefydau sydd wedi'u dosbarthu fel arall, Q446 Clefyd cystig ar yr iau, B660 Opisthorciasis, B661 Clonorciasis, B663 Ffasgioliasis, E740 Clefyd storio glycogen
b. Blwyddyn dderbyn

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i gasglu tystiolaeth am lefelau anhwylderau'r sbectrwm awtistig yng Nghymru? (WAQ43071)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pryd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhyddhau Strategaeth Gymru-gyfan ar gyfer Awtistiaeth at ddiben ymgynghori cyhoeddus? (WAQ43096)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa adnoddau a strwythurau a sefydlir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod unigolion o'r sbectrwm Awtistig ym mhob cwr o Gymru, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau dysgu, yn gallu cyfrannu at yr ymgynghori ar Strategaeth Gymru-gyfan ar gyfer Awtistiaeth? (WAQ43097)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa dargedau clir a mesuradwy a gynhwysir yn Strategaeth Gymru-gyfan ar gyfer Awtistiaeth? (WAQ43098)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gynlluniau sydd o fewn Strategaeth Gymru-gyfan ar gyfer Awtistiaeth i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau therapyddion galwedigaethol yng Nghymru? (WAQ43099)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gyfleoedd ar gyfer swyddi a chymorth sydd ar gael i bobl ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig yng Nghymru a sut y bydd Strategaeth Gymru-gyfan ar gyfer Awtistiaeth yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyflogaeth? (WAQ43100)

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gamau a gymerir ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r prinder pobl broffesiynol ym maes therapi lleferydd a therapi galwedigaethol yng Nghymru i blant sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig? (WAQ43101)

**Brian Gibbons:** Mae'r strategaeth ar gyfer anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yn cael ei drafftio ar hyn o bryd a gobeithiwn gynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf. O ystyried yr amseru hwnnw nid wyf am achub y blaen ar y ddogfen o ran ei chynnwys, nac am ragweld canlyniadau'r ymgynghori.

Bu nifer o randdeiliaid yn ymwneud â datblygu'r strategaeth ddrafft ac mae'r ymchwil sydd wedi cael ei wneud yn barod wedi cael ei ystyried.

Mae angen inni sicrhau bod y ddogfen ddrafft derfynol a'r ymgynghoriad yn cynnwys y gynulleidfa ehangaf bosibl. Fel rhan o'r broses hon byddaf yn gofyn i ystod o gyrff gwirfoddol weithio gyda ni i sicrhau ein bod yn cael barn unigolion o bob oedran sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr. Gallai'r canlyniadau o'r strategaeth hon gynnwys yr angen am ymchwil a gwaith datblygiadol pellach.

Dylai pobl sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig gael mynediad cydradd at ystod lawn rhaglenni'r Llywodraeth yn cynnwys cyfleoedd addysg a dysgu gydol oes neu gyfleoedd hyfforddi eraill lle byddai hyn yn helpu eu datblygu personol, eu cyfleoedd gyrfaol neu'n sicrhau eu cyflogaeth.

Caiff plant sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig eu trin gan amryw o staff lleferydd ac iaith a staff therapi galwedigaethol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ariannu hyfforddiant therapi lleferydd ar iaith—mae'r niferoedd sy'n cael eu hyfforddi wedi cynyddu o 86 yn 2000 i 131 yn 2004 ac mae cynlluniau'r gweithlu yn dangos bod angen rhagor eto. Athrofa Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd yw'r unig ddarparwr hyfforddiant therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru ar hyn o bryd ac, oherwydd cyfyngiadau capasiti, ni all dderbyn mwy o fyfyrwyr nag sy'n cael eu hyfforddi ar hyn o bryd ar y cwrs hwn. Yr ydym yn bwriadu ystyried opsiynau i ehangu hyfforddiant therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru yn y dyfodol. Yr ydym eisoes yn mynd i'r afael â'r angen am therapyddion galwedigaethol, ac mae'r niferoedd sy'n cael eu hyfforddi wedi cynyddu o 191 yn 2000 i 227 yn 2004. Cynyddodd nifer y staff a gyflogir mewn gwasanaethau therapi galwedigaethol o 920* yn 1997 i 1223* ym mis Medi 2004, a chynyddodd nifer y staff a gyflogir mewn gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith o 316* yn 1997 i 501* ym mis Medi 2004.

Penodwyd cyd-drefnydd lleferydd ac iaith ddiwedd mis Ionawr 2005 i sefydlu prosiectau peilot gwasanaethau lleferydd ac iaith a chanllawiau i'r dyfodol ar ffurf ddrafft. Mae cam cyntaf y prosiectau peilot wedi cael eu sefydlu gan weithio ar draws iechyd ac addysg i ddatblygu trefniadau comisiynu ar y cyd a gweithredu i sefydlu cyllideb gyfun er mwyn darparu gwasanaethau lleferydd ac iaith ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau y bydd cyd-dimau asesu ac ymyrryd yn gweithredu ar draws iechyd ac addysg ac y darperir cymorth ymyrryd yn yr ysgolion pa bryd bynnag y mae hynny'n bosibl.

Sefydlwyd grŵp cyfeirio allanol cenedlaethol i wasanaethau lleferydd ac iaith a chynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 16 Mai 2005. Bydd y grŵp, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, yn monitro cynnydd y prosiectau peilot ac yn cynghori'r Cynulliad ar faterion yn ymwneud â lleferydd, iaith ac anawsterau cyfathrebu.

***** DS: Mae'r ffigurau a roddir uchod yn cynnwys staff proffesiynol perthynol i iechyd sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau hyn, yn cynnwys therapyddion sydd wedi cymhwyso'n llawn, hyfforddwyr technegol a'u cynorthwywyr ond nid ydynt yn cynnwys cynorthwywyr gofal iechyd na staff cymorth arall.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut yr ariennir addysgwyr nyrsys clinigol, sydd y tu allan i fframwaith yr Agenda ar gyfer Newid? (WAQ43078)

**Brian Gibbons:** Caiff addysgwyr nyrsys clinigol eu cyflogi gan ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ac maent yn gyfrifol am fentora a chefnogi nyrsys dan hyfforddiant mewn sefydliad clinigol. Darperir cyllid i gynnal y swyddi hyn fodd bynnag gan y Cynulliad sy'n darparu arian wedi'i neilltuo i'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i gefnogi'r cynllun addasrwydd i ymarfer. Drwy'r cynllun hwn y cafodd y swyddi addysgwyr nyrsys clinigol eu creu.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog adroddiad cynnydd ar greu fframwaith strategol cenedlaethol ar gyfer clefydau resbiradol? (WAQ43080)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ymateb i WAQ42472, a gyflwynwyd i'w ateb ar 20 Ebrill 2005.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba archwiliad sydd wedi'i wneud i'r gwasanaethau sydd ar gael i drin clefydau resbiradol? (WAQ43081)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y broses o ddatblygu polisi ar gyfer clefydau resbiradol yng Nghymru. Un o'r amcanion fydd i gymunedau iechyd lleol a chymunedau gofal cymdeithasol adolygu eu darpariaeth gwasanaethau gyfredol yn erbyn y canllawiau cenedlaethol diweddaraf a argymhellwyd.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n sicrhau bod canllawiau NICE ar brofion spirometreg yn cael eu dilyn? (WAQ43082)

**Brian Gibbons:** Yr oedd canllawiau clinigol NICE ar 'Management of chronic obstructive pulmonary disease in adults in primary and secondary care' a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2004 (Canllaw Clinigol 12) yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â defnyddio spirometreg wrth ddiagnosis COPD.

Mae'r gwaith o fonitro bod canllawiau NICE (yn cynnwys canllaw clinigol 12 ar glefyd ysgyfeiniol cronig rhwystredig) yn cael eu gweithredu yn cael ei wneud ar lefel leol a lefel genedlaethol. Ar y lefel leol, mae'r cyfrifoldeb yn gorffwys gyda'r cyfarwyddwyr meddygol, cyfarwyddwyr nyrsio ac arweinwyr llywodraethu clinigol ar y BILlau ac mae gan yr ymddiriedolaethau systemau i sicrhau bod y canllawiau yn cael eu gweithredu, neu fod gwaith ar y gweill i sicrhau eu bod yn gweithio tuag at eu gweithredu'n llawn.

Ar y lefel genedlaethol, caiff y gweithredu gan y BILlau a'r ymddiriedolaethau ei fonitro drwy'r fframwaith gwella perfformiad, yn arbennig y dull cytbwys o fesur perfformiad, a thrwy eu mecanweithiau adrodd am lywodraethu clinigol. Mae cydymffurfio â chanllawiau NICE yn un o ofynion ein fframwaith newydd ar gyfer safonau gofal iechyd yng Nghymru hefyd, a lansiwyd gennyf yn Fforwm Ansawdd Cymru ar 12 Mai. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ymdrin â materion cydymffurfio fel rhan o'i hadolygiadau o gyrff GIG yn erbyn y safonau cenedlaethol hyn. Mae'n debygol y bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal adolygiadau thematig wedi'u seilio ar weithredu canllawiau NICE, mewn partneriaeth â a/neu ochr yn ochr â'r Comisiwn Gofal Iechyd.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion costau taliadau cyfalaf ar gyfer pob ymddiriedolaeth GIG bob blwyddyn ers ei chychwyn a pha ganran o gyfanswm y costau a ysgwyddir gan bob ymddiriedolaeth GIG y mae hyn yn ei chynrychioli? (WAQ43083)

**Brian Gibbons:** O dan ganllawiau'r Cynulliad, dim ond am gost afresymol y gellir darparu'r wybodaeth hon.

Cyflwynwyd taliadau cyfalaf gyntaf yn y GIG yn 1991. Daeth yr 14 ymddiriedolaeth gyfredol i fodolaeth ar wahanol adegau yn mynd yn ôl i 1992. Mae taliadau cyfalaf yn faes technegol iawn ac er mwyn canfod

y wybodaeth hon o'n cyfrifon cyhoeddedig byddai'n rhaid i'r swyddogion wneud cyfrifiadau manwl gan ystyried dibrisiant cyfrifon, gwaredu buddrannau, a ffactorau eraill ar gyfer pob ymddiriedolaeth dros 13 blynedd.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am werth stadau'r GIG sydd wedi'u gwerthu ers dechrau'r taliadau cyfalaf? (WAQ43084)

**Brian Gibbons:** O dan ganllawiau'r Cynulliad, dim ond am gost afresymol y gellir darparu'r wybodaeth hon.

Cyflwynwyd taliadau cyfalaf gyntaf yn y GIG yn 1991. Mae'n anymarferol manylu ar y derbyniadau o werthu rhannau o'r ystadau gan fynd yn ôl i 1991 gan y byddai'r dasg yn golygu tynnu gwybodaeth o amrywiaeth eang o gofnodion nad ydynt ar gael yn hwylus.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am sut y gwariwyd y refeniw a gasglwyd drwy daliadau cyfalaf yn y GIG? (WAQ43085)

**Brian Gibbons:** Prif egwyddor taliadau cyfalaf yw cydnabod bod cost i fuddsoddiadau cyfalaf a defnyddio asedau. Caiff y taliadau a godir ar ymddiriedolaethau eu hariannu ac maent yn rhan o'u llinellau sylfaen. Nid mater o ddefnyddio'r taliadau hyn i ariannu cynlluniau eraill mohono ac yn hanesyddol nid yw ariannu taliadau cyfalaf wedi cael unrhyw effaith o bwys ar bob corff.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y gwelyau talu fesul Ymddiriedolaeth GIG a sut mae hyn wedi newid er 1997? (WAQ43086)

**Brian Gibbons:** Nid yw nifer y gwelyau talu mewn ysbytai GIG yng Nghymru yn cael ei ddal yn ganolog. Mae'r tabl sydd ynghlwm yn dangos nifer y gwelyau preifat sy'n cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd fesul Ymddiriedolaeth. Er 1997-98 mae nifer y gwelyau preifat sy'n cael eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd mewn ysbytai GIG wedi gostwng yng Nghymru drwyddi draw. Bu gostyngiad ym mhob ymddiriedolaeth ond tair. Dangosodd Ymddiriedolaethau GIG Bro Morgannwg, Ceredigion a Chanolbarth Cymru ac Abertawe gynnydd bach drwyddynt draw.

Nifer y gwelyau preifat a gâi eu defnyddio bob dydd ar gyfartaledd

| | | | | | | | | **2004-05** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddiriedolaeth GIG** | **1997-98** | **1998-99** | **1999-2000** | **2000-01** | **2001-02** | **2002-03** | **2003-04** | **Chw 1** | **Chw 2** | **Chw 3** |
| Bro Morgannwg | 2.82 | 3.11 | 3.14 | 3.23 | 3.45 | 6.32 | 5.15 | 3.80 | 4.50 | 5.00 |
| Caerdydd a'r Fro | 0.37 | 0.26 | 0.14 | 0.43 | - | - | - | - | - | - |
| Sir Gaerfyrddin | 0.48 | 0.80 | 0.32 | - | 0.08 | 0.32 | 0.49 | 0.50 | 0.40 | 0.13 |
| Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 0.99 | 0.43 | 1.87 | 1.33 | 0.91 | 1.32 | 1.23 | 0.75 | 1.52 | 1.56 |
| Conwy a Sir Ddinbych | 1.36 | 0.76 | 0.29 | - | - | - | - | - | - | - |
| Gofal Iechyd Gwent | 4.94 | 5.63 | 5.30 | 4.50 | 3.58 | 2.35 | 1.94 | 3.00 | 3.60 | 3.30 |
| Gogledd-ddwyrain Cymru | 3.22 | 2.89 | 2.86 | 2.12 | 1.13 | - | - | - | - | - |
| Gogledd-orllewin Cymru | 1.09 | 0.76 | 0.98 | - | - | - | - | - | - | - |
| Sir Benfro a Derwen | 0.85 | 0.70 | 1.05 | 0.18 | 0.20 | - | 0.43 | 0.09 | 0.83 | 0.03 |
| Pontypridd a Rhondda | 0.37 | 0.77 | 0.62 | 0.55 | 0.42 | 0.77 | 0.47 | 0.24 | 0.53 | 0.09 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 1.35 | 1.42 | 3.52 | 4.33 | 4.61 | 3.94 | 3.69 | 4.18 | 2.20 | 3.50 |
| Cymru | 17.85 | 17.54 | 20.08 | 16.67 | 14.39 | 15.02 | 13.40 | 12.56 | 13.58 | 13.61 |

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o ymgynghorwyr y GIG sy'n ymwneud â phractis preifat ym mhob ymddiriedolaeth GIG a sut mae hyn wedi newid er 1997? (WAQ43087)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr ysbytai, a'r cyfleusterau ysbyty, a adeiladwyd drwy gyfrwng Menter Cyllid Preifat? (WAQ43089)

**Brian Gibbons:** Cafodd y cynlluniau GIG isod eu hariannu drwy'r fenter cyllid preifat:

Ysbytai: Dewi Sant yng Nghaerdydd, Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Cymuned Cas-gwent.

Cynlluniau rheoli ynni:
- dau yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent
- un yn Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin
- un yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych

Cynlluniau eraill
- Maes parcio a diogeledd yn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
- Llosgydd yn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
- Uned yr arennau a diabetes yn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych
- Llety staff yn Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda
- Uned llawfeddygaeth dydd, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent
- Monnow Court, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion costau ad-daliadau pob ysbyty, a chyfleuster ysbyty, a godwyd drwy gyfrwng Menter Cyllid Preifat? (WAQ43090)

**Brian Gibbons:** Contractau masnachol a lofnodir gan yr ymddiriedolaethau a'u partneriaid yw cynlluniau PFI o fewn y GIG. Ni chesglir gwybodaeth ad-dalu yn ganolog. Mae a wnelo lefel yr ad-daliadau yn aml â lefel y perfformiad, neu lefelau'r galw am y gwasanaeth yn achos meysydd parcio a chynlluniau rheoli ynni.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y costau ariannol, cyfreithiol a chostau rheoli ymgynghorwyr fel rhan o gostau ad-daliadau pob ysbyty, a chyfleuster ysbyty, a godwyd drwy gyfrwng Menter Cyllid Preifat? (WAQ43091)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r costau ariannol, cyfreithiol a chostau rheoli ymgynghorwyr ar gynlluniau cyfalaf ymddiriedolaeth GIG, boed y rheini'n gynlluniau PFI ai peidio, yn cael eu casglu'n ganolog.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y gwasanaethau cynnal a chadw a'r gwasanaethau gyda chefnogaeth a ddarperir fel rhan o becyn Menter Cyllid Preifat pob ysbyty a chyfleuster ysbyty a godwyd drwy gyfrwng Menter Cyllid Preifat, ac a wnaiff roi costau'r gwasanaethau hynny, gan ddweud a ydynt wedi'u cynnwys yng nghostau'r ad-daliadau? (WAQ43092)

**Brian Gibbons:** Mae’r dosraniad gwasanaethau rhwng ymddiriedolaeth GIG a’i phartneriaid mewn cynlluniau PFI yn amrywio o gynllun i gynllun. Mae cynlluniau megis meysydd parcio a rheoli ynni yn denu lefel uwch o drosglwyddo gwasanaeth i bartneriaid yr ymddiriedolaeth na chynllun ysbyty. Yn aml, mae manylion y tâl unedol i elfennau penodol yn gyfrinachol yn fasnachol. Nid yw’r Cynulliad yn llofnodydd ar gontractau PFI y GIG ac nid yw’n dal y wybodaeth hon.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog egluro pwy fydd biau’r ysbytai, a’r cyfleusterau ysbyty, a godir drwy gyfrwng Menter Cyllid Preifat ar ddiwedd y cyfnod ad-dalu dan y contract? (WAQ43093)

**Brian Gibbons:** Mae’r ysbytai a’r cyfleusterau ysbytai a ariennir drwy PFI yn mynd yn ôl i berchenogaeth y GIG ar ddiwedd cyfnod y contract. Mae’r contractau hefyd yn pennu’r cyflwr y dylai’r asedau fod ynddo ar yr adeg y’u trosglwyddir.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog egluro a delir yr ad-daliadau ar gyfer ysbytai, a’r cyfleusterau ysbyty a godir drwy gyfrwng Menter Cyllid Preifat fel rhan o gostau gweithredu cyffredinol yr ysbytai? (WAQ43094)

**Brian Gibbons:** Mae’r taliadau tâl unedol PFI yn cael eu gwneud o refeniw’r ymddiriedolaeth GIG.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch pa ganran o gostau gweithredu pob ysbyty, a chyfleusterau ysbyty, a godir, drwy gyfrwng Menter Cyllid Preifat, sy’n gostau ad-dalu, a sut mae’r ganran hon wedi newid ers dechrau’r ad-dalu? (WAQ43095)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth am daliadau unedol fesul safle neu gyfleuster yn cael ei chasglu’n ganolog. Yn yr un modd, nid yw’r costau refeniw am gyfleusterau unigol megis llosgydd ar safle neilltuol yn cael eu casglu’n ganolog.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gamau a gymerir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i’r afael â’r prinder therapyddion galwedigaethol cymwysedig sy’n ymarfer yng Nghymru? (WAQ43102)

**Brian Gibbons:** Mae’r Cynulliad wedi ymrwymo i ehangu hyfforddiant therapi galwedigaethol yng Nghymru. Cynyddodd nifer y lleoedd hyfforddi o dan gontract o 153 yn 1999-2000 i 286 yn 2004-05, gan adlewyrchu ystod ehangach o hyfforddiant, sy’n cynnwys cwrs amser llawn tair blynedd, cwrs rhan-amser pedair blynedd a rhaglen gyflym ddwy flynedd.

Dengys ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cynulliad Cymru fod 764 (cyfrif pennau) o therapyddion galwedigaethol yn cael eu cyflogi yn GIG Cymru ar 30 Medi 2004. Mae hyn yn gynnydd er 30 Medi 1999 o 35.46 y cant (cyfrif pennau), ac yn gynnydd o 11.53 y cant (cyfrif pennau) er 30 Medi 2002.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba ganllawiau sydd wedi’u hanfon at feddygon ynghylch gwasanaeth i drin anffrwythlondeb? (WAQ43113) [W]

**Brian Gibbons:** Mae’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi cyhoeddi canllawiau clinigol ‘Fertility: assessment and treatment for people with fertility problems’ ym mis Chwefror 2004.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi meini prawf mynediad ar gyfer triniaeth ffrwythloni in vitro a thriniaeth chwistrellu sberm intrasytoplasmig yn y dyfodol agos.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad ailgyflunio'r GIG a'r dyddiad y disgwylir yr adroddiad? (WAQ43137)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwaith hwn ar y gweill ac mae'r cyfarwyddwyr rhanbarthol yn paratoi asesiadau rhagarweiniol dros y misoedd i ddod. Fel a ddywedwyd yn 'Cynllun Oes', y bwriad yw cyhoeddi fframwaith ailgyflunio gofal eilaidd ym mis Mawrth 2006 sy'n nodi'r patrwm gofal i'r dyfodol fel arweiniad i benderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

**Jonathan Morgan:** Beth yw cylch gorchwyl yr Adolygiad Ailgyflunio ac at ba ddiben y'i sefydlwyd? (WAQ43138)

**Brian Gibbons:** Cafodd y gwaith ailgyflunio ei gomisiynu fel rhan o'r ymateb i Adolygiad Wanless. Gofynnwyd i'r BILlau a'r awdurdodau lleol gynhyrchu cynlluniau gweithredu lleol, a fyddai yn eu hail ymarferiad cydweithio yn cwmpasu gofal eilaidd. Gofynnwyd i'r cyfarwyddwyr rhanbarthol hwyluso'r broses ac, yn fwy penodol, i edrych ar wasanaethau penodol o eiddo'r GIG sy'n croesi ffiniau BILlau, ac yr oedd hynny yn ôl ei natur yn cynnwys adolygu gwasanaethau gofal eilaidd. Law yn llaw â'r comisiwn cafwyd fframwaith yn nodi polisïau ar wasanaethau, yn cynnwys gofyniad fod angen i bob rhanbarth o Gymru weithio drwy'r effaith a gâi'r fframwaith ar ei boblogaeth. Erbyn hyn mae'r gwaith hwn yn dod o dan ymbarél y 'Cynllun Oes'.

**Jonathan Morgan:** Pwy sy'n cynnal Adolygiad Ailgyflunio GIG Cymru? (WAQ43139)

**Brian Gibbons:** Cyfarwyddwr rhanbarthol perthnasol y GIG sy'n arwain y gwaith ym mhob un o ranbarthau'r GIG. Maent yn cynnwys ystod eang o gynrychiolwyr lleol i sicrhau bod y gwaith wedi'i seilio ar lawer iawn o wybodaeth a'i fod yn sensitif i faterion lleol.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y BILlau gronni eu cyllidebau er mwyn datblygu partneriaethau strategol i gomisiynu gofal eilaidd fel y cyfeirir ato yn 'Cynllun Oes'? (WAQ43155)

**Brian Gibbons:** Bydd yr adolygiad o'r trefniadau comisiynu cyfredol yn edrych ar amryw o opsiynau, ac yn tynnu ar brofiad yng Nghymru a mannau eraill. Mae'n rhy gynnar eto i ddod i gasgliadau.

**Jonathan Morgan:** Pwy fydd yn gyfrifol am sbarduno partneriaethau strategol i gomisiynu gofal eilaidd fel y cyfeirir ato ar dudalen 39 'Cynllun Oes'? (WAQ43156)

**Brian Gibbons:** Mae'r partneriaethau strategol wedi'u bwriadu i gryfhau'r comisiynu, ac mae'r cyfrifoldeb am hynny yn gorffwys gyda'r BILlau, Comisiwn Iechyd Cymru a'r awdurdodau lleol. Byddant yn cadw'r cyfrifoldeb hwn a hwy eu hunain fydd yn rheoli'r partneriaethau, gyda'r swyddfeydd rhanbarthol. Defnyddir strategaeth gomisiynu newydd i symud hyn yn ei flaen yn 2006.

**Jonathan Morgan:** Sut fyddai'r Gweinidog yn diffinio 'cymunedau iechyd naturiol' fel y cyfeirir atynt yn 'Cynllun Oes'? (WAQ43157)

**Brian Gibbons:** Nid oes un diffiniad. Caiff cymunedau o'r fath eu pennu'n bennaf gan y llif cleifion a swmp gweithgarwch gwasanaeth sy'n gallu cynnal capasiti y mae modd iddo gyfiawnhau buddsoddi, cynnal sgiliau a sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel.

**Jonathan Morgan:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu gostwng diffyg ariannol y BILlau a'r ymddiriedolaethau? (WAQ43158)

**Brian Gibbons:** Nid oes cynlluniau newid strategol ac effeithlonrwydd wedi cael eu cynhyrchu gan unrhyw BILl nac ymddiriedolaeth sy'n darogan diffyg eto. Mae cynlluniau newid strategol ac effeithlonrwydd wedi cael eu paratoi i ymdrin â phob diffyg hanesyddol.

Caiff y cynlluniau newid strategol ac effeithlonrwydd eu paratoi gan BILlau ac ymddiriedolaethau unigol a bydd y mesurau a fabwysiedir yn lleol i adennill pob diffyg yn amrywio. Caiff y cynlluniau eu cymeradwyo gan y Cynulliad ac maent yn manylu ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, y mesurau adennill a hefyd maent yn nodi unrhyw gymorth dros dro sy'n ofynnol. Mae'r cynlluniau newid strategol ac effeithlonrwydd cyfredol y cytunwyd arnynt ar gyfer pob corff sydd â diffyg hanesyddol wedi'u seilio ar sicrhau y bydd cydbwysedd ariannol gwaelodol y sefydliadau hynny wedi cael ei adfer erbyn 31 Mawrth 2006.

**Jonathan Morgan:** Pa adnoddau ychwanegol yr ydych chi wedi'u nodi ar gyfer y tair swyddfa ranbarthol yn sgîl 'Cynllun Oes'? (WAQ43159)

**Brian Gibbons:** Nid oes adnoddau ychwanegol wedi cael eu nodi. Nod 'Cynllun Oes' yw sicrhau'r enillion mwyaf posibl o fuddsoddiadau mewn gwasanaethau rheng flaen.

**Jonathan Morgan:** Yn ystod y tri mis diwethaf faint o gleifion sydd wedi gallu cael gafael ar aelod priodol o'r tîm gofal iechyd sylfaenol o fewn y targed 24 awr? (WAQ43160)

**Brian Gibbons:** Ym mis Hydref 2003, rhoddwyd canllawiau i'r byrddau iechyd lleol ar ddarparu gwell gwasanaethau yn 2003-04. Daeth hyn ar ôl cyhoeddi 'Dyfodol Gofal Sylfaenol', sy'n rhoi ymrwymiad y bydd pob claf yn cael gweld aelod priodol o'r tîm gofal sylfaenol o fewn 24 awr iddo ofyn am apwyntiad ac yn llawer cynt mewn argyfwng. Comisiynir gwasanaethau oddi wrth bractisiau gan y byrddau iechyd lleol. Rhaid i bob practis ar draws Cymru sy'n ymuno â'r cynllun ymrwymo i gyrraedd y targed erbyn mis Ebrill 2006.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal manylion hyd at lefel cleifion unigol.

**Jonathan Morgan:** Yng ngoleuni 'Cynllun Oes' beth fydd effaith rhannu gwasanaethau dewisol a gwasanaethau brys ar:
a) trefniadau presennol Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfer defnyddio gwelyau yn y sector aciwt
b) y drefn bresennol o rannu adeiladau rhwng adrannau Damweiniau a Brys a gwasanaethau aciwt
c) dyrannu'r gwelyau sydd ar gael? (WAQ43161)

**Brian Gibbons:** Y nod wrth wahanu'r ffrwd ddewisol a'r ffrwd frys yw sicrhau nad yw cynnydd sydyn yn y galw yn tarfu ar wasanaethau, bod cleifion yn cael y gwasanaethau sy'n fwyaf abl i'w cynorthwyo bob amser, a bod y staff yn gallu defnyddio eu sgiliau yn y mannau mwyaf addas. Byddai angen cynnal adolygiad manwl o'r gwasanaethau brys drwyddynt draw cyn rhannu'r ddwy ffrwd mewn unrhyw fordd, yn cynnwys gwneud asesiad trylwyr o'r angen am welyau ac adeiladau eraill fel rhan o wasanaeth damweiniau ac achosion brys modern. Byddai'r dyraniad gwelyau yn dibynnu ar asesiad manwl o ba wasanaethau sy'n ofynnol ym mhle, ar ôl dadansoddi'r galwadau a'r mathau amgen o driniaeth sydd ar gael mewn gwahanol fannau ar hyd y llwybr gofal.

**Jonathan Morgan:** Yng ngoleuni'r gwasanaethau aciwt lleol fel y'u hamlinellir ar dudalen 18 'Cynllun Oes' sut bydd rhannu'r ddarpariaeth yn wasanaethau anafiadau lleol a gwasanaethau achosion brys yn effeithio ar drefniadau cyfredol adrannau Damweiniau ac Achosion Brys? (WAQ43162)

**Brian Gibbons:** Y rhesymeg wrth wraidd rhannu'r ddarpariaeth yn wasanaethau anafiadau lleol a gwasanaethau achosion brys mwy arbenigol yw sicrhau bod cleifion bob amser yn cael y gwasanaethau sy'n fwyaf abl i'w cynorthwyo, a bod y staff yn gallu defnyddio eu sgiliau yn y mannau mwyaf addas. Nid yw'r rhesymeg hon yn newydd, ac yn ymarferol mae gwahanol lefelau o wasanaeth brys ar gael eisoes ar wahanol safleoedd yng Nghymru. Os câi newidiadau pellach eu hystyried yn angenrheidiol yng ngoleuni diogelwch cleifion neu amgylchiadau lleol eraill, ceid trafodaeth lawn gyda'r gymuned leol fel sy'n ofynnol yn ôl y canllawiau diweddar.

**Jonathan Morgan:** Yn unol â'r wybodaeth well a amlinellir ar dudalen 15 'Cynllun Oes' a gaiff cyfnodau aros a niferoedd yr apwyntiadau a gaiff eu canslo'u cyhoeddi ar gyfer pob ysbyty? (WAQ43163)

**Brian Gibbons:** Mae gwybodaeth am restrau aros yn cael ei chasglu a'i chyhoeddi ar hyn o bryd ar sail ymddiriedolaeth GIG neu fwrdd iechyd lleol ac nid oes data am nifer yr apwyntiadau a gaiff eu canslo yn cael eu casglu'n ganolog. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r GIG i gytuno ar y gofynion gwybodaeth er mwyn monitro hynt y strategaeth a'r ffordd orau o gipio gwasanaeth o'r fath.

**Jonathan Morgan:** Yn unol â'r wybodaeth well a amlinellir ar dudalen 15 'Cynllun Oes' ar ba fformat y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi manylion am heintiau a ddelir mewn ysbytai? (WAQ43164)

**Brian Gibbons:** Daeth yr ymgynghoriad ar gyhoeddi gwybodaeth am heintiadau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd i ben ar 24 Mai. Byddaf yn ystyried y mater yn ofalus yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law, a bydd fy swyddogion yn trafod gyda'r gwasanaeth a'r proffesiwn sut y gall data o'r fath gael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi mewn modd ystyrlon.

**Jonathan Morgan:** Faint o ymgynghorwyr yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys oedd yn y GIG yn 1999 a faint sydd ynddo heddiw? (WAQ43165)

**Brian Gibbons:** Dengys y tabl isod y nifer o ymgynghorwyr oedd yn gweithio mewn adrannau damweiniau ac achosion brys fel eu prif arbenigedd ym mlynyddoedd 1999 a 2004.

| | **Ymgynghorwyr** | |
|---|---|---|
| **Bl (a)** | **Nifer** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| 1999 | 22 | 20.6 |
| 2004 | 34 | 32.6 |

(a) 30 Medi.

**Jonathan Morgan:** O'r 10% o gleifion damweiniau ac achosion brys na chânt eu gweld o fewn 4 awr faint a welir o fewn: a) 4 i 5 awr, b) 5 i 6 awr, c) 6 i 7 awr, d) 7 i 8 awr, e) 8 i 9 awr, f) 9 i 10 awr? (WAQ43166)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r data hwn yn cael ei gasglu am y bandiau amser y gofynnwyd amdanynt. Am fandiau amser o fwy na phedair awr, wyth awr a 12 awr yn unig y mae'r data ar gael. Dengys ystadegau fod 87.5 y cant o'r holl gleifion sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys yn cael eu gweld o fewn pedair awr a bod 98 y cant yn cael eu gweld o fewn wyth awr.

**Jonathan Morgan:** Ar gyfer angiogram, beth yw'r cyfnod aros byrraf a'r cyfnod aros hwyaf yng Nghymru a sut mae'r rhain yn cymharu â ffigyrau Lloegr? (WAQ43167)

**Brian Gibbons:** Ar ôl cael cadarnhad mai cwestiwn wedi'i fwriadu am angiogramau nid anagramau oedd hwn, gallaf roi gwybod ei bod yn ofynnol o dan darged y fframwaith gwasanaeth a chyllid cyfredol i angiograffeg na ddylai'r un claf aros mwy na chwe mis am angiogram. Caiff hyn ei gwtogi i bedwar mis erbyn diwedd mis Mawrth 2006. Ar ddiwedd mis Mawrth 2005 yr oedd un claf yng Nghymru wedi bod yn aros mwy na chwe mis am angiogram. Nid oes data am yr amser aros byrraf am y driniaeth hon yn cael ei ddal yn ganolog.

Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yw amseroedd aros am driniaethau meddygol yn Lloegr.

**Jonathan Morgan:** Ar gyfer llawfeddygaeth y galon, beth yw'r cyfnod aros byrraf a'r cyfnod aros hwyaf yng Nghymru a sut mae'r rhain yn cymharu â ffigyrau Lloegr? (WAQ43168)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

Wyth mis yw targed y fframwaith gwasanaeth a chyllid i lawfeddygaeth y galon ar hyn o bryd, gan ostwng i chwe mis erbyn 31 Mawrth 2006. Ar 30 Ebrill 2005, nid oedd unrhyw gleifion yng Nghymru yn aros mwy nag wyth mis am lawfeddygaeth y galon.

**Jonathan Morgan:** Yng ngoleuni'r fframwaith strategol tair blynedd a geir ar dudalen 4 'Cynllun Oes~, faint o'r targedau cyfredol yn y fframweithiau gwasanaeth a chyllid a gaiff eu dileu? (WAQ43169)

**Brian Gibbons:** Mae'r fframwaith strategol yn gosod targedau ar gyfer diwedd cyfnod tair blynedd. Gosodir targedau blynyddol i arwain gwasanaethau tuag at yr amcanion tair blynedd. Mae'r targedau fframwaith gwasanaeth a chyllid sydd eisoes wedi'u gosod ar gyfer 2005-06 yn gydnaws â fframwaith strategol 2005-08 a bydd y GIG yn parhau i roi sylw iddynt.

**Jonathan Morgan:** O'r targedau blynyddol ar gyfer blwyddyn un a dau pob fframwaith strategol y cyfeirir atynt ar dudalen 4 "Cynllun Oes", faint fydd yn ychwanegol at y targedau hynny sydd eisoes wedi'u nodi yn y fframwaith gwasanaeth a chyllid? (WAQ43170)

**Brian Gibbons:** Bydd targedau blynyddol yn parhau i gael eu nodi drwy'r fframweithiau gwasanaeth a chyllid blynyddol a osodir ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Byddant yn cyd-fynd â'r fframweithiau strategol a osodir ar gyfer y cylchoedd tair blynedd.

**Jonathan Morgan:** O'r wyth pwynt bwled a restrir fel Gweledigaeth 2015 ar dudalen 4 "Cynllun Oes" faint sydd wedi'u cyhoeddi mewn dogfennau strategaeth/llywodraeth o'r blaen, ac ar ba ddyddiadau? (WAQ43171)

**Brian Gibbons:** Yr oedd pob un o'r materion y mae'r pwyntiau bwledi yn eu cwmpasu wedi'u cynnwys yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru' (cyhoeddwyd fis Chwefror 2001). Mae 'Cynllun Oes' wedi'i seilio'n benodol ar y cyfeiriad polisi a osodwyd bryd hynny ac mae'n mynd ag ef ymlaen i'r cam nesaf.

**Jonathan Morgan:** Beth sy'n cael ei ystyried yn "arbedion effeithlonrwydd sylweddol ar ben y gofyniad presennol" fel y'i hamlinellir ym mharagraff 48 y papur Cabinet CAB(04)48 ar Raglen Buddsoddi Cyfalaf y GIG? (WAQ43172)

**Brian Gibbons:** Nododd y rhagolygon ariannol am 2005-06 i 2007-08 y byddai'n rhaid i ymddiriedolaethau'r GIG wneud arbedion effeithlonrwydd o 3.31 y cant o leiaf yn 2005-06 er mwyn

cwrdd â chwyddiant cyflogau a phrisiau a phwysau costau cydnabyddedig yn deillio o ymrwymiadau nad oes dianc rhagddynt.

O ran 2006-07 a 2007-08, nid yw cylch cynllunio'r gyllideb ond yn ei gyfnodau cynnar. Er y bydd gofyn gwneud iawn am unrhyw fwlch cyllido drwy arbedion effeithlonrwydd, nid yw hyd a lled y gofynion hyn yn hysbys oherwydd bydd unrhyw gyllid a gaiff y gyllideb iechyd fel rhan o broses cylch cynllunio'r gyllideb yn cael gwared â'r angen i sefydlu arbedion sylweddol uwchlaw'r gofynion cyfredol.

**Jonathan Morgan:** Gan gyfeirio at dudalen 31 'Cynllun Oes' sy'n nodi bod y BILlau a'r Ymddiriedolaethau'n annhebygol o dderbyn rhagor o arian ar gyfer targedau amser-aros nes cwblhau'r Rhaglen Gwella, faint o BILlau sydd wedi cofnodi diffyg yn eu cyllideb wrth iddynt geisio cyflawni'r targedau orthopedig presennol? (WAQ43180)

**Brian Gibbons:** Cyhoeddais £32 miliwn o gyllid ym mis Chwefror yn gymorth tuag at gyrraedd y targedau amser-aros a blaenoriaethau eraill yn 2005-06. Caiff mwyafrif y cyllid hwn ei brosesu drwy'r cynllun ail gynnig a Chomisiwn Iechyd Cymru. Nid yw'r symiau cyllid ar gyfer pob arbenigedd a sefydliad wedi cael eu pennu eto gan fod cynlluniau fframwaith gwasanaeth a chyllid y GIG yn destun adolygiadau effeithlonrwydd sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Jonathan Morgan:** O ganlyniad i'r wybodaeth well a amlinellir yn nhudalen 15 'Cynllun Oes', sut yr ehangir dewis i gleifion? (WAQ43181)

**Brian Gibbons:** Diben casglu gwybodaeth ychwanegol yw rhoi gwell dealltwriaeth o ansawdd y gwasanaeth, a chynorthwyo i wella ansawdd. Y pwrpas fydd rhoi gwybodaeth a grym i gleifion. Fodd bynnag, bydd cleifion, megis eraill, yn gallu defnyddio'r wybodaeth i gymharu gwasanaethau.

**Jonathan Morgan:** Pa strategaethau a restrir yn atodiad 1 at 'Cynllun Oes' sydd erbyn hyn wedi'u llyncu i'r Strategaethau ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol? (WAQ43182)

**Brian Gibbons:** Rhestr o strategaethau i wella iechyd a gofal cymdeithasol yw'r strategaethau a restrir yn atodiad 1 at 'Cynllun Oes'. Y bwriad yn awr yw adolygu'r rhain i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r 'Cynllun Oes'.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog esbonio sut mae'r Llywodraeth yn mesur nifer y nyrsys sy'n gadael y GIG bob blwyddyn, ac a wnaiff nodi'r nifer sydd wedi gadael bob blwyddyn er 1999? (WAQ43183)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb blaenorol i WAQ41534, a gyflwynwyd i'w ateb ar 16 Chwefror 2005. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu data am nyrsys yn gadael ymddiriedolaethau ond nid yw'n gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gadael un ymddiriedolaeth ac yn ymuno ag un arall a'r rhai sy'n gadael y GIG yn gyfan gwbl.

**Nick Bourne:** Faint o nyrsys a meddygon sy'n ymarfer yng Nghymru y gwyddys eu bod wedi gadael y proffesiwn er mis Ionawr 2004, a sut mae'r ffigurau hyn yn cymharu â phob blwyddyn flaenorol er 1996? (WAQ41534)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnig sbectol am ddim i bobl sy'n hawlio budd-daliadau anabledd? (WAQ43195)

**Brian Gibbons:** Nid oes cynlluniau i newid y rheolau cyfredol o ran pwy sy'n gymwys i gael talebau optegol a ariannir gan y GIG. Nid yw pobl sy'n hawlio budd-daliadau anabledd yn dod o fewn y gofynion cymhwyso.

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno profion llygaid am ddim i bobl sy'n hawlio budd-daliadau anabledd? (WAQ43196)

**Brian Gibbons:** Nid oes cynlluniau i newid y rheolau cyfredol o ran pwy sy'n gymwys i gael profion golwg a ariannir gan y GIG.

**Sandy Mewies:** Faint o arian y Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol â phortffolio'r Gweinidog a glustnodwyd ar gyfer sir y Fflint ers mis Mai 2004? (WAQ43209)

**Brian Gibbons:** Darparodd y Cynulliad £143 miliwn o gyllid i Fwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint a £3.9 miliwn o gyllid i Gyngor Sir y Fflint ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2005. Nid yw'n bosibl nodi faint o'r cyllid hwnnw a ddarparwyd yn y cyfnod rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2005. Mae dyraniad BILl Sir y Fflint ar gyfer 2005-06 yn £147.4 miliwn. Ni chytunwyd eto ar ffigurau'r gyllideb o ran dyraniad 2005-06 y Cynulliad i Gyngor Sir y Fflint ar gyfer pob cyllideb, ond yr wyf wedi darparu rhywfaint o fanylion am hyn yn y tabl isod:

| **Disgrifiad o'r Gyllideb** | **£ Dyraniad 2004-05** | **£ Dyraniad 2005-06** |
|---|---|---|
| Grantiau i Awdurdodau Lleol | 100,000 | 104,000 |
| Grant Adnoddau Ymarferol | 780,262 | 780,262 |
| Grant Arbennig ar gyfer Cydweithio | 484,511 | 484,511 |
| Strategaeth Anfantais Feddyliol—Grant Gwasanaethau a Chymorth | 83,065 | Ni chytunwyd eto |
| Strategaeth Anfantais Feddyliol—Awdurdodau Lleol | 2,036,127 | Ni chytunwyd eto |
| Gwasanaethau Salwch Meddwl—Cefnogi Pobl ag Anableddau | 56,540 | - |
| Rhaglen Ddatblygu'r Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol | 259,581 | 311,152 |
| Cronfa Datblygu Rheoli Perfformiad | 101,522 | 101,767 |
| | 3,901,608 | 1,781,692 |

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i esbonio pam fod pryderon y cyhoedd ynghylch datblygiad Ysbyty Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael eu trosglwyddo i Ymddiriedolaeth y GIG yn hytrach nag i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ43225)

**Brian Gibbons:** Mae'r pryderon a ddaeth i law oddi wrth y cyhoedd wedi cael eu trosglwyddo i'r ymddiriedolaeth gan fod yr ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn datblygu'r achos busnes ar gyfer y datblygiad. Drwy weithredu fel hyn mae fy swyddogion yn ceisio sicrhau bod yr ymddiriedolaeth yn cael y cyfle i edrych ar, ac integreiddio'r, materion a godwyd yn yr achos busnes. Mae rhai o'r materion a godwyd hefyd yn faterion i benderfynu arnynt yn lleol. Pan fydd yr achos busnes amlinellol wedi'i gwblhau caiff ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol am gymeradwyaeth cyn symud ymlaen at achos busnes llawn. Bryd hynny byddwn yn gwneud yn siŵr fod sylw wedi cael ei roi i'r holl faterion a godwyd.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r rhesymau pam nad yw'r Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo ar gyfer datblygu Ysbyty Bwrdeistref Sirol Caerffili ac esbonio pa faterion sy'n cael eu hystyried ymhellach? (WAQ43226)

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pam nad yw'r achos busnes amlinellol wedi'i gymeradwyo ar ddatblygu Ysbyty Bwrdeistref Sirol Caerffili? (WAQ43227)

**Brian Gibbons:** Er mai'r gobaith yw y gellir ystyried rhoi cymeradwyaeth cyn gynted â phosibl, mae'n amlwg yn fwy pwysig fod pob mater yn ymwneud â'r datblygiad yn cael sylw priodol cyn rhoi caniatâd i symud ymlaen i'r cam nesaf. Dylai dull gweithredu o'r fath sicrhau y bydd y ddogfen, pan gaiff ei chyflwyno i graffu arni ac i gael ei chymeradwyo, yn cyflwyno achos cryf, sy'n rhoi gwerth am arian ac yn ymdrin ag anghenion gwasanaeth y boblogaeth.

Mae fy swyddogion wedi gweld dogfen ddrafft a gyflwynwyd rai misoedd yn ôl, y craffwyd arni ac a ddychwelyd i'r ymddiriedolaeth gan fod angen gwneud rhagor o waith arni. Yr wyf wedi darparu rhywfaint o wybodaeth fanwl am gostiadau a materion sy'n codi cyn hyn—mewn ymateb i WAQs 41994 a 41995. Ers hynny mae'r ymddiriedolaeth wedi bod yn gwneud gwaith mwy manwl ar yr achos ac efallai y bydd y wybodaeth hon wedi newid. Hyd nes y bydd gennym achos busnes amlinellol terfynol sydd wedi'i gwblhau ni chredaf ei bod yn briodol rhyddhau rhagor o wybodaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ym mha ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr adsefydlu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg? (WAQ43228)

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynyddu nifer y lleoliadau ar gyfer gweithwyr adsefydlu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg? (WAQ43229)

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynyddu nifer y lleoliadau hyfforddi ar gyfer gweithwyr adsefydlu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg? (WAQ43230)

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi pobl â nam ar eu golwg o ran eu hadsefydlu? (WAQ43231)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y gweithwyr adsefydlu sydd ar gael ar gyfer pobl â nam ar eu golwg ym mhob ardal awdurdod lleol, a pha gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i gynyddu'r niferoedd hynny? (WAQ43232)

**Brian Gibbons:** Mater i'r awdurdodau lleol yw asesu anghenion gofal pobl â nam ar eu golwg yn eu hardaloedd a phenderfynu faint o weithwyr adsefydlu y gallai fod angen iddynt eu cyflogi neu eu hurio o dan gontract i ddiwallu'r anghenion hynny a aseswyd. Mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol hefyd am ystyried gofynion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr adsefydlu.

Nid oes ystadegau am nifer y gweithwyr adsefydlu sy'n cael eu cyflogi neu eu hurio o dan gontract gan yr awdurdodau lleol yn cael eu casglu'n ganolog ond deallaf fod Cyngor Cymru i'r Deillion yn amcangyfrif fod 28 o weithwyr adsefydlu cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cyd-ariannu ymarferiad meincnodi yn ymwneud â phobl sydd â nam ar eu golwg. Cafodd yr ymarferiad meincnodi hwn ei reoli gan Syniad a chaiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn ddiweddarach ym mis Mehefin. Wedyn bydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ystyried unrhyw oblygiadau ehangach a allai godi o'r adroddiad meincnodi ar y cyd â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a chyrff eraill sydd â buddiant, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol.

Drwy drefniant ar wahân i hyn, mae'r swyddogion yn hwyluso cyfarfod rhwng Cyngor Cymru i'r Deillion, RNIB Cymru, Cwn Tywys i'r Deillion a mudiadau gwirfoddol eraill, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Cymdeithasol Cymru, Cyngor Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i drafod nifer o faterion yn ymwneud â gweithwyr adsefydlu yn cynnwys cymwysterau, cyrchu at hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r swm a dalwyd i ddarparwyr gofal iechyd preifat ar gyfer llawdriniaethau ysbyty ar gyfer pob blwyddyn ers 1997? (WAQ43233)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sydd â'r wybodaeth a geisiwch a, chyn 2003, yr hen awdurdodau iechyd. Fodd bynnag, darperir ffigurau o'r cyfrifon sydd wedi eu cyhoeddi yn y tablau canlynol. Er eu bod yn cynnwys taliadau a wnaed i 'gyrff preifat', maent hefyd yn cynnwys gwasanaethau a brynwyd oddi wrth gyrff eraill nad ydynt yn rhan o'r GIG.

Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno yr Awdurdodau Iechyd 1997/98 i 2002/03—Llinell 'Darparwyr Gofal Iechyd Eraill y Tu Allan i'r GIG'

| Blwyddyn | £m |
|---|---:|
| 1997-98 | 26.117 |
| 1998-99 | 28.802 |
| 1999-2000 | 35.482 |
| 2000-01 | 56.478 |
| 2001-02 | 79.663 |
| 2002-03 | 98.219 |

Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno y Byrddau Iechyd Lleol 2003-04—Llinell 'Darparwyr Preifat'

| Blwyddyn | £m |
|---|---:|
| 2003-04 | 15.643 |

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae'r Gweinidog yn mynd i'r afael â'r prinder presennol o frechlyn MMR? (WAQ43234)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y nifer cynyddol o achosion o glwy'r pennau? (WAQ43235)

**Brian Gibbons:** Mae gwaith cadw golwg y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn dangos bod hysbysiad wedi'i roi am 2,567 o achosion o glwy'r pennau hyd yma eleni. Mae hyn yn cymharu â 1,891 yn 2004 ar ei hyd ac mae'n barhad o'r duedd gynyddol a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o achosion y rhoddir hysbysiad amdanynt yn digwydd mewn pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc, er bod nifer cynyddol o hysbysiadau yn dod i law y tu allan i'r grŵp oedran hwn.

Mae rhai grwpiau o bobl yn dal i fod yn dueddol o gael clwy'r pennau—oherwydd llai o gysylltiad â'r haint naturiol mae'n debyg yn sgîl brechu cyfran uchel o'r boblogaeth. Ymysg y rhai y mae risg arbennig iddynt gael clwy'r pennau mae'r rhai oedd yn rhy hen i gael y ddau ddos a argymhellir drwy'r drefn arferol yn ystod plentyndod—y rhai oedd wedi'u geni cyn 1992—ond sy'n ddigon ifanc i fod wedi tyfu i fyny mewn cyfnod pan oedd nifer yr achosion o'r haint yn isel a'u bod felly wedi osgoi cael clwy'r pennau pan oeddynt yn blant.

Mae ein gweithwyr proffesiynol ni, ochr yn ochr â'r rhai yng ngwledydd eraill y DU, wedi bod yn cymryd camau i gyrraedd y bobl ifanc hynny nad ydynt wedi cael eu hamddiffyn. Mae hyn wedi golygu bod y galw am y brechlyn wedi bod yn uchel. Yr wyf yn falch o gadarnhau, fodd bynnag, fod y swyddogion wedi sicrhau brechlyn trwyddedig o gyflenwadau a gynhyrchwyd ar gyfer marchnadoedd yr

Almaen ac UDA. Mae’r rhain yn cael eu dosbarthu ar draws y DU, a bydd hynny’n parhau. Hefyd, mae’r ddau gwmni sy’n cynhyrchu’r brechlyn yn cymryd camau i gynyddu eu cynhyrchiant.

**Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau a sefydliadau addysg i gynorthwyo pobl â nam ar eu golwg sy’n ymuno â’r farchnad gyflogaeth a’r system addysg? (WAQ43236) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.***

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cymorth cyllido i RNIB Cymru, yn cynnwys grant o £60,000 am y cyfnod 2005–2008, a chymorth ar y cyd â Chanolfan Byd Gwaith ac Amcan 1 Cronfa Gymdeithasol Ewrop, i’w alluogi i fwrw ymlaen a’i waith yn helpu pobl sydd â phroblemau gyda’u golwg i ymgymryd â chyfleoedd addysg a chyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys helpu busnesau i ddeall eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, a sut y gall technoleg alluogi pobl sydd â nam ar eu golwg yn well i lwyddo yn y gweithle.

Yr ydym hefyd yn gweithio’n agos iawn gyda Chanolfan Byd Gwaith Cymru, y mae ei chynghorwyr cyflogaeth i’r anabl yn darparu cyngor arbenigol i bobl anabl i’w helpu i gymryd y cam i mewn i waith.

O ran cysylltiadau â sefydliadau addysg, mae ELWa yn ariannu lleoliadau i ddysgwyr mewn colegau arbenigol i’r deillion a’r rhai â nam ar eu golwg. Wrth wneud hynny, mae’n gweithio’n agos gyda Gyrfa Cymru, sy’n nodi dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ac y bydd angen lleoliadau arbenigol arnynt. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn gweithio’n agos gydag ysgolion, colegau a chyflogwyr i ganfod lleoliadau priodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgymryd ag archwiliad cynhwysfawr o’r gwasanaethau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg. Mae’r canfyddiadau o’n proses ymgynghori yn cael eu cyfuno’n un ddogfen ganllawiau ar gyfer ysgolion ac AALlau ar hyn o bryd ar ddarparu safonau ansawdd parthed y rhai sydd â nam o unrhyw fath ar eu synhwyrau.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Lisa Francis:** Pa gamau mae’r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod cyfamodau eiddo a sefydlwyd gan Awdurdodau Lleol yn deg, yn gyfiawn ac yn gynhwysol? (WAQ43068)

**Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Lle bo trawgludiad neu grant yn cael ei gyflawni gan awdurdod lleol o dan y cynllun ‘hawl i brynu’, mae adran 157 o Ddeddf Tai 1985 yn pennu o dan ba amgylchiadau y caiff yr awdurdod lleol hwnnw gynnwys, yn y trawsgludiad neu’r grant, gyfamod yn cyfyngu ar ryddid y tenant, yn cynnwys olynwyr yn y teitl, i waredu’r annedd hwnnw. Rhaid felly i unrhyw gyfamod o’r fath gydymffurfio â darpariaethau’r Ddeddf honno.

Os oes gan unrhyw berson bryderon am unrhyw gyfamodau sydd wedi’u cynnwys mewn trawsgludiadau neu grantiau o’r fath, gallant drafod y pryderon hynny gyda’r awdurdod lleol perthnasol a/neu geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain. Unwaith y bydd cyfamod wedi cael ei gyflawni, dylai unrhyw fater neu gwyn yn ymwneud â’r cyfamod hwnnw gael ei gyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol yn hytrach na Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Sandy Mewies:** Faint o arian y Cynulliad sy’n ymwneud yn benodol â phortffolio’r Gweinidog a glustnodwyd ar gyfer sir y Fflint ers mis Mai 2004? (WAQ43213)

**Edwina Hart:** Er mis Mai 2004 mae dros £21 miliwn o arian y Cynulliad wedi cael ei ddyrannu i sir y Fflint o’m portffolio i.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Cynulliad a Gweinidogion Llywodraeth y DU ar yr adnoddau y mae eu hangen i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau? (WAQ43038)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fel y byddwch yn gwybod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru, bellach yn dechrau ar drydydd cam yr ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog'. Yr wyf eisoes wedi cael trafodaethau am hyn gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddaf yn cyflwyno cynigion ar gyfer y trydydd cam i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal iddo ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Rhan o'r cynnig hwnnw fydd ailsefydlu'r cyd-weithgor trawsbleidiol ar gyflog cyfartal, yn debyg i'r un a sefydlwyd ar gyfer cam 1.